OFFERYNNAU STATUDOL

2008 Rhif 3229

CWMNÏAU

Rheoliadau (Erthyglau Enghreifftiol) Cwmnïau 2008

Gwnaed - - - -	*16 Rhagfyr 2008*
Rhoddwyd gerbron y Senedd	*17 Rhagfyr 2008*
Yn dod i rym - -	*1 Hydref 2009*

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a freiniwyd ynddo gan adran 19 o Ddeddf Cwmnïau 2006[(a)].

Dyfynnu a Chychwyn

1. Gellir dyfynnu'r Rheoliadau hyn fel Rheoliadau (Erthyglau Enghreifftiol) Cwmnïau 2008 a deuant i rym ar 1 Hydref 2009.

Erthyglau enghreifftiol i gwmnïau preifat wedi'u cyfyngu drwy gyfrannau

2. Mae Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn yn gosod yr erthyglau cymdeithasiad enghreifftiol ar gyfer cwmnïau preifat wedi'u cyfyngu drwy gyfrannau.

Erthyglau enghreifftiol i gwmnïau preifat wedi'u cyfyngu drwy warant

3. Mae Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn yn gosod yr erthyglau cymdeithasiad enghreifftiol ar gyfer cwmnïau preifat wedi'u cyfyngu drwy warant.

Erthyglau enghreifftiol i gwmnïau cyhoeddus

4. Mae Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn yn gosod yr erthyglau cymdeithasiad enghreifftiol ar gyfer cwmnïau cyhoeddus.

Ian Pearson
Gweinidog yr Economi a Busnes,
Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio
16 Rhagfyr 2008

[(a)] 2006 c.46.

ATODLEN 1
Rheoliad 2

ERTHYGLAU ENGHREIFFTIOL I GWMNÏAU PREIFAT WEDI'U CYFYNGU DRWY GYFRANNAU

MYNEGAI I'R ERTHYGLAU

RHAN 1
DEHONGLIAD A THERFYN YR ATEBOLRWYDD
1. Termau diffiniedig
2. Atebolrwydd aelodau

RHAN 2
CYFARWYDDWYR
PWERAU A CHYFRIFOLDEBAU CYFARWYDDWYR
3. Awdurdod cyffredinol y cyfarwyddwyr
4. Pŵer wrth-gefn y cyfranddeiliaid
5. Caiff cyfarwyddwyr ddirprwyo
6. Pwyllgorau

PENDERFYNIADAU CYFARWYDDWYR
7. Cyfarwyddwyr i gymryd penderfyniadau ar y cyd
8. Penderfyniadau unfrydol
9. Galw cyfarfod o'r cyfarwyddwyr
10. Ymuno mewn cyfarfodydd o'r cyfarwyddwyr
11. Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd o'r cyfarwyddwyr
12. Cadeirio cyfarfodydd o'r cyfarwyddwyr
13. Pleidlais fwrw
14. Buddiannau'n gwrthdaro
15. Cofnodion i'w cadw yng nghyswllt penderfyniadau
16. Disgresiwn cyfarwyddwyr i wneud rheolau pellach

PENODI CYFARWYDDWYR
17. Dulliau penodi cyfarwyddwyr
18. Terfynu penodiad cyfarwyddwr
19. Cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr
20. Treuliau cyfarwyddwyr

RHAN 3
CYFRANNAU A DOSRANIADAU
CYFRANNAU
21. Pob cyfran i gael ei thalu'n llawn
22. Pwerau i ryddhau gwahanol ddosbarthiadau cyfrannau
23. Y cwmni heb ei gyfrwymo gan fuddiannau llai nag absoliwt
24. Tystysgrifau cyfran
25. Tystysgrifau cyfran amnewid
26. Trosglwyddo cyfrannau
27. Trawsgludo cyfrannau
28. Arfer hawliau trawsgludeion

29. Trawsgludeion wedi'u cyfrwymo gan rybuddion blaenorol

BUDDRANNAU A DOSRANIADAU ERAILL
30. Y drefn ar gyfer datgan buddrannau
31. Talu buddrannau a dosraniadau eraill
32. Dim llog ar ddosraniadau
33. Dosraniadau heb eu hawlio
34. Dosraniadau heb fod ar ffurf arian parod
35. Ildio hawl i ddosraniadau

CYFALAFU ELW
36. Awdurdod i gyfalafu a meddiannu symiau wedi'u cyfalafu

RHAN 4
CYFRANDDEILIAID YN PENDERFYNU
TREFNU CYFARFODYDD CYFFREDINOL
37. Bod yn bresennol a chael siarad mewn cyfarfodydd cyffredinol
38. Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd cyffredinol
39. Cadeirio cyfarfodydd cyffredinol
40. Cyfarwyddwyr a rhai nad ydynt yn gyfranddeiliaid yn cael bod yn bresennol a siarad
41. Gohirio

PLEIDLEISIO MEWN CYFARFODYDD CYFFREDINOL
42. Pleidleisio: cyffredinol
43. Camgymeriadau ac anghydfodau
44. Pleidleisiau pôl
45. Cynnwys rhybuddion dirprwy
46. Danfon rhybuddion dirprwy
47. Diwygio penderfyniadau

RHAN 5
TREFNIADAU GWEINYDDOL
48. Y dulliau cyfathrebu i'w defnyddio
49. Seliau cwmni
50. Dim hawl i archwilio cyfrifon na chofnodion eraill
51. Darparu ar gyfer cyflogedigion wrth ddirwyn busnes i ben

INDEMNIO AC YSWIRIO CYFARWYDDWYR
52. Indemnio
53. Yswirio

RHAN 1
DEHONGLIAD A THERFYN YR ATEBOLRWYDD

Termau diffiniedig

1. Yn yr erthyglau, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall ystyr "erthyglau" yw erthyglau cymdeithasiad y cwmni;

mae “methdaliad” yn cynnwys gweithrediadau ansolfedd unigol o dan awdurdodaeth ar wahân i Gymru a Lloegr neu Ogledd Iwerddon, sydd ag effaith debyg i effaith methdaliad;
mae i “cadeirydd” yr ystyr sydd yn erthygl 12;
mae i “cadeirydd y cyfarfod” yr ystyr sydd yn erthygl 39;
mae “Deddfau Cwmnïau” yn golygu'r Deddfau Cwmnïau (yn unol â diffiniad adran 2 o Ddeddf Cwmnïau 2006) i'r graddau eu bod yn gymwys i'r cwmni;
ystyr “cyfarwyddwr” yw cyfarwyddwr i'r cwmni, ac mae'n cynnwys unrhyw un sy'n llenwi safle cyfarwyddwr, pa enw bynnag arall a roir arno;
mae i “derbynnydd dosraniad” yr ystyr sydd yn erthygl 31;
mae “dogfen” yn cynnwys, oni phennir fel arall, unrhyw ddogfen a gaiff ei hanfon neu ei chyflenwi ar ffurf electronig;
mae i “ffurf electronig” yr ystyr sydd yn adran 1168 o Ddeddf Cwmnïau 2006;
mae “llawndaledig”, gyda golwg ar gyfran, yn golygu bod y gwerth nominal ynghyd ag unrhyw bremiwm sydd i'w dalu i'r cwmni yng nghyswllt y gyfran honno wedi cael eu talu i'r cwmni;
mae i “ffurf copi caled” yr ystyr sydd yn adran 1168 o Ddeddf Cwmnïau 2006;
mae “deiliad”, mewn cysylltiad â chyfrannau, yn golygu'r sawl y cofnodwyd ei enw yn y gofrestr aelodau fel deiliad y cyfrannau;
ystyr “offeryn” yw dogfen ar ffurf copi caled;
mae i “penderfyniad arferol” yr ystyr sydd yn adran 282 o Ddeddf Cwmnïau 2006;
mae “taledig” yn golygu wedi'i dalu neu wedi'i gredydu'n daledig;
mae i “ymuno”, mewn cysylltiad â chyfarfod o'r cyfarwyddwyr, yr ystyr sydd yn erthygl 10;
mae i “rhybudd dirprwy” yr ystyr sydd yn erthygl 45;
mae “cyfranddeiliad” yn golygu rhywun sy'n dal cyfran;
ystyr “cyfrannau” yw cyfrannau yn y cwmni;
mae i “penderfyniad arbennig” yr ystyr sydd yn adran 283 o Ddeddf Cwmnïau 2006;
mae i “is-gwmni” yr ystyr sydd yn adran 1159 o Ddeddf Cwmnïau 2006;
mae “trawsgludai” yn golygu rhywun sydd â hawl i gyfran ar sail marwolaeth neu fethdaliad cyfranddeiliad neu rywsut arall yn ôl gweithrediad y gyfraith; ac
ystyr “ysgrifen” yw cynrychioli neu atgynhyrchu geiriau, symbolau neu wybodaeth arall ar ffurf weladwy drwy unrhyw ddull neu gyfuniad o ddulliau, p'un a gaiff hynny ei anfon neu ei gyflenwi ar ffurf electronig neu rywsut arall.

Oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, mae i unrhyw eiriau neu ymadroddion eraill yn yr erthyglau hyn yr un ystyr ag yn Neddf Cwmnïau 2006 fel yr oedd mewn grym ar y dyddiad y daeth yr erthyglau yn gyfrwymol ar y cwmni.

Atebolrwydd aelodau

2. Mae atebolrwydd yr aelodau wedi'i gyfyngu i'r swm, os o gwbl, sydd heb ei dalu yng nghyswllt y cyfrannau a ddaliant.

RHAN 2
CYFARWYDDWYR
PWERAU A CHYFRIFOLDEBAU CYFARWYDDWYR

Awdurdod cyffredinol y cyfarwyddwyr

3. Yn amodol ar yr erthyglau, mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am reoli busnes y cwmni, ac i'r diben hwn cânt arfer holl bwerau'r cwmni.

Pŵer wrth-gefn y cyfranddeiliaid

4. (1) Gall y cyfranddeiliaid, drwy benderfyniad arbennig, gyfarwyddo'r cyfarwyddwyr i gymryd camau penodedig neu ymatal rhag eu cymryd.

(2) Ni fydd unrhyw benderfyniad arbennig o'r fath yn annilysu unrhyw beth a wnaeth y cyfarwyddwyr cyn i'r penderfyniad gael ei fabwysiadu.

Caiff cyfarwyddwyr ddirprwyo

5. (1) Yn amodol ar yr erthyglau, caiff y cyfarwyddwyr ddirprwyo unrhyw rai o'r pwerau a freinir ynddynt o dan yr erthyglau

(a) i unrhyw berson neu bwyllgor;

(b) drwy unrhyw ddull (gan gynnwys drwy bŵer twrnai);

(c) i'r graddau hynny;

(d) mewn cysylltiad â'r pynciau neu'r meysydd hynny; ac

(e) o dan yr amodau a'r telerau hynny;

a welant yn dda.

(2) Os bydd y cyfarwyddwyr yn pennu felly, gall unrhyw ddirprwyo o'r fath awdurdodi dirprwyo pellach ar bwerau'r cyfarwyddwyr gan unrhyw un y cawsant eu dirprwyo iddo.

(3) Caiff y cyfarwyddwyr ddirymu unrhyw ddirprwyo'n llwyr neu'n rhannol, neu newid ei amodau a'i delerau.

Pwyllgorau

6. (1) Mae'n rhaid i bwyllgorau y bydd y cyfarwyddwyr yn dirprwyo unrhyw rai o'u pwerau iddynt ddilyn trefn sydd wedi'i seilio, i'r graddau y bo honno'n gymwys, ar y darpariaethau hynny o fewn yr erthyglau sy'n llywio cymryd penderfyniadau gan gyfarwyddwyr.

(2) Caiff y cyfarwyddwyr lunio rheolau gweithredu i unrhyw bwyllgor neu bob pwyllgor, a fydd yn drech na rheolau'n deillio o'r erthyglau os nad ydynt yn gyson â'r rheiny.

PENDERFYNIADAU CYFARWYDDWYR

Cyfarwyddwyr i gymryd penderfyniadau ar y cyd

7. (1) Y rheol gyffredinol lle mae penderfyniadau cyfarwyddwyr yn y cwestiwn yw bod rhaid i unrhyw benderfyniad a wneir gan y cyfarwyddwyr fod naill ai'n benderfyniad drwy fwyafrif mewn cyfarfod neu'n benderfyniad wedi'i gymryd yn unol ag erthygl 8.

(2) (a) Os nad oes ond un cyfarwyddwr gan y cwmni; a

(b) os nad yw unrhyw un o ddarpariaethau'r erthyglau'n mynnu bod rhaid iddo fod â mwy nag un cyfarwyddwr,

nid yw'r rheol gyffredinol yn gymwys a chaiff y cyfarwyddwyr gymryd penderfyniadau heb ystyried unrhyw un o ddarpariaethau'r erthyglau gyda golwg ar benderfyniadau cyfarwyddwyr.

Penderfyniadau unfrydol

8. (1) Caiff penderfyniad gan y cyfarwyddwyr ei gymryd yn unol â'r erthygl hon pan fydd yr holl gyfarwyddwyr cymwys yn cyfleu i'w gilydd, drwy unrhyw ddull, eu bod yn rhannu barn gyffredin ar fater.

(2) Gall penderfyniad o'r fath fod ar ffurf penderfyniad ysgrifenedig y cafodd copïau ohono eu llofnodi gan bob cyfarwyddwr cymwys neu y mae pob cyfarwyddwr cymwys wedi mynegi'i gytundeb ag ef mewn ffordd ysgrifenedig arall.

(3) Mae cyfeiriadau'r erthygl hon at gyfarwyddwyr cymwys yn sôn am gyfarwyddwyr a fyddai wedi bod â hawl i bleidleisio ar y mater pe byddid wedi'i gynnig fel penderfyniad mewn cyfarfod o'r cyfarwyddwyr.

(4) Ni ellir cymryd penderfyniad yn unol â'r erthygl hon os na fyddai'r cyfarwyddwyr wedi ffurfio cworwm mewn cyfarfod o'r fath.

Galw cyfarfod o'r cyfarwyddwyr

9. (1) Gall unrhyw gyfarwyddwr alw cyfarfod o'r cyfarwyddwyr drwy roi rhybudd am y cyfarfod i'r cyfarwyddwyr neu drwy awdurdodi ysgrifennydd y cwmni (os oes un) i roi rhybudd o'r fath.

(2) Rhaid i'r rhybudd am unrhyw gyfarfod o'r cyfarwyddwyr nodi

(a) yr amser a'r dyddiad a arfaethir iddo;

(b) ble mae i gael ei gynnal; ac

(c) os rhagwelir na fydd y cyfarwyddwyr sy'n ymuno yn y cyfarfod yn bresennol yn yr un lle, sut yr arfaethir iddynt gyfathrebu â'i gilydd yn ystod y cyfarfod.

(3) Rhaid rhoi rhybudd am gyfarfod o'r cyfarwyddwyr i bob cyfarwyddwr, ond does dim angen iddo fod yn ysgrifenedig.

(4) Does dim angen rhoi rhybudd am gyfarfod o'r cyfarwyddwyr i gyfarwyddwyr sy'n ildio'u hawl i rybudd am y cyfarfod hwnnw, drwy hysbysu'r cwmni i'r perwyl hwnnw nid mwy na 7 diwrnod ar ôl dyddiad cynnal y cyfarfod. Lle cyflwynir hysbysiad o'r fath ar ôl cynnal y cyfarfod, ni fydd hynny'n effeithio ar ddilysrwydd y cyfarfod na dilysrwydd unrhyw fusnes a gafodd ei drafod ynddo.

Ymuno mewn cyfarfodydd o'r cyfarwyddwyr

10. (1) Yn amodol ar yr erthyglau, bydd cyfarwyddwyr yn ymuno mewn cyfarfod o'r cyfarwyddwyr, neu ran o gyfarfod o'r cyfarwyddwyr,

(a) pan fo'r cyfarfod wedi cael ei alw ac yn digwydd yn unol â'r erthyglau, a

(b) pan fo modd iddynt bawb gyfleu i'r lleill unrhyw wybodaeth neu farn sydd ganddynt ar unrhyw eitem arbennig o fusnes y cyfarfod.

(2) Wrth bennu a yw cyfarwyddwyr yn ymuno mewn cyfarfod o'r cyfarwyddwyr, ystyriaethau amherthnasol yw ble mae unrhyw gyfarwyddwr neu sut maen nhw'n cyfathrebu â'i gilydd.

(3) Os nad yw pawb o'r cyfarwyddwyr sy'n ymuno mewn cyfarfod yn bresennol yn yr un lle, gallant benderfynu bod y cyfarfod i'w drin fel un sy'n cael ei gynnal ble bynnag y mae unrhyw un ohonynt.

Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd o'r cyfarwyddwyr

11. (1) Mewn cyfarfod o'r cyfarwyddwyr, oni bai bod cworwm yn ymuno, ni ellir pleidleisio ar unrhyw gynnig, ar wahân i gynnig y dylid galw cyfarfod arall.

(2) Gall y cworwm ar gyfer cyfarfodydd o'r cyfarwyddwyr gael ei bennu o dro i dro drwy benderfyniad gan y cyfarwyddwyr, ond rhaid iddo beidio byth â bod yn llai na dau, ac oni phennir fel arall dau fydd y cworwm.

(3) Os yw cyfanswm y cyfarwyddwyr am y tro yn llai na'r cworwm sy'n ofynnol, rhaid i'r cyfarwyddwyr beidio â chymryd unrhyw benderfyniad ar wahân i benderfyniad

(a) i benodi cyfarwyddwyr pellach, neu

(b) i alw cyfarfod cyffredinol fel y gall y cyfranddeiliaid benodi cyfarwyddwyr pellach.

Cadeirio cyfarfodydd o'r cyfarwyddwyr

12. (1) Gall y cyfarwyddwyr benodi cyfarwyddwr i gadeirio'u cyfarfodydd.

(2) Y cadeirydd y gelwir y sawl a gaiff ei benodi felly am y tro.

(3) Gall y cyfarwyddwyr derfynu penodiad y cadeirydd unrhyw adeg.

(4) Os na fydd y cadeirydd yn ymuno mewn cyfarfod o'r cyfarwyddwyr o fewn deg munud i'r amser yr oedd i fod i ddechrau, rhaid i'r cyfarwyddwyr sydd yn ymuno benodi un o'u nifer i'w gadeirio.

Pleidlais fwrw

13. (1) Os bydd nifer y pleidleisiau o blaid ac yn erbyn cynnig yn gyfartal, bydd pleidlais fwrw gan y cadeirydd neu unrhyw gyfarwyddwr arall sy'n cadeirio'r cyfarfod.

(2) Ond nid yw hyn yn gymwys os nad yw'r cadeirydd neu'r cyfarwyddwr arall, yn unol â'r erthyglau, i gael ei gyfrif fel rhywun sy'n ymuno yn y proses penderfynu at ddibenion cworwm neu bleidleisio.

Buddiannau'n gwrthdaro

14. (1) Os yw penderfyniad arfaethedig gan y cyfarwyddwyr yn ymwneud â thrafodyn neu gytundeb gwirioneddol neu arfaethedig â'r cwmni a bod cyfarwyddwr â buddiant ynddo, nid yw'r cyfarwyddwr hwnnw i'w gyfrif fel un sy'n ymuno yn y proses penderfynu at ddibenion cworwm neu bleidleisio.

(2) Ond os yw paragraff (3) yn gymwys, mae cyfarwyddwr sydd â buddiant mewn trafodyn neu gytundeb gwirioneddol neu arfaethedig â'r cwmni i'w gyfrif fel un sy'n ymuno yn y proses penderfynu at ddibenion cworwm neu bleidleisio.

(3) Mae'r paragraff hwn yn gymwys

(a) lle bo'r cwmni, drwy benderfyniad arferol, yn anghymhwyso darpariaeth yr erthyglau a fyddai fel arall yn atal cyfarwyddwr rhag cael ei gyfrif fel un sy'n ymuno yn y proses penderfynu;

(b) lle na ellir ystyried yn rhesymol fod buddiant y cyfarwyddwr yn debyg o greu gwrthdaro buddiannau; neu

(c) lle bo gwrthdrawiad buddiannau'r cyfarwyddwr yn deillio o achos goddefedig.

(4) At ddibenion yr erthygl hon, mae'r canlynol yn achosion goddefedig:

(a) gwarant a roddwyd, neu sydd i'w rhoi, gan gyfarwyddwr neu i gyfarwyddwr mewn cysylltiad â rhwymedigaeth wedi'i thynnu gan neu ar ran y cwmni neu unrhyw un o'i is-gwmnïau;

(b) tanysgrifio, neu gytuno i danysgrifio, ar gyfer cyfrannau neu warannoedd eraill y cwmni neu unrhyw un o'i is-gwmnïau, neu danysgrifennu, is-danysgrifennu neu warantu tanysgrifiad ar gyfer unrhyw gyfrannau neu warannoedd o'r fath; ac

(c) trefniadau lle bydd buddion ar gael i gyflogedigion a chyfarwyddwyr neu gyn-gyflogedigion a chyn-gyfarwyddwyr i'r cwmni neu unrhyw un o'i is-gwmnïau nad yw'n darparu buddion arbennig ar gyfer cyfarwyddwyr neu gyn-gyfarwyddwyr.

(5) At ddibenion yr erthygl hon, mae cyfeiriadau at benderfyniadau arfaethedig a phrosesau penderfynu yn cynnwys unrhyw gyfarfod o'r cyfarwyddwyr neu ran o gyfarfod o'r cyfarwyddwyr.

(6) Yn amodol ar baragraff (7), os bydd cwestiwn yn codi mewn cyfarfod o'r cyfarwyddwyr neu bwyllgor cyfarwyddwyr gyda golwg ar hawl cyfarwyddwr i ymuno yn y cyfarfod (neu mewn rhan o'r cyfarfod) at ddibenion pleidleisio neu gworwm, gall y cwestiwn, cyn dirwyn y cyfarfod i ben, gael ei atgyfeirio i sylw'r cadeirydd a bydd dyfarniad hwnnw mewn cysylltiad ag unrhyw gyfarwyddwr ar wahân i'r cadeirydd ei hun yn derfynol ac yn ddiymwad.

(7) Os bydd unrhyw gwestiwn gyda golwg ar hawl i ymuno yn y cyfarfod (neu mewn rhan o'r cyfarfod) yn codi yng nghyswllt y cadeirydd, mae'r cwestiwn i'w ddatrys drwy benderfyniad y cyfarwyddwyr yn y cyfarfod hwnnw, ac i'r diben hwn nid yw'r cadeirydd i'w gyfrif fel un sy'n ymuno yn y cyfarfod (neu yn y rhan honno o'r cyfarfod) at ddibenion pleidleisio neu gworwm.

Cofnodion i'w cadw yng nghyswllt penderfyniadau

15. Rhaid i'r cyfarwyddwyr sicrhau bod y cwmni'n cadw cofnod, yn ysgrifenedig, am o leiaf 10 mlynedd ar ôl dyddiad y penderfyniad a gofnodir, o bob penderfyniad unfrydol neu benderfyniad drwy fwyafrif a gaiff ei gymryd gan y cyfarwyddwyr.

Disgresiwn cyfarwyddwyr i wneud rheolau pellach

16. Yn amodol ar yr erthyglau, gall y cyfarwyddwyr wneud unrhyw reol a welant yn dda o ran sut y cymerant benderfyniadau, ac o ran sut y mae rheolau felly i'w cofnodi neu eu cyfleu i gyfarwyddwyr eraill.

PENODI CYFARWYDDWYR

Dulliau penodi cyfarwyddwyr

17. (1) Gall unrhyw un sy'n barod i weithredu'n gyfarwyddwr, ac y caniatâ'r gyfraith iddo wneud felly, gael ei benodi'n gyfarwyddwr

(a) drwy benderfyniad arferol, neu

(b) drwy benderfyniad gan y cyfarwyddwyr.

(2) Mewn unrhyw achos lle nad oes gan y cwmni gyfranddeiliaid na chyfarwyddwyr, a hynny yn sgil marwolaeth, bydd gan gynrychiolwyr personol y cyfranddeiliad olaf a fu farw yr hawl, drwy roi rhybudd ysgrifenedig, i benodi rhywun i fod yn gyfarwyddwr.

(3) At ddibenion paragraff (2), lle bydd 2 neu ragor o gyfranddeiliaid yn marw mewn amgylchiadau sy'n ei gwneud yn ansicr pwy oedd yr olaf i farw, ystyrir bod cyfranddeiliad iau wedi goroesi cyfranddeiliad hŷn.

Terfynu penodiad cyfarwyddwr

18. Mae rhywun yn rhoi heibio i fod yn gyfarwyddwr cyn gynted â bod

(a) y person hwnnw yn rhoi heibio i fod yn gyfarwyddwr yn rhinwedd unrhyw un o ddarpariaethau Deddf Cwmnïau 2006 neu ei fod yn cael ei wahardd rhag bod yn gyfarwyddwr o dan y gyfraith;

(b) gorchymyn methdalu yn cael ei wneud yn erbyn y person hwnnw;

(c) cyfamod yn cael ei wneud â chredydwyr y person hwnnw'n gyffredinol i ad-dalu dyledion y person;

(d) ymarferydd meddygol cofrestredig sy'n trin y person hwnnw yn cyflwyno barn ysgrifenedig i'r cwmni yn datgan bod y person wedi mynd yn gorfforol neu'n feddyliol analluog i weithredu'n gyfarwyddwr ac y gall aros felly am fwy na thri mis;

(e) llys, oherwydd iechyd meddwl y person hwnnw, yn gwneud gorchymyn yn atal y person yn llwyr neu'n rhannol rhag arfer unrhyw bwerau neu hawliau a fyddai ganddo fel arall;

(f) y cwmni'n cael ei hysbysu gan y cyfarwyddwr fod y cyfarwyddwr yn ymddiswyddo o'i safle a bod yr ymddiswyddo hwnnw wedi dod i rym yn unol â'r amodau.

Cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr

19. (1) Caiff cyfarwyddwyr ymgymryd ag unrhyw wasanaethau dros y cwmni y bydd y cyfarwyddwyr yn penderfynu arnynt.

(2) Bydd gan gyfarwyddwyr hawl i unrhyw gydnabyddiaeth y gall y cyfarwyddwyr ei phennu

(a) am eu gwasanaethau i'r cwmni fel cyfarwyddwyr, a

(b) am unrhyw wasanaeth arall a gyflawnant i'r cwmni.

(3) Yn amodol ar yr erthyglau, gall cydnabyddiaeth cyfarwyddwr

(a) fod ar unrhyw ffurf, a

(b) cynnwys unrhyw drefniadau mewn cysylltiad â thalu pensiwn, lwfans neu arian rhodd, neu unrhyw fudd-daliadau marwolaeth, salwch neu anabledd, i'r cyfarwyddwr hwnnw neu yn ei gyswllt.

(4) Oni bai bod y cyfarwyddwyr yn penderfynu fel arall, bydd cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr yn ymgronni o ddydd i ddydd.

(5) Oni bai bod y cyfarwyddwyr yn penderfynu fel arall, ni fydd cyfarwyddwyr yn atebol i'r cwmni am unrhyw gydnabyddiaeth a gânt fel cyfarwyddwyr neu

swyddogion eraill neu gyflogedigion i is-gwmnïau'r cwmni neu i unrhyw gorff corfforaethol arall y mae gan y cwmni fuddiant ynddo.

Treuliau cyfarwyddwyr

20. Gall y cwmni dalu unrhyw dreuliau rhesymol a dynnir yn briodol gan gyfarwyddwyr mewn cysylltiad â bod yn bresennol

(a) mewn cyfarfodydd o'r cyfarwyddwyr neu mewn pwyllgorau cyfarwyddwyr,

(b) mewn cyfarfodydd cyffredinol, neu

(c) mewn cyfarfodydd o ddeiliaid unrhyw ddosbarth o gyfrannau neu ddyledebau'r cwmni a gynhelir ar wahân,

neu fel arall mewn cysylltiad ag arfer eu pwerau a chyflawni'u cyfrifoldebau gyda golwg ar y cwmni.

RHAN 3
CYFRANNAU A DOSRANIADAU
CYFRANNAU

Pob cyfran i gael ei thalu'n llawn

21. (1) Nid oes yr un gyfran i'w rhoi am lai na chyfanred ei gwerth nominal ac unrhyw bremiwm sydd i'w dalu i'r cwmni yn gyfnewid am ei rhoi.

(2) Nid yw hyn yn gymwys i gyfrannau a gaiff eu cymryd gan y tanysgrifwyr i femorandwm y cwmni wrth ffurfio'r cwmni.

Pwerau i ryddhau gwahanol ddosbarthiadau cyfrannau

22. (1) Yn amodol ar yr erthyglau, ond heb afles i'r hawliau sydd ynghlwm wrth unrhyw gyfran bresennol, gall y cwmni ryddhau cyfrannau gyda'r hawliau neu'r cyfyngiadau hynny a all gael eu pennu drwy benderfyniad arferol.

(2) Gall y cwmni ryddhau cyfrannau sydd i'w hadennill, neu'n agored i'w hadennill yn ôl dewis y cwmni neu'r deiliad, a gall y cyfarwyddwyr bennu'r amodau, y telerau a'r dull adennill ar gyfer unrhyw gyfrannau o'r fath.

Y cwmni heb ei gyfrwymo gan fuddiannau llai nag absoliwt

23. Ac eithrio fel y myn y gyfraith, does neb i'w gydnabod gan y cwmni fel rhywun sy'n dal unrhyw gyfran ar goel, a heblaw am yr hyn a fynnir fel arall gan y gyfraith neu'r erthyglau, nid yw'r cwmni i'w gyfrwymo mewn unrhyw ffordd gan unrhyw fuddiant mewn cyfran, nac i gydnabod buddiant felly, ar wahân i berchnogaeth lwyr y deiliad ohoni a'r holl hawliau sydd ynghlwm wrthi.

Tystysgrifau cyfran

24. (1) Rhaid i'r cwmni roi i bob cyfranddeiliad, yn rhad ac am ddim, un neu ragor o dystysgrifau mewn cysylltiad â'r cyfrannau a ddelir gan y cyfranddeiliad hwnnw.

(2) Rhaid i bob tystysgrif bennu

(a) faint o gyfrannau, ac o ba ddosbarth, y caiff ei rhoi yn eu cyswllt;

(b) gwerth nominal y cyfrannau hynny;

(c) bod y cyfrannau wedi'u talu'n llawn; a

(d) unrhyw rifau gwahaniaethol a briodolwyd iddynt.

(3) Ni ellir rhoi tystysgrif ar gyfer cyfrannau o fwy nag un dosbarth.

(4) Os oes mwy nag un person yn dal cyfran, dim ond un dystysgrif y gellir ei rhoi yn ei chyswllt.

(5) Rhaid i dystysgrifau

(a) ddangos sêl gyffredin y cwmni, neu

(b) cael eu cyflawni fel arall yn unol â'r Deddfau Cwmnïau.

Tystysgrifau cyfran amnewid

25. (1) Os caiff tystysgrif a roddwyd mewn cysylltiad â chyfrannau deiliad

(a) ei niweidio neu ei difwyno, neu

(b) ei cholli, fe honnir, neu ei dwyn neu ei dinistrio,

bydd y cyfranddeiliad hwnnw â hawl i gael tystysgrif amnewid ar gyfer yr un cyfrannau.

(2) Lle bo cyfranddeiliad yn manteisio ar yr hawl i dderbyn tystysgrif amnewid o'r fath,

(a) caiff y person hwnnw fanteisio yr un pryd ar yr hawl i dderbyn un dystysgrif neu dystysgrifau ar wahân;

(b) rhaid iddo ddychwelyd i'r cwmni y dystysgrif sydd i'w hamnewid os yw wedi'i niweidio neu ei difwyno; ac

(c) rhaid iddo gydymffurfio â'r amodau hynny y gall y cyfarwyddwyr eu pennu gyda golwg ar dystiolaeth, indemniad a thalu ffi resymol.

Trosglwyddo cyfrannau

26. (1) Gellir trosglwyddo cyfrannau drwy gyfrwng offeryn trosglwyddo ar unrhyw ffurf arferol neu ar ffurf arall sy'n gymeradwy gan y cyfarwyddwyr, a hwnnw'n cael ei gyflawni gan neu ar ran y trosglwyddydd.

(2) Ni ellir codi ffi am gofrestru unrhyw offeryn trosglwyddo nac unrhyw ddogfen arall sy'n ymwneud â theitl unrhyw gyfran neu'n effeithio arno.

(3) Gall y cwmni gadw unrhyw offeryn trosglwyddo a gaiff ei gofrestru.

(4) Bydd y trosglwyddydd yn dal yn ddeiliad ar y gyfran nes i enw'r trosglwyddai gael ei gofnodi yn y gofrestr aelodau fel ei deiliad.

(5) Gall y cyfarwyddwyr wrthod cofrestru trosglwyddo cyfran, ac os gwnânt, mae'n rhaid i'r offeryn trosglwyddo gael ei ddychwelyd i'r trosglwyddai gyda'r hysbysiad gwrthod, oni bai eu bod yn amau y gall y trosglwyddo arfaethedig fod yn dwyll.

Trawsgludo cyfrannau

27. (1) Os bydd teitl cyfran yn mynd i drawsgludai, gall y cwmni gydnabod y trawsgludai yn unig fel yr un sydd â theitl i'r gyfran honno.

(2) Lle bo trawsgludai sy'n dangos y dystiolaeth honno o'i hawl i gyfrannau y gall y cyfarwyddwyr ei mynnu'n briodol,

(a) caiff y person hwnnw, yn amodol ar yr erthyglau, ddewis naill ai dod yn ddeiliad ar y cyfrannau dan sylw neu drefnu iddynt gael eu trosglwyddo i rywun arall, a

(b) yn amodol ar yr erthyglau a hyd nes i'r cyfrannau gael eu trosglwyddo i rywun arall, bydd ganddo'r un hawliau ag oedd gan y deiliad.

(3) Ond nid oes gan drawsgludeion yr hawl i fod yn bresennol na phleidleisio mewn cyfarfod cyffredinol, nac i gymeradwyo penderfyniad ysgrifenedig sydd yn yr arfaeth, yng nghyswllt cyfrannau y mae ganddynt deitl iddynt oherwydd marwolaeth neu fethdaliad y deiliad neu fel arall, oni bai eu bod yn dod yn ddeiliaid ar y cyfrannau hynny.

Arfer hawliau trawsgludeion

28. (1) Rhaid i drawsgludeion sydd am ddod yn ddeiliaid ar y cyfrannau yr enillasant hawl iddynt roi gwybod i'r cwmni'n ysgrifenedig am y dymuniad hwnnw.

(2) Os yw'r trawsgludai am i gyfran gael ei throsglwyddo i rywun arall, rhaid i'r trawsgludai gyflawni offeryn trosglwyddo yn ei chyswllt.

(3) Mae unrhyw drosglwyddo a wneir neu a gyflawnir o dan yr erthygl hon i gael ei drin fel pe bai wedi'i wneud neu ei gyflawni gan y sawl y deilliodd y trawsgludai hawliau ohono mewn cysylltiad â'r gyfran, ac fel pe na bai'r digwyddiad a roes fod i'r trawsgludo wedi codi.

Trawsgludeion wedi'u cyfrwymo gan rybuddion blaenorol

29. Os cyflwynir hysbysiad i gyfranddeiliad yng nghyswllt cyfrannau a bod trawsgludai â hawl i'r cyfrannau hynny, bydd y trawsgludai wedi'i gyfrwymo gan yr hysbysiad fel pe cawsai ei gyflwyno i'r cyfranddeiliad cyn bod enw'r trawsgludai wedi'i gofnodi yn y gofrestr aelodau.

BUDDRANNAU A DOSRANIADAU ERAILL

Y drefn ar gyfer datgan buddrannau

30. (1) Gall y cwmni, drwy benderfyniad arferol, ddatgan buddrannau a gall y cyfarwyddwyr benderfynu talu buddrannau dros dro.

(2) Rhaid peidio â datgan buddran oni bai bod y cyfarwyddwyr wedi argymell ei swm. Rhaid i fuddran o'r fath beidio â bod yn fwy na'r swm y mae'r cyfarwyddwyr yn ei argymell.

(3) Ni all unrhyw fuddran gael ei datgan na'i thalu oni bai ei bod yn gyson â phriod hawliau'r cyfranddeiliaid.

(4) Oni bai bod penderfyniad y cyfranddeiliaid i ddatgan buddran neu benderfyniad y cyfarwyddwyr i dalu un neu fod amodau rhyddhau cyfrannau felly yn pennu fel arall, rhaid iddi gael ei thalu yn ôl daliad cyfrannau pob cyfranddeiliad ar ddyddiad y penderfyniad neu'r dyfarniad i'w datgan neu ei thalu.

(5) Os caiff cyfalaf cyfrannau'r cwmni ei rannu'n wahanol ddosbarthiadau, ni ellir talu buddran dros dro ar gyfrannau sydd â hawliau gohiriedig neu anffafriedig ynghlwm wrthynt os bydd unrhyw fuddran flaenoriaethol mewn ôl-ddyled adeg ei thalu.

(6) Gall y cyfarwyddwyr dalu'n ysbeidiol unrhyw fuddran sy'n daladwy yn ôl cyfradd benodedig os ymddengys iddynt fod yr elw sydd ar gael i'w ddosbarthu yn cyfiawnhau'r talu.

(7) Os bydd y cyfarwyddwyr yn gweithredu gyda phob ewyllys da, ni thynnant atebolrwydd i ddeiliaid unrhyw gyfrannau y mae hawliau ffafriedig ynghlwm wrthynt, am unrhyw golled y gallant ei dioddef drwy dalu'n gyfreithlon fuddran dros dro ar gyfrannau sydd â hawliau gohiriedig neu anffafriedig.

Talu buddrannau a dosraniadau eraill

31. (1) Lle bo buddran neu swm arall sy'n ddosraniad yn daladwy mewn cysylltiad â chyfran, rhaid ei thalu yn un neu ragor o'r ffyrdd canlynol:

(a) trosglwyddo i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu wedi'i bennu gan dderbynnydd y dosraniad naill ai'n ysgrifenedig neu fel y gall y cyfarwyddwyr ddyfarnu rywsut arall;

(b) anfon siec wedi'i gwneud yn daladwy i dderbynnydd y dosraniad drwy'r post at dderbynnydd y dosraniad yng nghyfeiriad cofrestredig derbynnydd y dosraniad (os yw derbynnydd y dosraniad yn ddeiliad ar y gyfran), neu (mewn unrhyw achos arall) i gyfeiriad wedi'i bennu gan dderbynnydd y dosraniad naill ai'n ysgrifenedig neu fel y gall y cyfarwyddwyr ddyfarnu rywsut arall;

(c) anfon siec wedi'i gwneud yn daladwy i'r person hwnnw drwy'r post at y person yn y cyfeiriad hwnnw y bo derbynnydd y dosraniad wedi'i bennu naill ai'n ysgrifenedig neu fel y gall y cyfarwyddwyr ddyfarnu rywsut arall; neu

(d) unrhyw ddull talu arall y bydd y cyfarwyddwyr yn cytuno arno â derbynnydd y dosraniad naill ai'n ysgrifenedig neu fel y gall y cyfarwyddwyr ddyfarnu rywsut arall.

(2) Yn yr erthyglau, mae "derbynnydd y dosraniad" yn golygu, gyda golwg ar gyfran y mae buddran neu swm arall yn daladwy yn ei chyswllt,

(a) ddeiliad y gyfran; neu

(b) os oes dau neu ragor o gyd-ddeiliaid i'r gyfran, p'un bynnag ohonynt sydd wedi'i enwi gyntaf yn y gofrestr aelodau; neu

(c) y trawsgludai os nad oes gan y deiliad hawl i'r gyfran mwyach oherwydd marwolaeth neu fethdaliad, neu fel arall o dan weithrediad y gyfraith.

Dim llog ar ddosraniadau

32. Ni chaiff y cwmni dalu llog ar unrhyw fuddran neu swm arall sy'n daladwy mewn cysylltiad â chyfran oni threfnwyd fel arall

(a) yn unol ag amodau rhyddhau'r gyfran, neu

(b) yn unol â darpariaethau cytundeb arall rhwng deiliad y gyfran honno a'r cwmni.

Dosraniadau heb eu hawlio

33. (1) Gall pob buddran neu swm arall sydd

(a) yn daladwy mewn cysylltiad â chyfrannau, a

(b) heb ei hawlio ar ôl y datgan neu'r dod yn daladwy,

gael ei fuddsoddi neu ei ddefnyddio fel arall gan y cyfarwyddwyr er lles y cwmni tan ei hawlio.

(2) Nid yw talu unrhyw fuddran neu swm arall o'r fath i gyfrif ar wahân yn gwneud y cwmni'n ymddiriedolydd yn ei gyswllt.

(3) (a) Os oes deuddeng mlynedd wedi mynd heibio ers y dyddiad y daeth buddran neu swm arall yn ddyledus i'w dalu, a

(b) os nad yw derbynnydd y dosraniad wedi'i hawlio,

ni fydd derbynnydd y dosraniad â hawl mwyach i'r fuddran neu'r swm arall hwnnw a bydd yn peidio ag aros yn ddyledus gan y cwmni.

Dosraniadau heb fod ar ffurf arian parod

34. (1) Yn amodol ar delerau rhyddhau'r gyfran dan sylw, gall y cwmni, drwy benderfyniad arferol yn ôl argymhelliad y cyfarwyddwyr, benderfynu talu'r cyfan neu ran o fuddran neu ddosraniad arall sy'n daladwy yng nghyswllt cyfran drwy drosglwyddo asedion o werth cyfatebol heb fod ar ffurf arian parod (gan gynnwys, yn ddigyfyngiad, gyfrannau neu warannoedd eraill mewn unrhyw gwmni).

(2) At ddibenion talu dosraniad heb fod ar ffurf arian parod, gall y cyfarwyddwyr wneud unrhyw drefniadau a welant yn dda, gan gynnwys, lle cwyd unrhyw anhawster gyda golwg ar y dosraniad,

(a) bennu gwerth unrhyw asedion;

(b) talu arian parod i dderbynnydd unrhyw ddosraniad ar sail y gwerth hwnnw er mwyn addasu hawliau derbynwyr; ac

(c) breinio unrhyw asedion mewn ymddiriedolwyr.

Ildio hawl i ddosraniadau

35. Caiff derbynwyr dosraniadau ildio'u hawl i fuddran neu ddosraniad arall sy'n daladwy mewn cysylltiad â chyfran drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r cwmni i'r perwyl hwnnw, ond

(a) os oes mwy nag un deiliad i'r gyfran, neu

(b) fod mwy nag un person â hawl i'r gyfran, boed hynny oherwydd marwolaeth neu fethdaliad un neu ragor o gyd-ddeiliaid, neu fel arall,

ni fydd yr hysbysiad yn effeithiol oni bai y mynegir ei fod wedi'i roi, a'i lofnodi, gan bob un o'r deiliaid neu'r bobl sydd fel arall â hawl i'r gyfran.

CYFALAFU ELW

Awdurdod i gyfalafu a meddiannu symiau wedi'u cyfalafu

36. (1) Yn amodol ar yr erthyglau, gall y cyfarwyddwyr, os cânt eu hawdurdodi felly drwy benderfyniad arferol,

(a) benderfynu cyfalafu unrhyw ran o elw'r cwmni (p'un a fo ar gael i'w dosbarthu neu beidio) nad oes mo'i hangen i dalu buddran flaenoriaethol, neu unrhyw

swm er credyd yng nghyfrif premiwm cyfrannau neu gronfa adennill cyfalaf y cwmni; a

(b) meddiannu unrhyw swm y penderfynant felly ei gyfalafu ("swm wedi'i gyfalafu") er lles y bobl a fyddai wedi bod â hawl iddo pe câi ei ddosbarthu fel buddran ("y rhai sydd â hawl"), a hynny mewn dognau cymesur.

(2) Rhaid cymhwyso symiau wedi'u cyfalafu

(a) ar ran y bobl sydd â hawl, a

(b) yn yr un dognau cymesur ag unrhyw fuddran a fyddai wedi cael ei dosbarthu yn eu plith.

(3) Gellir cymhwyso unrhyw swm wedi'i gyfalafu wrth dalu cyfrannau newydd o swm nominal sy'n gyfartal â'r swm wedi'i gyfalafu, a'r rheiny wedyn yn cael eu clustnodi, wedi'u credydu fel rhai llawndaledig, ar gyfer y bobl sydd â hawl neu yn ôl fel y gallant gyfarwyddo.

(4) Gellir cymhwyso swm wedi'i gyfalafu a'i feddiannu o'r elw oedd ar gael i'w ddosbarthu wrth dalu dyledebau newydd gan y cwmni, a'r rheiny wedyn yn cael eu clustnodi, wedi'u credydu fel rhai llawndaledig, ar gyfer y bobl sydd â hawl neu yn ôl fel y gallant gyfarwyddo.

(5) Yn amodol ar yr erthyglau, gall y cyfarwyddwyr

(a) gymhwyso symiau wedi'u cyfalafu yn unol â pharagraffau (3) a (4) yn rhannol mewn un ffordd ac yn rhannol mewn ffordd arall;

(b) gwneud y trefniadau hynny a welant yn dda i drin cyfrannau neu ddyledebau sy'n dod yn ddosbarthadwy drwy ffracsiynau o dan yr erthygl hon (gan gynnwys rhoi tystysgrifau ffracsiynol neu drefnu taliadau arian parod); ac

(c) awdurdodi unrhyw berson i lunio cytundeb â'r cwmni ar ran pawb sydd â hawl, a hwnnw'n gyfrwymol arnynt yng nghyswllt clustnodi cyfrannau a dyledebau ar eu cyfer o dan yr erthygl hon.

RHAN 4
CYFRANDDEILIAID YN PENDERFYNU
TREFNU CYFARFODYDD CYFFREDINOL

Bod yn bresennol a chael siarad mewn cyfarfodydd cyffredinol

37. (1) Caiff rhywun fanteisio ar yr hawl i siarad mewn cyfarfod cyffredinol lle bo'r person hwnnw mewn sefyllfa i gyfleu i bawb sy'n bresennol yn y cyfarfod, yn ystod y cyfarfod ei hun, unrhyw wybodaeth neu farn sydd gan y person ar fusnes y cyfarfod.

(2) Caiff rhywun fanteisio ar yr hawl i bleidleisio mewn cyfarfod cyffredinol

(a) lle caiff y person hwnnw bleidleisio, yn ystod y cyfarfod ei hun, ar benderfyniadau a gyflwynir i bleidlais yn y cyfarfod, a

(b) lle gellir cymryd pleidlais y person hwnnw i ystyriaeth wrth bennu a yw penderfyniadau felly'n cael eu mabwysiadu neu beidio, yr un pryd â phleidleisiau pawb arall sy'n bresennol yn y cyfarfod.

(3) Gall y cyfarwyddwyr wneud pa drefniadau bynnag a welant yn briodol i alluogi'r rhai sy'n bresennol mewn cyfarfod cyffredinol i fanteisio ar eu hawl i siarad neu bleidleisio ynddo.

(4) Wrth bennu'r nifer sy'n bresennol mewn cyfarfod cyffredinol, nid yw o bwys a fydd unrhyw ddau neu ragor o'r aelodau sydd ynddo yn digwydd bod yn yr un lle â'i gilydd.

(5) Bydd dau neu ragor o bobl nad ydynt yn yr un lle â'i gilydd yn bresennol mewn cyfarfod cyffredinol lle mae eu hamgylchiadau'n golygu, os oes ganddynt yr hawl (neu pe derbynient yr hawl) i siarad a phleidleisio yn y cyfarfod hwnnw, fod modd iddynt (neu y byddai modd iddynt) fanteisio ar yr hawl honno.

Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd cyffredinol

38. Nid oes yr un busnes arall ar wahân i benodi cadeirydd y cyfarfod i'w drafod mewn cyfarfod cyffredinol os nad yw'r bobl sy'n bresennol ynddo yn ffurfio cworwm.

Cadeirio cyfarfodydd cyffredinol

39. (1) Lle mae'r cyfarwyddwyr wedi penodi cadeirydd, bydd y cadeirydd yn cadeirio cyfarfodydd cyffredinol os yw'n bresennol ac yn barod i wneud.

(2) Os nad yw'r cyfarwyddwyr wedi penodi cadeirydd neu os yw'r cadeirydd yn anfodlon cadeirio'r cyfarfod neu heb fod yn bresennol o fewn deg munud i'r amser yr oedd y cyfarfod i fod i ddechrau,

(a) rhaid i'r cyfarwyddwyr sydd yn bresennol, neu

(b) (os nad oes cyfarwyddwyr yn bresennol) rhaid i'r cyfarfod

benodi cyfarwyddwr neu gyfranddeiliad i gadeirio'r cyfarfod, a rhaid i benodiad cadeirydd y cyfarfod fod yn fusnes cyntaf i'r cyfarfod.

(3) Fel "cadeirydd y cyfarfod" y cyfeirir at y sawl sy'n cadeirio cyfarfod yn unol â'r erthygl hon.

Cyfarwyddwyr a rhai nad ydynt yn gyfranddeiliaid yn cael bod yn bresennol a siarad

40. (1) Caiff cyfarwyddwyr fod yn bresennol a siarad mewn cyfarfodydd cyffredinol, p'un a fônt yn gyfranddeiliaid neu beidio.

(2) Gall cadeirydd y cyfarfod ganiatáu i eraill nad ydynt

(a) yn gyfranddeiliaid i'r cwmni, neu

(b) yn awdurdodedig fel arall i fanteisio ar hawliau cyfranddeiliaid gyda golwg ar gyfarfodydd cyffredinol,

fod yn bresennol a siarad mewn cyfarfod cyffredinol.

Gohirio

41. (1) Os nad yw'r bobl sy'n bresennol mewn cyfarfod cyffredinol o fewn hanner awr i'r amser yr oedd y cyfarfod i fod i ddechrau yn ffurfio cworwm, neu os bydd cworwm yn peidio â bod yn bresennol yn ystod y cyfarfod, rhaid i gadeirydd y cyfarfod ei ohirio.

(2) Gall cadeirydd y cyfarfod ohirio cyfarfod cyffredinol lle mae cworwm yn bresennol

(a) os bydd y cyfarfod yn cydsynio i ohiriad, neu

(b) os ymddengys i gadeirydd y cyfarfod fod angen gohirio er mwyn sicrhau diogelwch unrhyw berson sy'n bresennol yn y cyfarfod neu fod busnes y cyfarfod yn cael ei gynnal mewn ffordd drefnus.

(3) Mae'n rhaid i gadeirydd y cyfarfod ohirio cyfarfod cyffredinol os bydd y cyfarfod yn ei gyfarwyddo i wneud.

(4) Wrth ohirio cyfarfod cyffredinol, rhaid i gadeirydd y cyfarfod

(a) naill ai pennu'r amser a'r lle y caiff ei ohirio iddynt neu ddatgan ei fod i barhau am amser ac mewn lle y bydd y cyfarwyddwyr yn eu pennu, a

(b) rhoi sylw i unrhyw gyfarwyddyd a roes y cyfarfod gyda golwg ar amser a lle unrhyw ohiriad.

(5) Os yw parhad cyfarfod a gafodd ei ohirio i ddigwydd mwy na 14 diwrnod ar ôl y gohirio, rhaid i'r cwmni roi o leiaf 7 diwrnod clir o rybudd amdano (hynny yw, heb gyfrif diwrnod y cyfarfod a gafodd ei ohirio a'r diwrnod y rhoir rhybudd)

(a) i'r un bobl y mae'n ofynnol eu rhybuddio am gyfarfodydd cyffredinol y cwmni, a

(b) yn cynnwys yr un wybodaeth y mae'n ofynnol i rybudd o'r fath ei chynnwys.

(6) Ni ellir trafod unrhyw fusnes mewn cyfarfod cyffredinol a gafodd ei ohirio na fyddid wedi gallu'i drafod yn briodol yn y cyfarfod pe na ddigwyddasai'r gohirio.

PLEIDLEISIO MEWN CYFARFODYDD CYFFREDINOL

Pleidleisio: cyffredinol

42. Rhaid i benderfyniad a gyflwynir i bleidlais mewn cyfarfod cyffredinol gael ei ddatrys drwy godi llaw, oni fynnir pôl yn briodol yn unol â'r erthyglau.

Camgymeriadau ac anghydfodau

43. (1) Ni ellir codi gwrthwynebiad i gymhwyster unrhyw berson sy'n pleidleisio mewn cyfarfod cyffredinol ac eithrio yn y cyfarfod ei hun neu mewn cyfarfod gohiriedig lle caiff y bleidlais a wrthwynebir ei mynegi, a bydd pob pleidlais na wrthodir yn y cyfarfod yn ddilys.

(2) Rhaid i unrhyw wrthwynebiad o'r fath gael ei atgyfeirio i sylw cadeirydd y cyfarfod a bydd dyfarniad hwnnw yn derfynol.

Pleidleisiau pôl

44. Gellir mynnu pôl yng nghyswllt penderfyniad

(a) cyn y cyfarfod cyffredinol lle caiff y penderfyniad ei gyflwyno i bleidlais, neu

(b) mewn cyfarfod cyffredinol, naill ai cyn codi llaw ar y penderfyniad hwnnw neu yn union ar ôl datgan canlyniad y codi llaw ar y penderfyniad.

(2) Gall pôl gael ei fynnu

(a) gan gadeirydd y cyfarfod;

(b) gan y cyfarwyddwyr;

(c) gan ddau neu ragor o bobl sydd â hawl i bleidleisio ar y penderfyniad; neu

(d) gan berson neu bobl sy'n cynrychioli nid llai na degfed ran o gyfanswm hawliau pleidleisio'r holl gyfranddeiliaid sydd â hawl i bleidleisio ar y penderfyniad.

(3) Gall cais am bleidlais pôl gael ei dynnu'n ôl

(a) os na chynhaliwyd y pôl eto, a

(b) os yw cadeirydd y cyfarfod yn cydsynio i'r tynnu'n ôl.

(4) Rhaid cynnal pôl yn syth ac yn unol â chyfarwyddyd cadeirydd y cyfarfod.

Cynnwys rhybuddion dirprwy

45. (1) Ni all dirprwyon gael eu penodi'n ddilys ond drwy hysbysiad ysgrifenedig ("rhybudd dirprwy") sydd

(a) yn nodi enw a chyfeiriad y cyfranddeiliad sy'n penodi'r dirprwy;

(b) yn uniaethu'r sawl sydd i'w benodi'n ddirprwy i'r cyfranddeiliad hwnnw a'r cyfarfod cyffredinol y mae'r person yn cael ei benodi yn ei gyswllt;

(c) wedi ei lofnodi gan neu ar ran y cyfranddeiliad sy'n penodi'r dirprwy, neu wedi ei ddilysu yn ôl fel y gall y cyfarwyddwyr ei bennu; a

(d) yn cael ei ddanfon i'r cwmni yn unol â'r erthyglau ac unrhyw gyfarwyddyd sydd wedi'i gynnwys yn y rhybudd am y cyfarfod cyffredinol dan sylw.

(2) Gall y cwmni fynnu bod rhybuddion dirprwy yn cael eu danfon ar ffurf arbennig, a gall bennu ffurfiau gwahanol at ddibenion gwahanol.

(3) Gall rhybuddion dirprwy bennu sut mae'r dirprwy a gaiff ei benodi o danynt i fod i bleidleisio (neu fod y dirprwy i fod i ymatal rhag pleidleisio) ar un neu ragor o benderfyniadau.

(4) Oni bai bod rhybudd dirprwy yn nodi fel arall, rhaid ei drin fel un

(a) sy'n caniatáu i'r sawl a benodir yn ddirprwy o dano ryddid o ran sut i bleidleisio ar unrhyw benderfyniadau atodol neu drefniadol a gaiff eu rhoi gerbron y cyfarfod, a

(b) sy'n penodi'r person hwnnw'n ddirprwy mewn cysylltiad ag unrhyw ohirio ar y cyfarfod cyffredinol y mae a wnelo ag ef yn ogystal â'r cyfarfod ei hun.

Danfon rhybuddion dirprwy

46. (1) Bydd rhywun sydd â hawl i fod yn bresennol, siarad neu bleidleisio mewn cyfarfod cyffredinol (naill ai drwy godi llaw neu drwy bleidlais pôl) yn aros â hawl felly yn y cyfarfod hwnnw neu mewn unrhyw ohiriad ohono, er y gall rhybudd dirprwy dilys fod wedi cael ei ddanfon i'r cwmni gan neu ar ran y person dan sylw.

(2) Gall penodiad o dan rybudd dirprwy gael ei alw'n ôl drwy ddanfon i'r cwmni hysbysiad ysgrifenedig wedi'i roi gan neu ar ran y sawl y rhoddwyd y rhybudd dirprwy ganddo neu ar ei ran.

(3) Dim ond os caiff ei ddanfon cyn dechrau'r cyfarfod neu'r cyfarfod gohiriedig y mae a wnelo ag ef y bydd hysbysiad sy'n galw penodiad dirprwy'n ôl yn dod i rym.

(4) Os na chaiff rhybudd dirprwy mo'i gyflawni gan y sawl sy'n penodi'r dirprwy, rhaid cyflwyno gydag ef dystiolaeth ysgrifenedig o awdurdod y sawl a'i cyflawnodd i'w gyflawni ar ran y penodydd.

Diwygio penderfyniadau

47. (1) Gall penderfyniad arferol sydd i'w gynnig mewn cyfarfod cyffredinol gael ei ddiwygio drwy benderfyniad arferol

(a) os cyflwynir i'r cwmni rybudd ysgrifenedig am y diwygio arfaethedig gan rywun sydd â hawl i bleidleisio yn y cyfarfod cyffredinol lle mae i gael ei gynnig, a hynny nid llai na 48 awr cyn yr amser a bennwyd i'r cyfarfod (neu unrhyw amser diweddarach y gall cadeirydd y cyfarfod ei bennu) a

(b) os nad yw'r diwygiad arfaethedig, ym marn resymol cadeirydd y cyfarfod, yn newid cwmpas y penderfyniad yn ei hanfod.

(2) Gall penderfyniad arbennig sydd i'w gynnig mewn cyfarfod cyffredinol gael ei ddiwygio drwy benderfyniad arferol

(a) os bydd cadeirydd y cyfarfod yn cynnig y diwygiad yn y cyfarfod cyffredinol lle bwriedir cynnig y penderfyniad, a

(b) os nad yw'r diwygiad yn mynd ymhellach na'r hyn sydd angen i gywiro nam gramadegol neu ryw nam ansylweddol arall yn y penderfyniad.

(3) Os bydd cadeirydd y cyfarfod, drwy weithredu â phob ewyllys da, yn penderfynu ar gam fod diwygio penderfyniad allan o drefn, nid yw camgymeriad y cadeirydd yn annilysu'r bleidlais ar y penderfyniad hwnnw.

RHAN 5
TREFNIADAU GWEINYDDOL

Y dulliau cyfathrebu i'w defnyddio

48. (1) Yn amodol ar yr erthyglau, gall unrhyw beth a anfonir neu a gyflenwir gan neu i'r cwmni o dan yr erthyglau gael ei anfon neu ei gyflenwi mewn unrhyw ffordd y mae Deddf Cwmnïau 2006 yn darparu ar ei chyfer mewn cysylltiad â dogfennau neu wybodaeth y mae unrhyw un o ddarpariaethau'r Ddeddf honno yn awdurdodi neu'n mynnu eu hanfon neu eu cyflenwi gan neu i'r cwmni.

(2) Yn amodol ar yr erthyglau, gall unrhyw hysbysiad neu ddogfen sydd i'w hanfon neu ei chyflenwi i gyfarwyddwr mewn cysylltiad â phenderfyniadau cyfarwyddwyr gael ei hanfon neu ei chyflenwi hefyd yn y ffordd honno y gofynnodd y cyfarwyddwr hwnnw am i hysbysiadau neu ddogfennau o'r fath gael eu hanfon neu eu cyflenwi iddo am y tro.

(3) Gall cyfarwyddwr ddod i gytundeb â'r cwmni y dylai hysbysiadau neu ddogfennau a anfonir at y cyfarwyddwr hwnnw mewn ffordd arbennig gael eu hystyried fel rhai sydd wedi dod i law o fewn ysbaid penodedig i'w hanfon, ac i'r ysbaid penodedig fod yn llai na 48 awr.

Seliau cwmni

49. (1) Dim ond drwy awdurdod y cyfarwyddwyr y gellir defnyddio unrhyw sêl gyffredin.

(2) Gall y cyfarwyddwyr benderfynu ymha ffordd ac ar ba ffurf y mae unrhyw sêl gyffredin i fod i'w defnyddio.

(3) Oni bai bod y cyfarwyddwyr yn penderfynu fel arall, os oes sêl gyffredin gan y cwmni a bod honno'n cael ei gosod ar ddogfen, rhaid i'r ddogfen gael ei llofnodi hefyd gan o leiaf un person awdurdodedig yng ngŵydd tyst a fydd yn cadarnhau'r llofnod.

(4) At ddibenion yr erthygl hon, person awdurdodedig yw

(a) unrhyw gyfarwyddwr i'r cwmni;

(b) ysgrifennydd y cwmni (os oes un); neu

(c) unrhyw un a gafodd ei awdurdodi gan y cyfarwyddwyr at ddibenion llofnodi dogfennau y caiff y sêl gyffredin ei gosod arnynt.

Dim hawl i archwilio cyfrifon na chofnodion eraill

50. Ac eithrio yn unol â darpariaethau'r gyfraith neu awdurdod y cyfarwyddwyr neu benderfyniad arferol gan y cwmni, does gan neb hawl i archwilio unrhyw rai o gofnodion cyfrifeg neu gofnodion neu ddogfennau eraill y cwmni yn rhinwedd ei safle fel cyfranddeiliad yn unig.

Darparu ar gyfer cyflogedigion wrth ddirwyn busnes i ben

51. Gall y cyfarwyddwyr benderfynu darparu ar gyfer lles pobl sydd wedi'u cyflogi neu a gafodd eu cyflogi gynt gan y cwmni neu unrhyw un o'i is-gwmnïau (ar wahân i gyfarwyddwr neu gyn-gyfarwyddwr neu gyfarwyddwr wrth gefn) mewn cysylltiad â dirwyn i ben neu drosglwyddo i unrhyw berson y cyfan neu ran o ymgymeriad y cwmni neu'r is-gwmni hwnnw.

INDEMNIO AC YSWIRIO CYFARWYDDWYR

Indemnio

52. (1) Yn amodol ar baragraff (2), gall unrhyw un o gyfarwyddwyr perthnasol y cwmni neu gwmni cysylltiedig gael ei indemnio ar sail asedion y cwmni rhag

(a) unrhyw atebolrwydd a dynnir gan y cyfarwyddwr hwnnw gyda golwg ar unrhyw esgeulustod, diffyg cydymffurfio, tor-ddyletswydd neu dor-ymddiriedaeth mewn perthynas â'r cwmni neu gwmni cysylltiedig,

(b) unrhyw atebolrwydd a dynnir gan y cyfarwyddwr hwnnw gyda golwg ar weithgareddau'r cwmni neu gwmni cysylltiedig yn rhinwedd ei sefyllfa fel ymddiriedolydd cynllun pensiwn galwedigaethol (yn unol â diffiniad adran 235(6) o Ddeddf Cwmnïau 2006),

(c) unrhyw atebolrwydd arall a dynnir gan y cyfarwyddwr hwnnw fel swyddog i'r cwmni neu gwmni cysylltiedig.

(2) Nid yw'r erthygl hon yn awdurdodi unrhyw indemniad a fyddai wedi'i wahardd neu ei wneud yn ddirym gan unrhyw un o ddarpariaethau'r Deddfau Cwmnïau neu gan unrhyw un arall o ddarpariaethau'r gyfraith.

(3) Yn yr erthygl hon

(a) mae cwmnïau'n gysylltiedig os yw un yn is-gwmni i'r llall neu fod y ddau'n is-gwmnïau i'r un corff corfforaethol, a

(b) mae "cyfarwyddwr perthnasol" yn golygu unrhyw gyfarwyddwr neu gyn-gyfarwyddwr i'r cwmni neu i gwmni cysylltiedig.

Yswirio

53. (1) Gall y cyfarwyddwyr benderfynu prynu a chadw yswiriant, ar draul y cwmni, er lles unrhyw gyfarwyddwr perthnasol yng nghyswllt unrhyw golled berthnasol.

(2) Yn yr erthygl hon

(a) mae "cyfarwyddwr perthnasol" yn golygu unrhyw gyfarwyddwr neu gyn-gyfarwyddwr i'r cwmni neu i gwmni cysylltiedig,

(b) mae "colled berthnasol" yn golygu unrhyw golled neu atebolrwydd a dynnwyd neu y gellir ei dynnu gan gyfarwyddwr perthnasol mewn cysylltiad â dyletswyddau neu bwerau'r cyfarwyddwr hwnnw gyda golwg ar y cwmni, unrhyw gwmni cysylltiedig neu unrhyw gronfa bensiwn neu gynllun cyfrannau i gyflogedigion y cwmni neu gwmni cysylltiedig, ac

(c) mae cwmnïau'n gysylltiedig os yw un yn is-gwmni i'r llall neu fod y ddau'n is-gwmnïau i'r un corff corfforaethol.

ATODLEN 2
Rheoliad 3

ERTHYGLAU ENGHREIFFTIOL I GWMNÏAU PREIFAT WEDI'U CYFYNGU DRWY WARANT

MYNEGAI I'R ERTHYGLAU

RHAN 1
DEHONGLIAD A THERFYN YR ATEBOLRWYDD

1. Termau diffiniedig
2. Atebolrwydd aelodau

RHAN 2
CYFARWYDDWYR
PWERAU A CHYFRIFOLDEBAU CYFARWYDDWYR
3. Awdurdod cyffredinol y cyfarwyddwyr
4. Pŵer wrth-gefn yr aelodau
5. Caiff cyfarwyddwyr ddirprwyo
6. Pwyllgorau

PENDERFYNIADAU CYFARWYDDWYR
7. Cyfarwyddwyr i gymryd penderfyniadau ar y cyd
8. Penderfyniadau unfrydol
9. Galw cyfarfod o'r cyfarwyddwyr
10. Ymuno mewn cyfarfodydd o'r cyfarwyddwyr
11. Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd o'r cyfarwyddwyr
12. Cadeirio cyfarfodydd o'r cyfarwyddwyr
13. Pleidlais fwrw
14. Buddiannau'n gwrthdaro
15. Cofnodion i'w cadw yng nghyswllt penderfyniadau
16. Disgresiwn cyfarwyddwyr i wneud rheolau pellach

PENODI CYFARWYDDWYR
17. Dulliau penodi cyfarwyddwyr
18. Terfynu penodiad cyfarwyddwr
19. Cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr
20. Treuliau cyfarwyddwyr

RHAN 3
AELODAU
DOD YN AELOD A RHOI HEIBIO I FOD YN AELOD
21. Ceisiadau am aelodaeth
22. Terfynu aelodaeth

TREFNU CYFARFODYDD CYFFREDINOL
23. Bod yn bresennol a chael siarad mewn cyfarfodydd cyffredinol
24. Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd cyffredinol
25. Cadeirio cyfarfodydd cyffredinol
26. Cyfarwyddwyr a rhai nad ydynt yn aelodau yn cael bod yn bresennol a siarad

27. Gohirio

PLEIDLEISIO MEWN CYFARFODYDD CYFFREDINOL
28. Pleidleisio: cyffredinol
29. Camgymeriadau ac anghydfodau
30. Pleidleisiau pôl
31. Cynnwys rhybuddion dirprwy
32. Danfon rhybuddion dirprwy
33. Diwygio penderfyniadau

RHAN 4
TREFNIADAU GWEINYDDOL
34. Y dulliau cyfathrebu i'w defnyddio
35. Seliau cwmni
36. Dim hawl i archwilio cyfrifon na chofnodion eraill
37. Darparu ar gyfer cyflogedigion wrth ddirwyn busnes i ben

INDEMNIO AC YSWIRIO CYFARWYDDWYR
38. Indemnio
39. Yswirio

RHAN 1
DEHONGLIAD A THERFYN YR ATEBOLRWYDD

Termau diffiniedig

1. Yn yr erthyglau, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall
ystyr "erthyglau" yw erthyglau cymdeithasiad y cwmni;
mae "methdaliad" yn cynnwys gweithrediadau ansolfedd unigol o dan awdurdodaeth ar wahân i Gymru a Lloegr neu Ogledd Iwerddon, sydd ag effaith debyg i effaith methdaliad;
mae i "cadeirydd" yr ystyr sydd yn erthygl 12;
mae i "cadeirydd y cyfarfod" yr ystyr sydd yn erthygl 25;
mae "Deddfau Cwmnïau" yn golygu'r Deddfau Cwmnïau (yn unol â diffiniad adran 2 o Ddeddf Cwmnïau 2006) i'r graddau eu bod yn gymwys i'r cwmni;
ystyr "cyfarwyddwr" yw cyfarwyddwr i'r cwmni, ac mae'n cynnwys unrhyw un sy'n llenwi safle cyfarwyddwr, pa enw bynnag arall a roir arno;
mae "dogfen" yn cynnwys, oni phennir fel arall, unrhyw ddogfen a gaiff ei hanfon neu ei chyflenwi ar ffurf electronig;
mae i "ffurf electronig" yr ystyr sydd yn adran 1168 o Ddeddf Cwmnïau 2006;
mae i "aelod" yr ystyr sydd yn adran 112 o Ddeddf Cwmnïau 2006;
mae i "penderfyniad arferol" yr ystyr sydd yn adran 282 o Ddeddf Cwmnïau 2006;
mae i "ymuno", mewn cysylltiad â chyfarfod o'r cyfarwyddwyr, yr ystyr sydd yn erthygl 10;
mae i "rhybudd dirprwy" yr ystyr sydd yn erthygl 31;
mae i "penderfyniad arbennig" yr ystyr sydd yn adran 283 o Ddeddf Cwmnïau 2006;
mae i "is-gwmni" yr ystyr sydd yn adran 1159 o Ddeddf Cwmnïau 2006; ac
ystyr "ysgrifen" yw cynrychioli neu atgynhyrchu geiriau, symbolau neu wybodaeth arall ar ffurf weladwy drwy unrhyw ddull neu gyfuniad o ddulliau, p'un a gaiff hynny ei anfon neu ei gyflenwi ar ffurf electronig neu rywsut arall.

Oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, mae i unrhyw eiriau neu ymadroddion eraill yn yr erthyglau hyn yr un ystyr ag yn Neddf Cwmnïau 2006 fel yr oedd mewn grym ar y dyddiad y daeth yr erthyglau yn gyfrwymol ar y cwmni.

Atebolrwydd aelodau

2. Mae atebolrwydd yr aelodau wedi'i gyfyngu i £1, sef y swm y mae pob aelod yn ymrwymo i'w gyfrannu at asedion y cwmni pe câi hwnnw ei ddirwyn i ben yn ystod ei aelodaeth neu o fewn blwyddyn iddo roi heibio i fod yn aelod, er mwyn

(a) talu dyledion a rhwymedigaethau'r cwmni yr ymrwymwyd iddynt cyn iddo roi heibio i'w aelodaeth,

(b) talu costau, codiannau a threuliau'r dirwyn i ben, ac

(c) addasu hawliau'r cyfranwyr ymhlith ei gilydd.

RHAN 2
CYFARWYDDWYR
PWERAU A CHYFRIFOLDEBAU CYFARWYDDWYR

Awdurdod cyffredinol y cyfarwyddwyr

3. Yn amodol ar yr erthyglau, mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am reoli busnes y cwmni, ac i'r diben hwn cânt arfer holl bwerau'r cwmni.

Pŵer wrth-gefn yr aelodau

4. (1) Gall yr aelodau, drwy benderfyniad arbennig, gyfarwyddo'r cyfarwyddwyr i gymryd camau penodedig neu ymatal rhag eu cymryd.

(2) Ni fydd unrhyw benderfyniad arbennig o'r fath yn annilysu unrhyw beth a wnaeth y cyfarwyddwyr cyn i'r penderfyniad gael ei fabwysiadu.

Caiff cyfarwyddwyr ddirprwyo

5. (1) Yn amodol ar yr erthyglau, caiff y cyfarwyddwyr ddirprwyo unrhyw rai o'r pwerau a freinir ynddynt o dan yr erthyglau

(a) i unrhyw berson neu bwyllgor;

(b) drwy unrhyw ddull (gan gynnwys drwy bŵer twrnai);

(c) i'r graddau hynny;

(d) mewn cysylltiad â'r pynciau neu'r meysydd hynny; ac

(e) o dan yr amodau a'r telerau hynny;

a welant yn dda.

(2) Os bydd y cyfarwyddwyr yn pennu felly, gall unrhyw ddirprwyo o'r fath awdurdodi dirprwyo pellach ar bwerau'r cyfarwyddwyr gan unrhyw un y cawsant eu dirprwyo iddo.

(3) Caiff y cyfarwyddwyr ddirymu unrhyw ddirprwyo'n llwyr neu'n rhannol, neu newid ei amodau a'i delerau.

Pwyllgorau

6. (1) Mae'n rhaid i bwyllgorau y bydd y cyfarwyddwyr yn dirprwyo unrhyw rai o'u pwerau iddynt ddilyn trefn sydd wedi'i seilio, i'r graddau y bo honno'n gymwys, ar y darpariaethau hynny o fewn yr erthyglau sy'n llywio cymryd penderfyniadau gan gyfarwyddwyr.

(2) Caiff y cyfarwyddwyr lunio rheolau gweithredu i unrhyw bwyllgor neu bob pwyllgor, a fydd yn drech na rheolau'n deillio o'r erthyglau os nad ydynt yn gyson â'r rheiny.

PENDERFYNIADAU CYFARWYDDWYR

Cyfarwyddwyr i gymryd penderfyniadau ar y cyd

7. (1) Y rheol gyffredinol lle mae penderfyniadau cyfarwyddwyr yn y cwestiwn yw bod rhaid i unrhyw benderfyniad a wneir gan y cyfarwyddwyr fod naill ai'n benderfyniad drwy fwyafrif mewn cyfarfod neu'n benderfyniad wedi'i gymryd yn unol ag erthygl 8.

(2) (a) Os nad oes ond un cyfarwyddwr gan y cwmni; a

(b) os nad yw unrhyw un o ddarpariaethau'r erthyglau'n mynnu bod rhaid iddo fod â mwy nag un cyfarwyddwr,

nid yw'r rheol gyffredinol yn gymwys a chaiff y cyfarwyddwyr gymryd penderfyniadau heb ystyried unrhyw un o ddarpariaethau'r erthyglau gyda golwg ar benderfyniadau cyfarwyddwyr.

Penderfyniadau unfrydol

8. (1) Caiff penderfyniad gan y cyfarwyddwyr ei gymryd yn unol â'r erthygl hon pan fydd yr holl gyfarwyddwyr cymwys yn cyfleu i'w gilydd, drwy unrhyw ddull, eu bod yn rhannu barn gyffredin ar fater.

(2) Gall penderfyniad o'r fath fod ar ffurf penderfyniad ysgrifenedig y cafodd copïau ohono eu llofnodi gan bob cyfarwyddwr cymwys neu y mae pob cyfarwyddwr cymwys wedi mynegi'i gytundeb ag ef mewn ffordd ysgrifenedig arall.

(3) Mae cyfeiriadau'r erthygl hon at gyfarwyddwyr cymwys yn sôn am gyfarwyddwyr a fyddai wedi bod â hawl i bleidleisio ar y mater pe byddid wedi'i gynnig fel penderfyniad mewn cyfarfod o'r cyfarwyddwyr.

(4) Ni ellir cymryd penderfyniad yn unol â'r erthygl hon os na fyddai'r cyfarwyddwyr wedi ffurfio cworwm mewn cyfarfod o'r fath.

Galw cyfarfod o'r cyfarwyddwyr

9. (1) Gall unrhyw gyfarwyddwr alw cyfarfod o'r cyfarwyddwyr drwy roi rhybudd am y cyfarfod i'r cyfarwyddwyr neu drwy awdurdodi ysgrifennydd y cwmni (os oes un) i roi rhybudd o'r fath.

(2) Rhaid i'r rhybudd am unrhyw gyfarfod o'r cyfarwyddwyr nodi

(a) yr amser a'r dyddiad a arfaethir iddo;

(b) ble mae i gael ei gynnal; ac

(c) os rhagwelir na fydd y cyfarwyddwyr sy'n ymuno yn y cyfarfod yn bresennol yn yr un lle, sut yr arfaethir iddynt gyfathrebu â'i gilydd yn ystod y cyfarfod.

(3) Rhaid rhoi rhybudd am gyfarfod o'r cyfarwyddwyr i bob cyfarwyddwr, ond does dim angen iddo fod yn ysgrifenedig.

(4) Does dim angen rhoi rhybudd am gyfarfod o'r cyfarwyddwyr i gyfarwyddwyr sy'n ildio'u hawl i rybudd am y cyfarfod hwnnw, drwy hysbysu'r cwmni i'r perwyl hwnnw nid mwy na 7 diwrnod ar ôl dyddiad cynnal y cyfarfod. Lle cyflwynir hysbysiad o'r fath ar ôl cynnal y cyfarfod, ni fydd hynny'n effeithio ar ddilysrwydd y cyfarfod na dilysrwydd unrhyw fusnes a gafodd ei drafod ynddo.

Ymuno mewn cyfarfodydd o'r cyfarwyddwyr

10. (1) Yn amodol ar yr erthyglau, bydd cyfarwyddwyr yn ymuno mewn cyfarfod o'r cyfarwyddwyr, neu ran o gyfarfod o'r cyfarwyddwyr,

(a) pan fo'r cyfarfod wedi cael ei alw ac yn digwydd yn unol â'r erthyglau, a

(b) pan fo modd iddynt bawb gyfleu i'r lleill unrhyw wybodaeth neu farn sydd ganddynt ar unrhyw eitem arbennig o fusnes y cyfarfod.

(2) Wrth bennu a yw cyfarwyddwyr yn ymuno mewn cyfarfod o'r cyfarwyddwyr, ystyriaethau amherthnasol yw ble mae unrhyw gyfarwyddwr neu sut maen nhw'n cyfathrebu â'i gilydd.

(3) Os nad yw pawb o'r cyfarwyddwyr sy'n ymuno mewn cyfarfod yn bresennol yn yr un lle, gallant benderfynu bod y cyfarfod i'w drin fel un sy'n cael ei gynnal ble bynnag y mae unrhyw un ohonynt.

Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd o'r cyfarwyddwyr

11. (1) Mewn cyfarfod o'r cyfarwyddwyr, oni bai bod cworwm yn ymuno, ni ellir pleidleisio ar unrhyw gynnig, ar wahân i gynnig y dylid galw cyfarfod arall.

(2) Gall y cworwm ar gyfer cyfarfodydd o'r cyfarwyddwyr gael ei bennu o dro i dro drwy benderfyniad gan y cyfarwyddwyr, ond rhaid iddo beidio byth â bod yn llai na dau, ac oni phennir fel arall dau fydd y cworwm.

(3) Os yw cyfanswm y cyfarwyddwyr am y tro yn llai na'r cworwm sy'n ofynnol, rhaid i'r cyfarwyddwyr beidio â chymryd unrhyw benderfyniad ar wahân i benderfyniad

(a) i benodi cyfarwyddwyr pellach, neu

(b) i alw cyfarfod cyffredinol fel y gall yr aelodau benodi cyfarwyddwyr pellach.

Cadeirio cyfarfodydd o'r cyfarwyddwyr

12. (1) Gall y cyfarwyddwyr benodi cyfarwyddwr i gadeirio'u cyfarfodydd.

(2) Y cadeirydd y gelwir y sawl a gaiff ei benodi felly am y tro.

(3) Gall y cyfarwyddwyr derfynu penodiad y cadeirydd unrhyw adeg.

(4) Os na fydd y cadeirydd yn ymuno mewn cyfarfod o'r cyfarwyddwyr o fewn deg munud i'r amser yr oedd i fod i ddechrau, rhaid i'r cyfarwyddwyr sydd yn ymuno benodi un o'u nifer i'w gadeirio.

Pleidlais fwrw

13. (1) Os bydd nifer y pleidleisiau o blaid ac yn erbyn cynnig yn gyfartal, bydd pleidlais fwrw gan y cadeirydd neu unrhyw gyfarwyddwr arall sy'n cadeirio'r cyfarfod.

(2) Ond nid yw hyn yn gymwys os nad yw'r cadeirydd neu'r cyfarwyddwr arall, yn unol â'r erthyglau, i gael ei gyfrif fel rhywun sy'n ymuno yn y proses penderfynu at ddibenion cworwm neu bleidleisio.

Buddiannau'n gwrthdaro

14. (1) Os yw penderfyniad arfaethedig gan y cyfarwyddwyr yn ymwneud â thrafodyn neu gytundeb gwirioneddol neu arfaethedig â'r cwmni a bod cyfarwyddwr â buddiant ynddo, nid yw'r cyfarwyddwr hwnnw i'w gyfrif fel un sy'n ymuno yn y proses penderfynu at ddibenion cworwm neu bleidleisio.

(2) Ond os yw paragraff (3) yn gymwys, mae cyfarwyddwr sydd â buddiant mewn trafodyn neu gytundeb gwirioneddol neu arfaethedig â'r cwmni i'w gyfrif fel un sy'n cymryd rhan yn y proses penderfynu at ddibenion cworwm neu bleidleisio.

(3) Mae'r paragraff hwn yn gymwys

(a) lle bo'r cwmni, drwy benderfyniad arferol, yn anghymhwyso darpariaeth yr erthyglau a fyddai fel arall yn atal cyfarwyddwr rhag cael ei gyfrif fel un sy'n ymuno yn y proses penderfynu;

(b) lle na ellir ystyried yn rhesymol fod buddiant y cyfarwyddwr yn debyg o greu gwrthdaro buddiannau; neu

(c) lle bo gwrthdrawiad buddiannau'r cyfarwyddwr yn deillio o achos goddefedig.

(4) At ddibenion yr erthygl hon, mae'r canlynol yn achosion goddefedig:

(a) gwarant a roddwyd, neu sydd i'w rhoi, gan gyfarwyddwr neu i gyfarwyddwr mewn cysylltiad â rhwymedigaeth wedi'i thynnu gan neu ar ran y cwmni neu unrhyw un o'i is-gwmnïau;

(b) tanysgrifio, neu gytuno i danysgrifio, ar gyfer gwarannoedd y cwmni neu unrhyw un o'i is-gwmnïau, neu danysgrifennu, is-danysgrifennu neu warantu tanysgrifiad ar gyfer unrhyw warannoedd o'r fath; ac

(c) trefniadau lle bydd buddion ar gael i gyflogedigion a chyfarwyddwyr neu gyn-gyflogedigion a chyn-gyfarwyddwyr i'r cwmni neu unrhyw un o'i is-gwmnïau nad yw'n darparu buddion arbennig ar gyfer cyfarwyddwyr neu gyn-gyfarwyddwyr.

(5) At ddibenion yr erthygl hon, mae cyfeiriadau at benderfyniadau arfaethedig a phrosesau penderfynu yn cynnwys unrhyw gyfarfod o'r cyfarwyddwyr neu ran o gyfarfod o'r cyfarwyddwyr.

(6) Yn amodol ar baragraff (7), os bydd cwestiwn yn codi mewn cyfarfod o'r cyfarwyddwyr neu bwyllgor cyfarwyddwyr gyda golwg ar hawl cyfarwyddwr i ymuno yn y cyfarfod (neu mewn rhan o'r cyfarfod) at ddibenion pleidleisio neu gworwm, gall y cwestiwn, cyn dirwyn y cyfarfod i ben, gael ei atgyfeirio i sylw'r cadeirydd a bydd dyfarniad hwnnw mewn cysylltiad ag unrhyw gyfarwyddwr ar wahân i'r cadeirydd ei hun yn derfynol ac yn ddiymwad.

(7) Os bydd unrhyw gwestiwn gyda golwg ar hawl i ymuno yn y cyfarfod (neu mewn rhan o'r cyfarfod) yn codi yng nghyswllt y cadeirydd, mae'r cwestiwn i'w ddatrys drwy benderfyniad y cyfarwyddwyr yn y cyfarfod hwnnw, ac i'r diben hwn nid yw'r cadeirydd i'w gyfrif fel un sy'n ymuno yn y cyfarfod (neu yn y rhan honno o'r cyfarfod) at ddibenion pleidleisio neu gworwm.

Cofnodion i'w cadw yng nghyswllt penderfyniadau

15. Rhaid i'r cyfarwyddwyr sicrhau bod y cwmni'n cadw cofnod, yn ysgrifenedig, am o leiaf 10 mlynedd ar ôl dyddiad y penderfyniad a gofnodir, o bob penderfyniad unfrydol neu benderfyniad drwy fwyafrif a gaiff ei gymryd gan y cyfarwyddwyr.

Disgresiwn cyfarwyddwyr i wneud rheolau pellach

16. Yn amodol ar yr erthyglau, gall y cyfarwyddwyr wneud unrhyw reol a welant yn dda o ran sut y cymerant benderfyniadau, ac o ran sut y mae rheolau felly i'w cofnodi neu eu cyfleu i gyfarwyddwyr eraill.

PENODI CYFARWYDDWYR

Dulliau penodi cyfarwyddwyr

17. (1) Gall unrhyw un sy'n barod i weithredu'n gyfarwyddwr, ac y caniatâ'r gyfraith iddo wneud felly, gael ei benodi'n gyfarwyddwr

(a) drwy benderfyniad arferol, neu

(b) drwy benderfyniad gan y cyfarwyddwyr.

(2) Mewn unrhyw achos lle nad oes gan y cwmni aelodau na chyfarwyddwyr, a hynny yn sgil marwolaeth, bydd gan gynrychiolwyr personol yr aelod olaf a fu farw yr hawl, drwy roi rhybudd ysgrifenedig, i benodi rhywun i fod yn gyfarwyddwr.

(3) At ddibenion paragraff (2), lle bydd 2 neu ragor o aelodau yn marw mewn amgylchiadau sy'n ei gwneud yn ansicr pwy oedd yr olaf i farw, ystyrir bod aelod iau wedi goroesi aelod hŷn.

Terfynu penodiad cyfarwyddwr

18. Mae rhywun yn rhoi heibio i fod yn gyfarwyddwr cyn gynted â bod

(a) y person hwnnw yn rhoi heibio i fod yn gyfarwyddwr yn rhinwedd unrhyw un o ddarpariaethau Deddf Cwmnïau 2006 neu ei fod yn cael ei wahardd rhag bod yn gyfarwyddwr o dan y gyfraith;

(b) gorchymyn methdalu yn cael ei wneud yn erbyn y person hwnnw;

(c) cyfamod yn cael ei wneud â chredydwyr y person hwnnw'n gyffredinol i ad-dalu dyledion y person;

(d) ymarferydd meddygol cofrestredig sy'n trin y person hwnnw yn cyflwyno barn ysgrifenedig i'r cwmni yn datgan bod y person wedi mynd yn gorfforol neu'n feddyliol analluog i weithredu'n gyfarwyddwr ac y gall aros felly am fwy na thri mis;

(e) llys, oherwydd iechyd meddwl y person hwnnw, yn gwneud gorchymyn yn atal y person yn llwyr neu'n rhannol rhag arfer unrhyw bwerau neu hawliau a fyddai ganddo fel arall;

(f) y cwmni'n cael ei hysbysu gan y cyfarwyddwr fod y cyfarwyddwr yn ymddiswyddo o'i safle a bod yr ymddiswyddo hwnnw wedi dod i rym yn unol â'r amodau.

Cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr

19. (1) Caiff cyfarwyddwyr ymgymryd ag unrhyw wasanaethau dros y cwmni y bydd y cyfarwyddwyr yn penderfynu arnynt.

(2) Bydd gan gyfarwyddwyr hawl i unrhyw gydnabyddiaeth y gall y cyfarwyddwyr ei phennu

(a) am eu gwasanaethau i'r cwmni fel cyfarwyddwyr, a

(b) am unrhyw wasanaeth arall a gyflawnant i'r cwmni.

(3) Yn amodol ar yr erthyglau, gall cydnabyddiaeth cyfarwyddwr

(a) fod ar unrhyw ffurf, a

(b) cynnwys unrhyw drefniadau mewn cysylltiad â thalu pensiwn, lwfans neu arian rhodd, neu unrhyw fudd-daliadau marwolaeth, salwch neu anabledd, i'r cyfarwyddwr hwnnw neu yn ei gyswllt.

(4) Oni bai bod y cyfarwyddwyr yn penderfynu fel arall, bydd cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr yn ymgronni o ddydd i ddydd.

(5) Oni bai bod y cyfarwyddwyr yn penderfynu fel arall, ni fydd cyfarwyddwyr yn atebol i'r cwmni am unrhyw gydnabyddiaeth a gânt fel cyfarwyddwyr neu swyddogion eraill neu gyflogedigion i is-gwmnïau'r cwmni neu i unrhyw gorff corfforaethol arall y mae gan y cwmni fuddiant ynddo.

Treuliau cyfarwyddwyr

20. Gall y cwmni dalu unrhyw dreuliau rhesymol a dynnir yn briodol gan gyfarwyddwyr mewn cysylltiad â bod yn bresennol

(a) mewn cyfarfodydd o'r cyfarwyddwyr neu mewn pwyllgorau cyfarwyddwyr,

(b) mewn cyfarfodydd cyffredinol, neu

(c) mewn cyfarfodydd o ddeiliaid dyledebau'r cwmni a gynhelir ar wahân,

neu fel arall mewn cysylltiad ag arfer eu pwerau a chyflawni'u cyfrifoldebau gyda golwg ar y cwmni.

RHAN 3
AELODAU
DOD YN AELOD A RHOI HEIBIO I FOD YN AELOD

Ceisiadau am aelodaeth

21. Ni ddaw neb yn aelod o'r cwmni oni bai

(a) fod y person hwnnw wedi cwblhau cais am aelodaeth ar ffurf wedi'i chymeradwyo gan y cyfarwyddwyr, a

(b) bod y cyfarwyddwyr wedi cymeradwyo'r cais.

Terfynu aelodaeth

22. (1) Caiff aelod dynnu'n ôl o aelodaeth o'r cwmni drwy roi rhybudd 7 diwrnod i'r cwmni yn ysgrifenedig.

(2) Ni ellir trosglwyddo aelodaeth.

(3) Daw aelodaeth rhywun i ben wrth i'r person hwnnw farw neu beidio â bod.

TREFNU CYFARFODYDD CYFFREDINOL

Bod yn bresennol a chael siarad mewn cyfarfodydd cyffredinol

23. (1) Caiff rhywun fanteisio ar yr hawl i siarad mewn cyfarfod cyffredinol lle bo'r person hwnnw mewn sefyllfa i gyfleu i bawb sy'n bresennol yn y cyfarfod, yn ystod y cyfarfod ei hun, unrhyw wybodaeth neu farn sydd gan y person ar fusnes y cyfarfod.

(2) Caiff rhywun fanteisio ar yr hawl i bleidleisio mewn cyfarfod cyffredinol

(a) lle caiff y person hwnnw bleidleisio, yn ystod y cyfarfod ei hun, ar benderfyniadau a gyflwynir i bleidlais yn y cyfarfod, a

(b) lle gellir cymryd pleidlais y person hwnnw i ystyriaeth wrth bennu a yw penderfyniadau felly'n cael eu mabwysiadu neu beidio, yr un pryd â phleidleisiau pawb arall sy'n bresennol yn y cyfarfod.

(3) Gall y cyfarwyddwyr wneud pa drefniadau bynnag a welant yn briodol i alluogi'r rhai sy'n bresennol mewn cyfarfod cyffredinol i fanteisio ar eu hawl i siarad neu bleidleisio ynddo.

(4) Wrth bennu'r nifer sy'n bresennol mewn cyfarfod cyffredinol, nid yw o bwys a fydd unrhyw ddau neu ragor o'r aelodau sydd ynddo yn digwydd bod yn yr un lle â'i gilydd.

(5) Bydd dau neu ragor o bobl nad ydynt yn yr un lle â'i gilydd yn bresennol mewn cyfarfod cyffredinol lle mae eu hamgylchiadau'n golygu, os oes ganddynt yr hawl (neu pe derbynient yr hawl) i siarad a phleidleisio yn y cyfarfod hwnnw, fod modd iddynt (neu y byddai modd iddynt) fanteisio ar yr hawl honno.

Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd cyffredinol

24. Nid oes yr un busnes arall ar wahân i benodi cadeirydd y cyfarfod i'w drafod mewn cyfarfod cyffredinol os nad yw'r bobl sy'n bresennol ynddo yn ffurfio cworwm.

Cadeirio cyfarfodydd cyffredinol

25. (1) Lle mae'r cyfarwyddwyr wedi penodi cadeirydd, bydd y cadeirydd yn cadeirio cyfarfodydd cyffredinol os yw'n bresennol ac yn barod i wneud.

(2) Os nad yw'r cyfarwyddwyr wedi penodi cadeirydd neu os yw'r cadeirydd yn anfodlon cadeirio'r cyfarfod neu heb fod yn bresennol o fewn deg munud i'r amser yr oedd y cyfarfod i fod i ddechrau,

(a) rhaid i'r cyfarwyddwyr sydd yn bresennol, neu

(b) (os nad oes cyfarwyddwyr yn bresennol) rhaid i'r cyfarfod

benodi cyfarwyddwr neu aelod i gadeirio'r cyfarfod, a rhaid i benodiad cadeirydd y cyfarfod fod yn fusnes cyntaf i'r cyfarfod.

(3) Fel "cadeirydd y cyfarfod" y cyfeirir at y sawl sy'n cadeirio cyfarfod yn unol â'r erthygl hon.

Cyfarwyddwyr a rhai nad ydynt yn aelodau yn cael bod yn bresennol a siarad

26. (1) Caiff cyfarwyddwyr fod yn bresennol a siarad mewn cyfarfodydd cyffredinol, p'un a fônt yn aelodau neu beidio.

(2) Gall cadeirydd y cyfarfod ganiatáu i eraill nad ydynt yn aelodau o'r cwmni fod yn bresennol a siarad mewn cyfarfod cyffredinol.

Gohirio

27. (1) Os nad yw'r bobl sy'n bresennol mewn cyfarfod cyffredinol o fewn hanner awr i'r amser yr oedd y cyfarfod i fod i ddechrau yn ffurfio cworwm, neu os bydd cworwm yn peidio â bod yn bresennol yn ystod y cyfarfod, rhaid i gadeirydd y cyfarfod ei ohirio.

(2) Gall cadeirydd y cyfarfod ohirio cyfarfod cyffredinol lle mae cworwm yn bresennol

(a) os bydd y cyfarfod yn cydsynio i ohiriad, neu

(b) os ymddengys i gadeirydd y cyfarfod fod angen gohirio er mwyn sicrhau diogelwch unrhyw berson sy'n bresennol yn y cyfarfod neu fod busnes y cyfarfod yn cael ei gynnal mewn ffordd drefnus.

(3) Mae'n rhaid i gadeirydd y cyfarfod ohirio cyfarfod cyffredinol os bydd y cyfarfod yn ei gyfarwyddo i wneud.

(4) Wrth ohirio cyfarfod cyffredinol, rhaid i gadeirydd y cyfarfod

(a) naill ai pennu'r amser a'r lle y caiff ei ohirio iddynt neu ddatgan ei fod i barhau am amser ac mewn lle y bydd y cyfarwyddwyr yn eu pennu, a

(b) rhoi sylw i unrhyw gyfarwyddyd a roes y cyfarfod gyda golwg ar amser a lle unrhyw ohiriad.

(5) Os yw parhad cyfarfod a gafodd ei ohirio i ddigwydd mwy na 14 diwrnod ar ôl y gohirio, rhaid i'r cwmni roi o leiaf 7 diwrnod clir o rybudd amdano (hynny yw, heb gyfrif diwrnod y cyfarfod a gafodd ei ohirio a'r diwrnod y rhoir rhybudd)

(a) i'r un bobl y mae'n ofynnol eu rhybuddio am gyfarfodydd cyffredinol y cwmni, a

(b) yn cynnwys yr un wybodaeth y mae'n ofynnol i rybudd o'r fath ei chynnwys.

(6) Ni ellir trafod unrhyw fusnes mewn cyfarfod cyffredinol a gafodd ei ohirio na fyddid wedi gallu'i drafod yn briodol yn y cyfarfod pe na ddigwyddasai'r gohirio.

PLEIDLEISIO MEWN CYFARFODYDD CYFFREDINOL

Pleidleisio: cyffredinol

28. Rhaid i benderfyniad a gyflwynir i bleidlais mewn cyfarfod cyffredinol gael ei ddatrys drwy godi llaw, oni fynnir pôl yn briodol yn unol â'r erthyglau.

Camgymeriadau ac anghydfodau

29. (1) Ni ellir codi gwrthwynebiad i gymhwyster unrhyw berson sy'n pleidleisio mewn cyfarfod cyffredinol ac eithrio yn y cyfarfod ei hun neu mewn cyfarfod gohiriedig lle caiff y bleidlais a wrthwynebir ei mynegi, a bydd pob pleidlais na wrthodir yn y cyfarfod yn ddilys.

(2) Rhaid i unrhyw wrthwynebiad o'r fath gael ei atgyfeirio i sylw cadeirydd y cyfarfod a bydd dyfarniad hwnnw yn derfynol.

Pleidleisiau pôl

30. Gellir mynnu pôl yng nghyswllt penderfyniad

(a) cyn y cyfarfod cyffredinol lle caiff y penderfyniad ei gyflwyno i bleidlais, neu

(b) mewn cyfarfod cyffredinol, naill ai cyn codi llaw ar y penderfyniad hwnnw neu yn union ar ôl datgan canlyniad y codi llaw ar y penderfyniad.

(2) Gall pôl gael ei fynnu

(a) gan gadeirydd y cyfarfod;

(b) gan y cyfarwyddwyr;

(c) gan ddau neu ragor o bobl sydd â hawl i bleidleisio ar y penderfyniad; neu

(d) gan berson neu bobl sy'n cynrychioli nid llai na degfed ran o gyfanswm hawliau pleidleisio'r holl aelodau sydd â hawl i bleidleisio ar y penderfyniad.

(3) Gall cais am bleidlais pôl gael ei dynnu'n ôl

(a) os na chynhaliwyd y pôl eto, a

(b) os yw cadeirydd y cyfarfod yn cydsynio i'r tynnu'n ôl.

(4) Rhaid cynnal pôl yn syth ac yn unol â chyfarwyddyd cadeirydd y cyfarfod.

Cynnwys rhybuddion dirprwy

31. (1) Ni all dirprwyon gael eu penodi'n ddilys ond drwy hysbysiad ysgrifenedig ("rhybudd dirprwy") sydd

(a) yn nodi enw a chyfeiriad yr aelod sy'n penodi'r dirprwy;

(b) yn uniaethu'r sawl sydd i'w benodi'n ddirprwy i'r aelod hwnnw a'r cyfarfod cyffredinol y mae'r person yn cael ei benodi yn ei gyswllt;

(c) wedi ei lofnodi gan neu ar ran yr aelod sy'n penodi'r dirprwy, neu wedi ei ddilysu yn ôl fel y gall y cyfawyddwyr ei bennu; a

(d) yn cael ei ddanfon i'r cwmni yn unol â'r erthyglau ac unrhyw gyfarwyddyd sydd wedi'i gynnwys yn y rhybudd am y cyfarfod cyffredinol dan sylw.

(2) Gall y cwmni fynnu bod rhybuddion dirprwy yn cael eu danfon ar ffurf arbennig, a gall bennu ffurfiau gwahanol at ddibenion gwahanol.

(3) Gall rhybuddion dirprwy bennu sut mae'r dirprwy a gaiff ei benodi o danynt i fod i bleidleisio (neu fod y dirprwy i fod i ymatal rhag pleidleisio) ar un neu ragor o benderfyniadau.

(4) Oni bai bod rhybudd dirprwy yn nodi fel arall, rhaid ei drin fel un

(a) sy'n caniatáu i'r sawl a benodir yn ddirprwy o dano ryddid o ran sut i bleidleisio ar unrhyw benderfyniadau atodol neu drefniadol a gaiff eu rhoi gerbron y cyfarfod, a

(b) sy'n penodi'r person hwnnw'n ddirprwy mewn cysylltiad ag unrhyw ohirio ar y cyfarfod cyffredinol y mae a wnelo ag ef yn ogystal â'r cyfarfod ei hun.

Danfon rhybuddion dirprwy

32. (1) Bydd rhywun sydd â hawl i fod yn bresennol, siarad neu bleidleisio mewn cyfarfod cyffredinol (naill ai drwy godi llaw neu drwy bleidlais pôl) yn aros â hawl felly yn y cyfarfod hwnnw neu mewn unrhyw ohiriad ohono, er y gall rhybudd dirprwy dilys fod wedi cael ei ddanfon i'r cwmni gan neu ar ran y person dan sylw.

(2) Gall penodiad o dan rybudd dirprwy gael ei alw'n ôl drwy ddanfon i'r cwmni hysbysiad ysgrifenedig wedi'i roi gan neu ar ran y sawl y rhoddwyd y rhybudd dirprwy ganddo neu ar ei ran.

(3) Dim ond os caiff ei ddanfon cyn dechrau'r cyfarfod neu'r cyfarfod gohiriedig y mae a wnelo ag ef y bydd hysbysiad sy'n galw penodiad dirprwy'n ôl yn dod i rym.

(4) Os na chaiff rhybudd dirprwy mo'i gyflawni gan y sawl sy'n penodi'r dirprwy, rhaid cyflwyno gydag ef dystiolaeth ysgrifenedig o awdurdod y sawl a'i cyflawnodd i'w gyflawni ar ran y penodydd.

Diwygio penderfyniadau

33. (1) Gall penderfyniad arferol sydd i'w gynnig mewn cyfarfod cyffredinol gael ei ddiwygio drwy benderfyniad arferol

(b) os cyflwynir i'r cwmni rybudd ysgrifenedig am y diwygio arfaethedig gan rywun sydd â hawl i bleidleisio yn y cyfarfod cyffredinol lle mae i gael ei gynnig, a hynny nid llai na 48 awr cyn yr amser a bennwyd i'r cyfarfod (neu unrhyw amser diweddarach y gall cadeirydd y cyfarfod ei bennu) a

(b) os nad yw'r diwygiad arfaethedig, ym marn resymol cadeirydd y cyfarfod, yn newid cwmpas y penderfyniad yn ei hanfod.

(2) Gall penderfyniad arbennig sydd i'w gynnig mewn cyfarfod cyffredinol gael ei ddiwygio drwy benderfyniad arferol

(a) os bydd cadeirydd y cyfarfod yn cynnig y diwygiad yn y cyfarfod cyffredinol lle bwriedir cynnig y penderfyniad, a

(b) os nad yw'r diwygiad yn mynd ymhellach na'r hyn sydd angen i gywiro nam gramadegol neu ryw nam ansylweddol arall yn y penderfyniad.

(3) Os bydd cadeirydd y cyfarfod, drwy weithredu â phob ewyllys da, yn penderfynu ar gam fod diwygio penderfyniad allan o drefn, nid yw camgymeriad y cadeirydd yn annilysu'r bleidlais ar y penderfyniad hwnnw.

RHAN 4
TREFNIADAU GWEINYDDOL

Y dulliau cyfathrebu i'w defnyddio

34. (1) Yn amodol ar yr erthyglau, gall unrhyw beth a anfonir neu a gyflenwir gan neu i'r cwmni o dan yr erthyglau gael ei anfon neu ei gyflenwi mewn unrhyw ffordd y mae Deddf Cwmnïau 2006 yn darparu ar ei chyfer mewn cysylltiad â dogfennau neu wybodaeth y mae unrhyw un o ddarpariaethau'r Ddeddf honno yn awdurdodi neu'n mynnu eu hanfon neu eu cyflenwi gan neu i'r cwmni.

(2) Yn amodol ar yr erthyglau, gall unrhyw hysbysiad neu ddogfen sydd i'w hanfon neu ei chyflenwi i gyfarwyddwr mewn cysylltiad â phenderfyniadau cyfarwyddwyr

gael ei hanfon neu ei chyflenwi hefyd yn y ffordd honno y gofynnodd y cyfarwyddwr hwnnw am i hysbysiadau neu ddogfennau o'r fath gael eu hanfon neu eu cyflenwi iddo am y tro.

(3) Gall cyfarwyddwr ddod i gytundeb â'r cwmni y dylai hysbysiadau neu ddogfennau a anfonir at y cyfarwyddwr hwnnw mewn ffordd arbennig gael eu hystyried fel rhai sydd wedi dod i law o fewn ysbaid penodedig i'w hanfon, ac i'r ysbaid penodedig fod yn llai na 48 awr.

Seliau cwmni

35. (1) Dim ond drwy awdurdod y cyfarwyddwyr y gellir defnyddio unrhyw sêl gyffredin.

(2) Gall y cyfarwyddwyr benderfynu ymha ffordd ac ar ba ffurf y mae unrhyw sêl gyffredin i fod i'w defnyddio.

(3) Oni bai bod y cyfarwyddwyr yn penderfynu fel arall, os oes sêl gyffredin gan y cwmni a bod honno'n cael ei gosod ar ddogfen, rhaid i'r ddogfen gael ei llofnodi hefyd gan o leiaf un person awdurdodedig yng ngŵydd tyst a fydd yn cadarnhau'r llofnod.

(4) At ddibenion yr erthygl hon, person awdurdodedig yw

(a) unrhyw gyfarwyddwr i'r cwmni;

(b) ysgrifennydd y cwmni (os oes un); neu

(c) unrhyw un a gafodd ei awdurdodi gan y cyfarwyddwyr at ddibenion llofnodi dogfennau y caiff y sêl gyffredin ei gosod arnynt.

Dim hawl i archwilio cyfrifon na chofnodion eraill

36. Ac eithrio yn unol â darpariaethau'r gyfraith neu awdurdod y cyfarwyddwyr neu benderfyniad arferol gan y cwmni, does gan neb hawl i archwilio unrhyw rai o gofnodion cyfrifeg neu gofnodion neu ddogfennau eraill y cwmni yn rhinwedd ei safle fel aelod yn unig.

Darparu ar gyfer cyflogedigion wrth ddirwyn busnes i ben

37. Gall y cyfarwyddwyr benderfynu darparu ar gyfer lles pobl sydd wedi'u cyflogi neu a gafodd eu cyflogi gynt gan y cwmni neu unrhyw un o'i is-gwmnïau (ar wahân i gyfarwyddwr neu gyn-gyfarwyddwr neu gyfarwyddwr wrth gefn) mewn cysylltiad â dirwyn i ben neu drosglwyddo i unrhyw berson y cyfan neu ran o ymgymeriad y cwmni neu'r is-gwmni hwnnw.

INDEMNIO AC YSWIRIO CYFARWYDDWYR

Indemnio

38. (1) Yn amodol ar baragraff (2), gall unrhyw un o gyfarwyddwyr perthnasol y cwmni neu gwmni cysylltiedig gael ei indemnio ar sail asedion y cwmni rhag

(a) unrhyw atebolrwydd a dynnir gan y cyfarwyddwr hwnnw gyda golwg ar unrhyw esgeulustod, diffyg cydymffurfio, tor-ddyletswydd neu dor-ymddiriedaeth mewn perthynas â'r cwmni neu gwmni cysylltiedig,

(b) unrhyw atebolrwydd a dynnir gan y cyfarwyddwr hwnnw gyda golwg ar weithgareddau'r cwmni neu gwmni cysylltiedig yn rhinwedd ei sefyllfa fel ymddiriedolydd cynllun pensiwn galwedigaethol (yn unol â diffiniad adran 235(6) o Ddeddf Cwmnïau 2006),

(c) unrhyw atebolrwydd arall a dynnir gan y cyfarwyddwr hwnnw fel swyddog i'r cwmni neu gwmni cysylltiedig.

(2) Nid yw'r erthygl hon yn awdurdodi unrhyw indemniad a fyddai wedi'i wahardd neu ei wneud yn ddirym gan unrhyw un o ddarpariaethau'r Deddfau Cwmnïau neu gan unrhyw un arall o ddarpariaethau'r gyfraith.

(3) Yn yr erthygl hon

(a) mae cwmnïau'n gysylltiedig os yw un yn is-gwmni i'r llall neu fod y ddau'n is-gwmnïau i'r un corff corfforaethol, a

(b) mae "cyfarwyddwr perthnasol" yn golygu unrhyw gyfarwyddwr neu gyn-gyfarwyddwr i'r cwmni neu i gwmni cysylltiedig.

Yswirio

39. (1) Gall y cyfarwyddwyr benderfynu prynu a chadw yswiriant, ar draul y cwmni, er lles unrhyw gyfarwyddwr perthnasol yng nghyswllt unrhyw golled berthnasol.

(2) Yn yr erthygl hon

(a) mae "cyfarwyddwr perthnasol" yn golygu unrhyw gyfarwyddwr neu gyn-gyfarwyddwr i'r cwmni neu i gwmni cysylltiedig,

(b) mae "colled berthnasol" yn golygu unrhyw golled neu atebolrwydd a dynnwyd neu y gellir ei dynnu gan gyfarwyddwr perthnasol mewn cysylltiad â dyletswyddau neu bwerau'r cyfarwyddwr hwnnw gyda golwg ar y cwmni, unrhyw gwmni cysylltiedig neu unrhyw gronfa bensiwn neu gynllun cyfrannau i gyflogedigion y cwmni neu gwmni cysylltiedig, ac

(c) mae cwmnïau'n gysylltiedig os yw un yn is-gwmni i'r llall neu fod y ddau'n is-gwmnïau i'r un corff corfforaethol.

ATODLEN 3
Rheoliad 4

ERTHYGLAU ENGHREIFFTIOL I GWMNÏAU CYHOEDDUS

MYNEGAI I'R ERTHYGLAU
RHAN 1
DEHONGLIAD A THERFYN YR ATEBOLRWYDD

1. Termau diffiniedig
2. Atebolrwydd aelodau

RHAN 2
CYFARWYDDWYR
PWERAU A CHYFRIFOLDEBAU CYFARWYDDWYR

3. Awdurdod cyffredinol y cyfarwyddwyr
4. Pŵer wrth-gefn yr aelodau
5. Caiff cyfarwyddwyr ddirprwyo
6. Pwyllgorau

PENDERFYNIADAU CYFARWYDDWYR

7. Cyfarwyddwyr i gymryd penderfyniadau ar y cyd
8. Galw cyfarfod o'r cyfarwyddwyr
9. Ymuno mewn cyfarfodydd o'r cyfarwyddwyr
10. Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd o'r cyfarwyddwyr
11. Cyfarfodydd lle mae cyfanswm y cyfarwyddwyr yn llai na'r cworwm
12. Cadeirio cyfarfodydd o'r cyfarwyddwyr
13. Pleidleisio mewn cyfarfodydd o'r cyfarwyddwyr: rheolau cyffredinol
14. Pleidlais fwrw'r cadeirydd mewn cyfarfodydd o'r cyfarwyddwyr
15. Pleidleisio gan gyfarwyddwyr dirprwyol mewn cyfarfodydd o'r cyfarwyddwyr
16. Buddiannau'n gwrthdaro
17. Cynnig penderfyniadau ysgrifenedig y cyfarwyddwyr
18. Mabwysiadu penderfyniadau ysgrifenedig y cyfarwyddwyr
19. Disgresiwn cyfarwyddwyr i wneud rheolau pellach

PENODI CYFARWYDDWYR

20. Dulliau penodi cyfarwyddwyr
21. Ymddiswyddiad cyfarwyddwyr mewn trefn gylchredol
22. Terfynu penodiad cyfarwyddwr
23. Cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr
24. Treuliau cyfarwyddwyr

CYFARWYDDWYR DIRPRWYOL

25. Penodi a diswyddo cyfarwyddwyr dirprwyol
26. Hawliau a chyfrifoldebau cyfarwyddwyr dirprwyol
27. Terfynu safle fel cyfarwyddwr dirprwyol

RHAN 3
AELODAU'N PENDERFYNU
TREFNU CYFARFODYDD CYFFREDINOL

28. Caiff yr aelodau alw cyfarfodydd cyffredinol os nad oes digon o gyfarwyddwyr
29. Bod yn bresennol a chael siarad mewn cyfarfodydd cyffredinol
30. Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd cyffredinol
31. Cadeirio cyfarfodydd cyffredinol
32. Cyfarwyddwyr a rhai nad ydynt yn aelodau yn cael bod yn bresennol a siarad
33. Gohirio

PLEIDLEISIO MEWN CYFARFODYDD CYFFREDINOL
34. Pleidleisio: cyffredinol
35. Camgymeriadau ac anghydfodau
36. Mynnu pôl
37. Y drefn ar gyfer cynnal pôl
38. Cynnwys rhybuddion dirprwy
39. Danfon rhybuddion dirprwy
40. Diwygio penderfyniadau

CYFYNGIADAU AR HAWLIAU AELODAU
41. Dim pleidleisio cyfrannau y mae arian yn ddyledus i'r cwmni yn eu cyswllt

CYMHWYSO'R RHEOLAU AT GYFARFODYDD DOSBARTH
42. Cyfarfodydd dosbarth

RHAN 4
CYFRANNAU A DOSRANIADAU
RHYDDHAU CYFRANNAU

43. Pwerau i ryddhau gwahanol ddosbarthiadau cyfrannau
44. Talu comisiwn wrth danysgrifio ar gyfer cyfrannau

BUDDIANNAU MEWN CYFRANNAU
45. Y cwmni heb ei gyfrwymo gan fuddiannau llai nag absoliwt

TYSTYSGRIFAU CYFRAN
46. Tystysgrifau i'w rhoi, ac eithrio mewn achosion arbennig
47. Cynnwys a chyflawniad tystysgrifau cyfran
48. Tystysgrifau cyfran cyfunol
49. Tystysgrifau cyfran amnewid

CYFRANNAU HEB EU DAL AR FFURF DYSTYSGRIFEDIG
50. Cyfrannau di-dystysgrif
51. Gwarantau cyfran

CYFRANNAU RHANNOL DALEDIG
52. Hawlrwym y cwmni dros gyfrannau rhannol daledig
53. Gorfodi hawlrwym y cwmni
54. Rhybuddion erchi
55. Atebolrwydd dros dalu archiadau
56. Adegau pan nad oes angen rhoi rhybudd erchi
57. Methiant i gydymffurfio â rhybudd erchi: canlyniadau awtomatig

58. Rhybudd fforffedu arfaethedig
59. Pŵer cyfarwyddwyr i fforffedu cyfrannau
60. Effaith fforffedu
61. Y drefn yn sgil fforffedu
62. Ildio cyfrannau

TROSGLWYDDO A THRAWSGLUDO CYFRANNAU
63. Trosglwyddo cyfrannau tystysgrifedig
64. Trosglwyddo cyfrannau di-dystysgrif
65. Trawsgludo cyfrannau
66. Hawliau trawsgludeion
67. Arfer hawliau trawsgludeion
68. Trawsgludeion wedi'u cyfrwymo gan rybuddion blaenorol

CYFUNO CYFRANNAU
69. Y drefn ar gyfer cael gwared â ffracsiynau o gyfrannau

DOSRANIADAU
70. Y drefn ar gyfer datgan buddrannau
71. Bwrw cyfrif o fuddrannau
72. Talu buddrannau a dosraniadau eraill
73. Tynnu'n ôl o ddosraniadau ar gyfer symiau sy'n ddyledus i'r cwmni
74. Dim llog ar ddosraniadau
75. Dosraniadau heb eu hawlio
76. Dosraniadau heb fod ar ffurf arian parod
77. Ildio hawl i ddosraniadau

CYFALAFU ELW
78. Awdurdod i gyfalafu a meddiannu symiau wedi'u cyfalafu

RHAN 5
AMRYWIOL DDARPARIAETHAU
CYFATHREBU
79. Y dulliau cyfathrebu i'w defnyddio
80. Methiant i roi gwybod am fanylion cysylltu

TREFNIADAU GWEINYDDOL
81. Seliau cwmni
82. Dinistrio dogfennau
83. Dim hawl i archwilio cyfrifon na chofnodion eraill
84. Darparu ar gyfer cyflogedigion wrth ddirwyn busnes i ben

INDEMNIO AC YSWIRIO CYFARWYDDWYR
85. Indemnio
86. Yswirio

RHAN 1
DEHONGLIAD A THERFYN YR ATEBOLRWYDD

Termau diffiniedig

1. Yn yr erthyglau, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall
mae i "cyfarwyddwr dirprwyol" yr ystyr sydd yn erthygl 25;
mae i "penodydd" yr ystyr sydd yn erthygl 25;
ystyr "erthyglau" yw erthyglau cymdeithasiad y cwmni;
mae "methdaliad" yn cynnwys gweithrediadau ansolfedd unigol o dan awdurdodaeth ar wahân i Gymru a Lloegr neu Ogledd Iwerddon, sydd ag effaith debyg i effaith methdaliad;
mae i "archiad" yr ystyr sydd yn erthygl 54;
mae i "rhybudd erchi" yr ystyr sydd yn erthygl 54;
mae "tystysgrif" yn golygu tystysgrif bapur (ar wahân i warant gyfran) yn tystio i hawl rhywun i gyfrannau penodedig neu warannoedd eraill;
mae "tystysgrifedig", gyda golwg ar gyfran, yn golygu nad yw'n gyfran ddi-dystysgrif nac yn gyfran y rhoddwyd yn ei chyswllt warant gyfran sy'n gyfredol;
mae i "cadeirydd" yr ystyr sydd yn erthygl 12;
mae i "cadeirydd y cyfarfod" yr ystyr sydd yn erthygl 31;
mae "Deddfau Cwmnïau" yn golygu'r Deddfau Cwmnïau (yn unol â diffiniad adran 2 o Ddeddf Cwmnïau 2006) i'r graddau eu bod yn gymwys i'r cwmni;
mae i "hawlrwym y cwmni" yr ystyr sydd yn erthygl 52;
ystyr "cyfarwyddwr" yw cyfarwyddwr i'r cwmni, ac mae'n cynnwys unrhyw un sy'n llenwi safle cyfarwyddwr, pa enw bynnag arall a roir arno;
mae i "derbynnydd dosraniad" yr ystyr sydd yn erthygl 72;
mae "dogfen" yn cynnwys, oni phennir fel arall, unrhyw ddogfen a gaiff ei hanfon neu ei chyflenwi ar ffurf electronig;
mae i "ffurf electronig" yr ystyr sydd yn adran 1168 o Ddeddf Cwmnïau 2006;
mae "llawndaledig" gyda golwg ar gyfran yn golygu bod y gwerth nominal ynghyd ag unrhyw bremiwm sydd i'w dalu i'r cwmni yng nghyswllt y gyfran honno wedi cael eu talu i'r cwmni;
mae i "ffurf copi caled" yr ystyr sydd yn adran 1168 o Ddeddf Cwmnïau 2006;
mae "deiliad", mewn cysylltiad â chyfrannau, yn golygu'r sawl y cofnodwyd ei enw yn y gofrestr aelodau fel deiliad y cyfrannau, neu, yn achos cyfran y rhoddwyd gwarant gyfran (heb ei chanslo) yn ei chyswllt, y sawl sy'n meddu ar y warant honno;
ystyr "offeryn" yw dogfen ar ffurf copi caled;
mae i "rhybudd gorfodi hawlrwym" yr ystyr sydd yn erthygl 53;
mae i "aelod" yr ystyr sydd yn adran 112 o Ddeddf Cwmnïau 2006;
mae i "penderfyniad arferol" yr ystyr sydd yn adran 282 o Ddeddf Cwmnïau 2006;
mae "taledig" yn golygu wedi'i dalu neu wedi'i gredydu'n daledig;
mae i "ymuno", mewn cysylltiad â chyfarfod o'r cyfarwyddwyr, yr ystyr sydd yn erthygl 9;
mae "rhannol daledig", gyda golwg ar gyfran, yn golygu'r rhan honno o werth nominal y gyfran neu o unrhyw bremiwm yn ei chyswllt pan gafodd ei rhyddhau sydd heb ei thalu i'r cwmni;
mae i "rhybudd dirprwy" yr ystyr sydd yn erthygl 38;
mae i "sêl warannoedd" yr ystyr sydd yn erthygl 47;
ystyr "cyfrannau" yw cyfrannau yn y cwmni;
mae i "penderfyniad arbennig" yr ystyr sydd yn adran 283 o Ddeddf Cwmnïau 2006;
mae i "is-gwmni" yr ystyr sydd yn adran 1159 o Ddeddf Cwmnïau 2006;
mae "trawsgludai" yn golygu rhywun sydd â hawl i gyfran ar sail marwolaeth neu fethdaliad cyfranddeiliad neu rywsut arall yn ôl gweithrediad y gyfraith;

ystyr "di-dystysgrif", gyda golwg ar gyfran, yw bod y teitl i'r gyfran honno wedi'i dystiolaethu yn rhinwedd deddfwriaeth (ar wahân i adran 778 o Ddeddf Cwmnïau 2006) yn caniatáu i'r teitl i gyfrannau gael ei dystiolaethu a'i drosglwyddo heb dystysgrif, ac y gall gael ei drosglwyddo heb dystysgrif; ac
ystyr "ysgrifen" yw cynrychioli neu atgynhyrchu geiriau, symbolau neu wybodaeth arall ar ffurf weladwy drwy unrhyw ddull neu gyfuniad o ddulliau, p'un a gaiff hynny ei anfon neu ei gyflenwi ar ffurf electronig neu rywsut arall.

Oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, mae i unrhyw eiriau neu ymadroddion eraill yn yr erthyglau hyn yr un ystyr ag yn Neddf Cwmnïau 2006 fel yr oedd mewn grym ar y dyddiad y daeth yr erthyglau yn gyfrwymol ar y cwmni.

Atebolrwydd aelodau

2. Mae atebolrwydd yr aelodau wedi'i gyfyngu i'r swm, os o gwbl, sydd heb ei dalu yng nghyswllt y cyfrannau a ddaliant.

RHAN 2
CYFARWYDDWYR
PWERAU A CHYFRIFOLDEBAU CYFARWYDDWYR

Awdurdod cyffredinol y cyfarwyddwyr

3. Yn amodol ar yr erthyglau, mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am reoli busnes y cwmni, ac i'r diben hwn cânt arfer holl bwerau'r cwmni.

Pŵer wrth-gefn yr aelodau

4. (1) Gall yr aelodau, drwy benderfyniad arbennig, gyfarwyddo'r cyfarwyddwyr i gymryd camau penodedig neu ymatal rhag eu cymryd.

(2) Ni fydd unrhyw benderfyniad arbennig o'r fath yn annilysu unrhyw beth a wnaeth y cyfarwyddwyr cyn i'r penderfyniad gael ei fabwysiadu.

Caiff cyfarwyddwyr ddirprwyo

5. (1) Yn amodol ar yr erthyglau, caiff y cyfarwyddwyr ddirprwyo unrhyw rai o'r pwerau a freinir ynddynt o dan yr erthyglau

(a) i unrhyw berson neu bwyllgor;

(b) drwy unrhyw ddull (gan gynnwys drwy bŵer twrnai);

(c) i'r graddau hynny;

(d) mewn cysylltiad â'r pynciau neu'r meysydd hynny; ac

(e) o dan yr amodau a'r telerau hynny;

a welant yn dda.

(2) Os bydd y cyfarwyddwyr yn pennu felly, gall unrhyw ddirprwyo o'r fath awdurdodi dirprwyo pellach ar bwerau'r cyfarwyddwyr gan unrhyw un y cawsant eu dirprwyo iddo.

(3) Caiff y cyfarwyddwyr ddirymu unrhyw ddirprwyo'n llwyr neu'n rhannol, neu newid ei amodau a'i delerau.

Pwyllgorau

6. (1) Mae'n rhaid i bwyllgorau y bydd y cyfarwyddwyr yn dirprwyo unrhyw rai o'u pwerau iddynt ddilyn trefn sydd wedi'i seilio, i'r graddau y bo honno'n gymwys, ar y darpariaethau hynny o fewn yr erthyglau sy'n llywio cymryd penderfyniadau gan gyfarwyddwyr.

(2) Caiff y cyfarwyddwyr lunio rheolau gweithredu i unrhyw bwyllgor neu bob pwyllgor, a fydd yn drech na rheolau'n deillio o'r erthyglau os nad ydynt yn gyson â'r rheiny.

PENDERFYNIADAU CYFARWYDDWYR

Cyfarwyddwyr i gymryd penderfyniadau ar y cyd

7. Gall penderfyniadau'r cyfarwyddwyr gael eu cymryd

(a) mewn cyfarfod o'r cyfarwyddwyr, neu

(b) ar ffurf penderfyniad ysgrifenedig gan y cyfarwyddwyr.

Galw cyfarfod o'r cyfarwyddwyr

8. (1) Gall unrhyw gyfarwyddwr alw cyfarfod o'r cyfarwyddwyr.

(2) Rhaid i ysgrifennydd y cwmni alw cyfarfod o'r cyfarwyddwyr os bydd cyfarwyddwr yn mynnu felly.

(3) Caiff cyfarfod o'r cyfarwyddwyr ei alw drwy ddosbarthu rhybudd am y cyfarfod ymhlith y cyfarwyddwyr.

(4) Rhaid i'r rhybudd am unrhyw gyfarfod o'r cyfarwyddwyr nodi

(a) yr amser a'r dyddiad a arfaethir iddo;

(b) ble mae i gael ei gynnal; ac

(c) os rhagwelir na fydd y cyfarwyddwyr sy'n ymuno yn y cyfarfod yn bresennol yn yr un lle, sut yr arfaethir iddynt gyfathrebu â'i gilydd yn ystod y cyfarfod.

(5) Rhaid rhoi rhybudd am gyfarfod o'r cyfarwyddwyr i bob cyfarwyddwr, ond does dim angen iddo fod yn ysgrifenedig.

(6) Does dim angen rhoi rhybudd am gyfarfod o'r cyfarwyddwyr i gyfarwyddwyr sy'n ildio'u hawl i rybudd am y cyfarfod hwnnw, drwy hysbysu'r cwmni i'r perwyl hwnnw nid mwy na 7 diwrnod ar ôl dyddiad cynnal y cyfarfod. Lle cyflwynir hysbysiad o'r fath ar ôl cynnal y cyfarfod, ni fydd hynny'n effeithio ar ddilysrwydd y cyfarfod na dilysrwydd unrhyw fusnes a gafodd ei drafod ynddo.

Ymuno mewn cyfarfodydd o'r cyfarwyddwyr

9. (1) Yn amodol ar yr erthyglau, bydd cyfarwyddwyr yn ymuno mewn cyfarfod o'r cyfarwyddwyr, neu ran o gyfarfod o'r cyfarwyddwyr,

(a) pan fo'r cyfarfod wedi cael ei alw ac yn digwydd yn unol â'r erthyglau, a

(b) pan fo modd iddynt bawb gyfleu i'r lleill unrhyw wybodaeth neu farn sydd ganddynt ar unrhyw eitem arbennig o fusnes y cyfarfod.

(2) Wrth bennu a yw cyfarwyddwyr yn ymuno mewn cyfarfod o'r cyfarwyddwyr, ystyriaethau amherthnasol yw ble mae unrhyw gyfarwyddwr neu sut maen nhw'n cyfathrebu â'i gilydd.

(3) Os nad yw pawb o'r cyfarwyddwyr sy'n ymuno mewn cyfarfod yn bresennol yn yr un lle, gallant benderfynu bod y cyfarfod i'w drin fel un sy'n cael ei gynnal ble bynnag y mae unrhyw un ohonynt.

Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd o'r cyfarwyddwyr

10. (1) Mewn cyfarfod o'r cyfarwyddwyr, oni bai bod cworwm yn ymuno, ni ellir pleidleisio ar unrhyw gynnig, ar wahân i gynnig y dylid galw cyfarfod arall.

(2) Gall y cworwm ar gyfer cyfarfodydd o'r cyfarwyddwyr gael ei bennu o dro i dro drwy benderfyniad gan y cyfarwyddwyr, ond rhaid iddo beidio byth â bod yn llai na dau, ac oni phennir fel arall dau fydd y cworwm.

Cyfarfodydd lle mae cyfanswm y cyfarwyddwyr yn llai na'r cworwm

11. (1) Mae'r erthygl hon yn gymwys lle mae cyfanswm y cyfarwyddwyr am y tro yn llai na'r cworwm ar gyfer cyfarfodydd o'r cyfarwyddwyr.

(2) Os un cyfarwyddwr yn unig sydd, caiff y cyfarwyddwr hwnnw benodi digon o gyfarwyddwyr i ffurfio cworwm neu alw cyfarfod cyffredinol i wneud felly.

(3) Os oes mwy nag un cyfarwyddwr,

(a) gall cyfarfod o'r cyfarwyddwyr fynd ymlaen lle caiff ei alw yn unol â'r erthyglau a bod o leiaf dau gyfarwyddwr yn cymryd rhan ynddo, gyda'r nod o benodi digon o gyfarwyddwyr i ffurfio cworwm neu alw cyfarfod cyffredinol i wneud felly, a

(b) lle gelwir cyfarfod o'r cyfarwyddwyr ond bod un cyfarwyddwr yn unig yn bresennol ar y dyddiad a'r amser a bennwyd i gymryd rhan ynddo, caiff y

cyfarwyddwr hwnnw benodi digon o gyfarwyddwyr i ffurfio cworwm neu alw cyfarfod cyffredinol i wneud felly.

Cadeirio cyfarfodydd o'r cyfarwyddwyr

12. (1) Gall y cyfarwyddwyr benodi cadeirydd i gadeirio'u cyfarfodydd.

(2) Y cadeirydd y gelwir y sawl a gaiff ei benodi felly am y tro.

(3) Gall y cyfarwyddwyr benodi cyfarwyddwyr eraill yn ddirprwy gadeiryddion neu'n gadeiryddion cynorthwyol i gadeirio cyfarfodydd o'r cyfarwyddwyr yn absenoldeb y cadeirydd.

(4) Gall y cyfarwyddwyr derfynu penodiad y cadeirydd, y dirprwy gadeirydd neu'r cadeirydd cynorthwyol unrhyw adeg.

(5) Os na fydd y cadeirydd, neu unrhyw gyfarwyddwr a gafodd ei benodi'n gyffredinol i gadeirio cyfarfodydd o'r cyfarwyddwyr yn absenoldeb y cadeirydd, yn ymuno mewn cyfarfod o'r cyfarwyddwyr o fewn deg munud i'r amser yr oedd i fod i ddechrau, rhaid i'r cyfarwyddwyr sydd yn ymuno benodi un o'u nifer i'w gadeirio.

Pleidleisio mewn cyfarfodydd o'r cyfarwyddwyr: rheolau cyffredinol

13. (1) Yn amodol ar yr erthyglau, cymerir penderfyniad mewn cyfarfod o'r cyfarwyddwyr drwy fwyafrif o bleidleisiau'r cyfarwyddwyr sy'n ymuno.

(2) Yn amodol ar yr erthyglau, un bleidlais fydd gan bob cyfarwyddwr sy'n ymuno mewn cyfarfod o'r cyfarwyddwyr.

(3) Yn amodol ar yr erthyglau, os oes gan gyfarwyddwr fuddiant mewn trafodyn neu gytundeb gwirioneddol neu arfaethedig â'r cwmni,

(a) ni chaiff y cyfarwyddwr hwnnw na chyfarwyddwr dirprwyol yn ei le bleidleisio ar unrhyw gynnig yng nghyswllt y trafodyn, ond

(b) nid yw hyn yn atal y cyfarwyddwr dirprwyol rhag pleidleisio yng nghyswllt y trafodyn neu'r cytundeb hwnnw ar ran penodydd arall nad oes ganddo fuddiant o'r fath.

Pleidlais fwrw'r cadeirydd mewn cyfarfodydd o'r cyfarwyddwyr

14. (1) Os bydd nifer y pleidleisiau o blaid ac yn erbyn cynnig yn gyfartal, bydd pleidlais fwrw gan y cadeirydd neu unrhyw gyfarwyddwr arall sy'n cadeirio'r cyfarfod.

(2) Ond nid yw hyn yn gymwys os nad yw'r cadeirydd neu'r cyfarwyddwr arall, yn unol â'r erthyglau, i gael ei gyfrif fel rhywun sy'n ymuno yn y proses penderfynu at ddibenion cworwm neu bleidleisio.

Pleidleisio gan gyfarwyddwyr dirprwyol mewn cyfarfodydd o'r cyfarwyddwyr

15. Bydd gan gyfarwyddwr sydd hefyd yn gyfarwyddwr dirprwyol bleidlais ychwanegol ar ran pob penodydd

(a) nad yw'n ymuno mewn cyfarfod o'r cyfarwyddwyr, a

(b) a fyddai wedi bod â hawl i bleidleisio pe bai'n ymuno ynddo.

Buddiannau'n gwrthdaro

16. (1) Os yw cyfarfod o'r cyfarwyddwyr neu ran o gyfarfod o'r cyfarwyddwyr yn ymwneud â thrafodyn neu gytundeb gwirioneddol neu arfaethedig â'r cwmni a bod cyfarwyddwr â buddiant ynddo, nid yw'r cyfarwyddwr hwnnw i'w gyfrif fel un sy'n ymuno yn y cyfarfod hwnnw neu yn y rhan honno o'r cyfarfod at ddibenion cworwm neu bleidleisio.

(2) Ond os yw paragraff (3) yn gymwys, mae cyfarwyddwr sydd â buddiant mewn trafodyn neu gytundeb gwirioneddol neu arfaethedig â'r cwmni i'w gyfrif fel un sy'n ymuno mewn penderfyniad mewn cyfarfod o'r cyfarwyddwyr, neu mewn rhan o gyfarfod o'r cyfarwyddwyr, sy'n ymwneud â hynny at ddibenion cworwm neu bleidleisio.

(3) Mae'r paragraff hwn yn gymwys

(a) lle bo'r cwmni, drwy benderfyniad arferol, yn anghymhwyso darpariaeth yr erthyglau a fyddai fel arall yn atal cyfarwyddwr rhag cael ei gyfrif fel un sy'n ymuno neu'n pleidleisio mewn cyfarfod o'r cyfarwyddwyr;

(b) lle na ellir ystyried yn rhesymol fod buddiant y cyfarwyddwr yn debyg o greu gwrthdaro buddiannau; neu

(c) lle bo gwrthdrawiad buddiannau'r cyfarwyddwr yn deillio o achos goddefedig.

(4) At ddibenion yr erthygl hon, mae'r canlynol yn achosion goddefedig:

(a) gwarant a roddwyd, neu sydd i'w rhoi, gan gyfarwyddwr neu i gyfarwyddwr mewn cysylltiad â rhwymedigaeth wedi'i thynnu gan neu ar ran y cwmni neu unrhyw un o'i is-gwmnïau;

(b) tanysgrifio, neu gytuno i danysgrifio, ar gyfer cyfrannau neu warannoedd eraill y cwmni neu unrhyw un o'i is-gwmnïau, neu danysgrifennu, is-danysgrifennu neu warantu tanysgrifiad ar gyfer unrhyw gyfrannau neu warannoedd o'r fath; ac

(c) trefniadau lle bydd buddion ar gael i gyflogedigion a chyfarwyddwyr neu gyn-gyflogedigion a chyn-gyfarwyddwyr i'r cwmni neu unrhyw un o'i is-gwmnïau nad yw'n darparu buddion arbennig ar gyfer cyfarwyddwyr neu gyn-gyfarwyddwyr.

(5) Yn amodol ar baragraff (6), os bydd cwestiwn yn codi mewn cyfarfod o'r cyfarwyddwyr neu bwyllgor cyfarwyddwyr gyda golwg ar hawl cyfarwyddwr i

ymuno yn y cyfarfod (neu mewn rhan o'r cyfarfod) at ddibenion pleidleisio neu gworwm, gall y cwestiwn, cyn dirwyn y cyfarfod i ben, gael ei atgyfeirio i sylw'r cadeirydd a bydd dyfarniad hwnnw mewn cysylltiad ag unrhyw gyfarwyddwr ar wahân i'r cadeirydd ei hun yn derfynol ac yn ddiymwad.

(6) Os bydd unrhyw gwestiwn gyda golwg ar hawl i ymuno yn y cyfarfod (neu mewn rhan o'r cyfarfod) yn codi yng nghyswllt y cadeirydd, mae'r cwestiwn i'w ddatrys drwy benderfyniad y cyfarwyddwyr yn y cyfarfod hwnnw, ac i'r diben hwn nid yw'r cadeirydd i'w gyfrif fel un sy'n ymuno yn y cyfarfod (neu yn y rhan honno o'r cyfarfod) at ddibenion pleidleisio neu gworwm.

Cynnig penderfyniadau ysgrifenedig y cyfarwyddwyr

17. (1) Gall unrhyw gyfarwyddwr gynnig penderfyniad-cyfarwyddwyr ysgrifenedig.

(2) Rhaid i ysgrifennydd y cwmni gynnig penderfyniad-cyfarwyddwyr ysgrifenedig os bydd cyfarwyddwr yn mynnu felly.

(3) Caiff penderfyniad ysgrifenedig y cyfarwyddwyr ei gynnig drwy ddosbarthu rhybudd am y penderfyniad arfaethedig ymhlith y cyfarwyddwyr.

(4) Rhaid i rybudd am benderfyniad ysgrifenedig a arfaethir gan y cyfarwyddwyr gyfleu

(a) y penderfyniad sydd yn yr arfaeth, a

(b) erbyn pryd y cynigir i'r cyfarwyddwyr ei fabwysiadu.

(5) Rhaid i rybudd am benderfyniad ysgrifenedig a arfaethir gan y cyfarwyddwyr gael ei gyflwyno'n ysgrifenedig i bob cyfarwyddwr.

(6) Rhaid i unrhyw beth y bydd rhywun sy'n rhoi rhybudd am benderfyniad ysgrifenedig a arfaethir gan y cyfarwyddwyr yn ei ddyfarnu mewn perthynas â'r proses o fabwysiadu'r penderfyniad hwnnw, fod yn rhesymol ac mewn pob ewyllys da.

Mabwysiadu penderfyniadau ysgrifenedig y cyfarwyddwyr

18. (1) Caiff penderfyniad ysgrifenedig a arfaethir gan y cyfarwyddwyr ei fabwysiadu pan fydd pob cyfarwyddwr a fyddai â hawl i bleidleisio ar y penderfyniad mewn cyfarfod o'r cyfarwyddwyr wedi llofnodi un neu ragor o gopïau ohono, ar yr amod y byddai'r cyfarwyddwyr hynny wedi ffurfio cworwm mewn cyfarfod o'r fath.

(2) Nid yw o bwys a fydd unrhyw gyfarwyddwr yn llofnodi'r penderfyniad cyn neu ar ôl yr amser yr oedd y rhybudd yn ei gynnig ar gyfer mabwysiadu'r penderfyniad.

(3) Unwaith bod penderfyniad-cyfarwyddwyr ysgrifenedig wedi'i fabwysiadu, rhaid ei drin fel pe bai'n benderfyniad a gafodd ei gymryd mewn cyfarfod o'r cyfarwyddwyr yn unol â'r erthyglau.

(4) Rhaid i ysgrifennydd y cwmni sicrhau bod y cwmni'n cadw cofnod ysgrifenedig o holl benderfyniadau ysgrifenedig y cyfarwyddwyr am o leiaf deng mlynedd ar ôl dyddiad eu mabwysiadu.

Disgresiwn cyfarwyddwyr i wneud rheolau pellach

19. Yn amodol ar yr erthyglau, gall y cyfarwyddwyr wneud unrhyw reol a welant yn dda o ran sut y cymerant benderfyniadau, ac o ran sut y mae rheolau felly i'w cofnodi neu eu cyfleu i gyfarwyddwyr eraill.

PENODI CYFARWYDDWYR

Dulliau penodi cyfarwyddwyr

20. (1) Gall unrhyw un sy'n barod i weithredu'n gyfarwyddwr, ac y caniatâ'r gyfraith iddo wneud felly, gael ei benodi'n gyfarwyddwr

(a) drwy benderfyniad arferol, neu

(b) drwy benderfyniad gan y cyfarwyddwyr.

Ymddiswyddiad cyfarwyddwyr mewn trefn gylchredol

21. (1) Yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol cyntaf, mae'n rhaid i bob cyfarwyddwr ymddiswyddo o'i safle.

(2) Ymhob cyfarfod cyffredinol blynyddol wedyn, mae'n rhaid i unrhyw gyfarwyddwyr

(a) a gafodd eu penodi gan y cyfarwyddwyr ers y cyfarfod cyffredinol blynyddol diwethaf, neu

(b) na chawsant mo'u penodi neu eu hailbenodi yn un o'r ddau gyfarfod cyffredinol blynyddol blaenorol

ymddiswyddo o'u safleoedd a gallant ymgynnig i gael eu hailbenodi gan yr aelodau.

Terfynu penodiad cyfarwyddwr

22. Mae rhywun yn rhoi heibio i fod yn gyfarwyddwr cyn gynted â bod

(a) y person hwnnw yn rhoi heibio i fod yn gyfarwyddwr yn rhinwedd unrhyw un o ddarpariaethau Deddf Cwmnïau 2006 neu ei fod yn cael ei wahardd rhag bod yn gyfarwyddwr o dan y gyfraith;

(b) gorchymyn methdalu yn cael ei wneud yn erbyn y person hwnnw;

(c) cyfamod yn cael ei wneud â chredydwyr y person hwnnw'n gyffredinol i ad-dalu dyledion y person;

(d) ymarferydd meddygol cofrestredig sy'n trin y person hwnnw yn cyflwyno barn ysgrifenedig i'r cwmni yn datgan bod y person wedi mynd yn gorfforol neu'n feddyliol analluog i weithredu'n gyfarwyddwr ac y gall aros felly am fwy na thri mis;

(e) llys, oherwydd iechyd meddwl y person hwnnw, yn gwneud gorchymyn yn atal y person yn llwyr neu'n rhannol rhag arfer unrhyw bwerau neu hawliau a fyddai ganddo fel arall;

(f) y cwmni'n cael ei hysbysu gan y cyfarwyddwr fod y cyfarwyddwr yn ymddiswyddo o'i safle fel cyfarwyddwr a bod yr ymddiswyddo hwnnw wedi dod i rym yn unol â'r amodau.

Cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr

23. (1) Caiff cyfarwyddwyr ymgymryd ag unrhyw wasanaethau dros y cwmni y bydd y cyfarwyddwyr yn penderfynu arnynt.

(2) Bydd gan gyfarwyddwyr hawl i unrhyw gydnabyddiaeth y gall y cyfarwyddwyr ei phennu

(a) am eu gwasanaethau i'r cwmni fel cyfarwyddwyr, a

(b) am unrhyw wasanaeth arall a gyflawnant i'r cwmni.

(3) Yn amodol ar yr erthyglau, gall cydnabyddiaeth cyfarwyddwr

(a) fod ar unrhyw ffurf, a

(b) cynnwys unrhyw drefniadau mewn cysylltiad â thalu pensiwn, lwfans neu arian rhodd, neu unrhyw fudd-daliadau marwolaeth, salwch neu anabledd, i'r cyfarwyddwr hwnnw neu yn ei gyswllt.

(4) Oni bai bod y cyfarwyddwyr yn penderfynu fel arall, bydd cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr yn ymgronni o ddydd i ddydd.

(5) Oni bai bod y cyfarwyddwyr yn penderfynu fel arall, ni fydd cyfarwyddwyr yn atebol i'r cwmni am unrhyw gydnabyddiaeth a gânt fel cyfarwyddwyr neu swyddogion eraill neu gyflogedigion i is-gwmnïau'r cwmni neu i unrhyw gorff corfforaethol arall y mae gan y cwmni fuddiant ynddo.

Treuliau cyfarwyddwyr

24. Gall y cwmni dalu unrhyw dreuliau rhesymol a dynnir yn briodol gan gyfarwyddwyr mewn cysylltiad â bod yn bresennol

(a) mewn cyfarfodydd o'r cyfarwyddwyr neu mewn pwyllgorau cyfarwyddwyr,

(b) mewn cyfarfodydd cyffredinol, neu

(c) mewn cyfarfodydd o ddeiliaid unrhyw ddosbarth o gyfrannau neu ddyledebau'r cwmni a gynhelir ar wahân,

neu fel arall mewn cysylltiad ag arfer eu pwerau a chyflawni'u cyfrifoldebau gyda golwg ar y cwmni.

CYFARWYDDWYR DIRPRWYOL

Penodi a diswyddo cyfarwyddwyr dirprwyol

25. (1) Caiff unrhyw gyfarwyddwr (y "penodydd") benodi cyfarwyddwr dirprwyol yn lle unrhyw gyfarwyddwr arall, neu rywun arall a gafodd ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan y cyfarwyddwyr,

(a) i arfer pwerau'r cyfarwyddwr hwnnw, a

(b) i gyflawni cyfrifoldebau'r cyfarwyddwr hwnnw

mewn cysylltiad â'r drefn benderfynu ymhlith y cyfarwyddwyr yn absenoldeb penodydd y cyfarwyddwr dirprwyol.

(2) Rhaid i unrhyw benodi neu ddiswyddo ar gyfarwyddwr dirprwyol gael ei weithredu drwy gyflwyno i'r cwmni rybudd ysgrifenedig wedi'i lofnodi gan y penodydd, neu drwy unrhyw ddull arall a gaiff ei gymeradwyo gan y cyfarwyddwyr.

(3) Rhaid i'r rhybudd

(a) uniaethu'r cyfarwyddwr dirprwyol arfaethedig, a

(b) yn achos rhybudd penodi, cynnwys datganiad wedi'i lofnodi gan y cyfarwyddwr dirprwyol arfaethedig i'r perwyl bod yr olaf hwn yn barod i weithredu'n ddirprwy dros y cyfarwyddwr sy'n cyflwyno'r rhybudd.

Hawliau a chyfrifoldebau cyfarwyddwyr dirprwyol

26. (1) Mae gan gyfarwyddwr dirprwyol yr un hawliau, mewn cysylltiad ag unrhyw gyfarfod o'r cyfarwyddwyr neu benderfyniad ysgrifenedig gan y cyfarwyddwyr, â phenodydd y cyfarwyddwr dirprwyol.

(2) Ac eithrio lle mae'r erthyglau'n pennu fel arall, bydd cyfarwyddwyr dirprwyol

(a) yn cael eu hystyried yn gyfarwyddwyr at bob rhyw ddiben;

(b) yn atebol am unrhyw weithredu ac esgeuluso o'u rhan eu hun;

(c) yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiadau â'u penodwyr; a

(d) heb gael eu hystyried yn asiantiaid eu penodwyr nac yn asiantiaid drostynt.

(3) Gall rhywun sy'n gyfarwyddwr dirprwyol ond nid yn gyfarwyddwr

(a) gael ei gyfrif fel un sy'n cymryd rhan at ddibenion pennu a oes cworwm yn ymuno mewn cyfarfod (ond dim ond lle nad yw penodydd y person hwnnw'n ymuno ei hun), a

(b) llofnodi penderfyniad ysgrifenedig (ond dim ond lle nad yw'r penderfyniad wedi'i lofnodi neu i fod wedi'i lofnodi gan benodydd y person hwnnw).

Ni ellir cyfrif unrhyw gyfarwyddwr dirprwyol yn fwy nag un cyfarwyddwr at ddibenion o'r fath.

(4) Nid oes hawl gan gyfarwyddwr dirprwyol i dderbyn unrhyw gydnabyddiaeth ariannol gan y cwmni am wasanaethu'n gyfarwyddwr dirprwyol, ar wahân i'r rhan honno o gydnabyddiaeth penodydd y cyfarwyddwr dirprwyol ag y gall y penodydd ei gyfarwyddo drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r cwmni.

Terfynu safle fel cyfarwyddwr dirprwyol

27. Bydd penodiad cyfarwyddwr dirprwyol fel cyfarwyddwr dirprwyol yn dod i ben

(a) pan fo penodydd y cyfarwyddwr dirprwyol yn dirymu'r penodiad drwy gyflwyno i'r cwmni rybudd ysgrifenedig yn pennu pa bryd y mae i ddod i ben;

(b) pan gwyd, mewn cysylltiad â'r cyfarwyddwr dirprwyol, unrhyw ddigwyddiad a fyddai, pe codai mewn cysylltiad â phenodydd y cyfarwyddwr dirprwyol, yn golygu terfynu penodiad y penodydd fel cyfarwyddwr;

(c) gyda marwolaeth penodydd y cyfarwyddwr dirprwyol; neu

(d) pan ddaw penodiad penodydd y cyfarwyddwr dirprwyol i ben, ac eithrio nad yw penodiad cyfarwyddwr dirprwyol fel cyfarwyddwr dirprwyol yn dod i ben wrth i'r penodydd ymddiswyddo yn ôl y drefn gylchredol mewn cyfarfod cyffredinol ac yna'n cael ei ailbenodi'n gyfarwyddwr yn yr un cyfarfod cyffredinol.

RHAN 3
AELODAU'N PENDERFYNU
TREFNU CYFARFODYDD CYFFREDINOL

Caiff yr aelodau alw cyfarfodydd cyffredinol os nad oes digon o gyfarwyddwyr

28. (a) Os oes llai na dau gyfarwyddwr gan y cwmni, a

(b) bod y cyfarwyddwr (os o gwbl) heb allu penodi, neu'n anfodlon penodi, digon o gyfarwyddwyr i ffurfio cworwm, neu alw cyfarfod cyffredinol i wneud felly,

yna caiff dau neu ragor o aelodau alw cyfarfod cyffredinol (neu gyfarwyddo ysgrifennydd y cwmni i wneud) er mwyn penodi un neu ragor o gyfarwyddwyr.

Bod yn bresennol a chael siarad mewn cyfarfodydd cyffredinol

29. (1) Caiff rhywun fanteisio ar yr hawl i siarad mewn cyfarfod cyffredinol lle bo'r person hwnnw mewn sefyllfa i gyfleu i bawb sy'n bresennol yn y cyfarfod, yn ystod y cyfarfod ei hun, unrhyw wybodaeth neu farn sydd gan y person ar fusnes y cyfarfod.

(2) Caiff rhywun fanteisio ar yr hawl i bleidleisio mewn cyfarfod cyffredinol

(a) lle caiff y person hwnnw bleidleisio, yn ystod y cyfarfod ei hun, ar benderfyniadau a gyflwynir i bleidlais yn y cyfarfod, a

(b) lle gellir cymryd pleidlais y person hwnnw i ystyriaeth wrth bennu a yw penderfyniadau felly'n cael eu mabwysiadu neu beidio, yr un pryd â phleidleisiau pawb arall sy'n bresennol yn y cyfarfod.

(3) Gall y cyfarwyddwyr wneud pa drefniadau bynnag a welant yn briodol i alluogi'r rhai sy'n bresennol mewn cyfarfod cyffredinol i fanteisio ar eu hawl i siarad neu bleidleisio ynddo.

(4) Wrth bennu'r nifer sy'n bresennol mewn cyfarfod cyffredinol, nid yw o bwys a fydd unrhyw ddau neu ragor o'r aelodau sydd ynddo yn digwydd bod yn yr un lle â'i gilydd.

(5) Bydd dau neu ragor o bobl nad ydynt yn yr un lle â'i gilydd yn bresennol mewn cyfarfod cyffredinol lle mae eu hamgylchiadau'n golygu, os oes ganddynt yr hawl (neu pe derbynient yr hawl) i siarad a phleidleisio yn y cyfarfod hwnnw, fod modd iddynt (neu y byddai modd iddynt) fanteisio ar yr hawl honno.

Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd cyffredinol

30. Nid oes yr un busnes arall ar wahân i benodi cadeirydd y cyfarfod i'w drafod mewn cyfarfod cyffredinol os nad yw'r bobl sy'n bresennol ynddo yn ffurfio cworwm.

Cadeirio cyfarfodydd cyffredinol

31. (1) Lle mae'r cyfarwyddwyr wedi penodi cadeirydd, bydd y cadeirydd yn cadeirio cyfarfodydd cyffredinol os yw'n bresennol ac yn barod i wneud.

(2) Os nad yw'r cyfarwyddwyr wedi penodi cadeirydd neu os yw'r cadeirydd yn anfodlon cadeirio'r cyfarfod neu heb fod yn bresennol o fewn deg munud i'r amser yr oedd y cyfarfod i fod i ddechrau,

(a) rhaid i'r cyfarwyddwyr sydd yn bresennol, neu

(b) (os nad oes cyfarwyddwyr yn bresennol) rhaid i'r cyfarfod

benodi cyfarwyddwr neu aelod i gadeirio'r cyfarfod, a rhaid i benodiad cadeirydd y cyfarfod fod yn fusnes cyntaf i'r cyfarfod.

(3) Fel "cadeirydd y cyfarfod" y cyfeirir at y sawl sy'n cadeirio cyfarfod yn unol â'r erthygl hon.

Cyfarwyddwyr a rhai nad ydynt yn aelodau yn cael bod yn bresennol a siarad

32. (1) Caiff cyfarwyddwyr fod yn bresennol a siarad mewn cyfarfodydd cyffredinol, p'un a fônt yn aelodau neu beidio.

(2) Gall cadeirydd y cyfarfod ganiatáu i eraill nad ydynt

(a) yn aelodau o'r cwmni, neu

(b) yn awdurdodedig fel arall i fanteisio ar hawliau aelodau gyda golwg ar gyfarfodydd cyffredinol,

fod yn bresennol a siarad mewn cyfarfod cyffredinol.

Gohirio

33. (1) Os nad yw'r bobl sy'n bresennol mewn cyfarfod cyffredinol o fewn hanner awr i'r amser yr oedd y cyfarfod i fod i ddechrau yn ffurfio cworwm, neu os bydd cworwm yn peidio â bod yn bresennol yn ystod y cyfarfod, rhaid i gadeirydd y cyfarfod ei ohirio.

(2) Gall cadeirydd y cyfarfod ohirio cyfarfod cyffredinol lle mae cworwm yn bresennol

(a) os bydd y cyfarfod yn cydsynio i ohiriad, neu

(b) os ymddengys i gadeirydd y cyfarfod fod angen gohirio er mwyn sicrhau diogelwch unrhyw berson sy'n bresennol yn y cyfarfod neu fod busnes y cyfarfod yn cael ei gynnal mewn ffordd drefnus.

(3) Mae'n rhaid i gadeirydd y cyfarfod ohirio cyfarfod cyffredinol os bydd y cyfarfod yn ei gyfarwyddo i wneud.

(4) Wrth ohirio cyfarfod cyffredinol, rhaid i gadeirydd y cyfarfod

(a) naill ai pennu'r amser a'r lle y caiff ei ohirio iddynt neu ddatgan ei fod i barhau am amser ac mewn lle y bydd y cyfarwyddwyr yn eu pennu, a

(b) rhoi sylw i unrhyw gyfarwyddyd a roes y cyfarfod gyda golwg ar amser a lle unrhyw ohiriad.

(5) Os yw parhad cyfarfod a gafodd ei ohirio i ddigwydd mwy na 14 diwrnod ar ôl y gohirio, rhaid i'r cwmni roi o leiaf 7 diwrnod clir o rybudd amdano (hynny yw, heb gyfrif diwrnod y cyfarfod a gafodd ei ohirio a'r diwrnod y rhoir rhybudd)

(a) i'r un bobl y mae'n ofynnol eu rhybuddio am gyfarfodydd cyffredinol y cwmni, a

(b) yn cynnwys yr un wybodaeth y mae'n ofynnol i rybudd o'r fath ei chynnwys.

(6) Ni ellir trafod unrhyw fusnes mewn cyfarfod cyffredinol a gafodd ei ohirio na fyddid wedi gallu'i drafod yn briodol yn y cyfarfod pe na ddigwyddasai'r gohirio.

PLEIDLEISIO MEWN CYFARFODYDD CYFFREDINOL

Pleidleisio: cyffredinol

34. Rhaid i benderfyniad a gyflwynir i bleidlais mewn cyfarfod cyffredinol gael ei ddatrys drwy godi llaw, oni fynnir pôl yn briodol yn unol â'r erthyglau.

Camgymeriadau ac anghydfodau

35. (1) Ni ellir codi gwrthwynebiad i gymhwyster unrhyw berson sy'n pleidleisio mewn cyfarfod cyffredinol ac eithrio yn y cyfarfod ei hun neu mewn cyfarfod gohiriedig lle caiff y bleidlais a wrthwynebir ei mynegi, a bydd pob pleidlais na wrthodir yn y cyfarfod yn ddilys.

(2) Rhaid i unrhyw wrthwynebiad o'r fath gael ei atgyfeirio i sylw cadeirydd y cyfarfod a bydd dyfarniad hwnnw yn derfynol.

Mynnu pôl

36. (1) Gellir mynnu pôl yng nghyswllt penderfyniad

(a) cyn y cyfarfod cyffredinol lle caiff y penderfyniad ei gyflwyno i bleidlais, neu

(b) mewn cyfarfod cyffredinol, naill ai cyn codi llaw ar y penderfyniad hwnnw neu yn union ar ôl datgan canlyniad y codi llaw ar y penderfyniad.

(2) Gall pôl gael ei fynnu

(a) gan gadeirydd y cyfarfod;

(b) gan y cyfarwyddwyr;

(c) gan ddau neu ragor o bobl sydd â hawl i bleidleisio ar y penderfyniad; neu

(d) gan berson neu bobl sy'n cynrychioli nid llai na degfed ran o gyfanswm hawliau pleidleisio'r holl aelodau sydd â hawl i bleidleisio ar y penderfyniad.

(3) Gall cais am bleidlais pôl gael ei dynnu'n ôl

(a) os na chynhaliwyd y pôl eto, a

(b) os yw cadeirydd y cyfarfod yn cydsynio i'r tynnu'n ôl.

Y drefn ar gyfer cynnal pôl

37. (1) Yn amodol ar yr erthyglau, rhaid i bleidleisiau pôl mewn cyfarfodydd cyffredinol gael eu cymryd ar yr adeg, yn y lle ac yn y ffordd a gyfarwydda cadeirydd y cyfarfod.

(2) Gall cadeirydd y cyfarfod benodi archwilwyr (nad oes angen iddynt fod yn aelodau) a phenderfynu sut a phryd y mae canlyniad y pôl i'w ddatgan.

(3) Canlyniad y pôl fydd dyfarniad y cyfarfod gyda golwg ar y penderfyniad y mynnwyd pôl yn ei gyswllt.

(4) Rhaid i bleidlais pôl

(a) ar ethol cadeirydd y cyfarfod, neu

(b) ar gwestiwn o ohirio

gael ei gymryd yn syth.

(5) Rhaid i bleidleisiau pôl eraill gael eu cymryd o fewn 30 diwrnod i'w mynnu.

(6) Ni fydd mynnu pôl yn atal cyfarfod cyffredinol rhag bwrw ymlaen, ac eithrio yng nghyswllt y cwestiwn y mynnwyd pôl arno.

(7) Does dim angen rhoi rhybudd am bleidlais pôl na chynhelir yn syth os caiff yr amser a'r lle ar gyfer ei gynnal eu cyhoeddi yn y cyfarfod lle mynnir pôl.

(8) Mewn unrhyw achos arall, rhaid rhoi rhybudd o 7 diwrnod fan leiaf, yn pennu amser a lleoliad cynnal y pôl.

Cynnwys rhybuddion dirprwy

38. (1) Ni all dirprwyon gael eu penodi'n ddilys ond drwy hysbysiad ysgrifenedig ("rhybudd dirprwy") sydd

(a) yn nodi enw a chyfeiriad yr aelod sy'n penodi'r dirprwy;

(b) yn uniaethu'r sawl sydd i'w benodi'n ddirprwy i'r aelod hwnnw a'r cyfarfod cyffredinol y mae'r person yn cael ei benodi yn ei gyswllt;

(c) wedi ei lofnodi gan neu ar ran yr aelod sy'n penodi'r dirprwy, neu wedi ei ddilysu yn ôl fel y gall y cyfarwyddwyr ei bennu; a

(d) yn cael ei ddanfon i'r cwmni yn unol â'r erthyglau ac unrhyw gyfarwyddyd sydd wedi'i gynnwys yn y rhybudd am y cyfarfod cyffredinol dan sylw.

(2) Gall y cwmni fynnu bod rhybuddion dirprwy yn cael eu danfon ar ffurf arbennig, a gall bennu ffurfiau gwahanol at ddibenion gwahanol.

(3) Gall rhybuddion dirprwy bennu sut mae'r dirprwy a gaiff ei benodi o danynt i fod i bleidleisio (neu fod y dirprwy i fod i ymatal rhag pleidleisio) ar un neu ragor o benderfyniadau.

(4) Oni bai bod rhybudd dirprwy yn nodi fel arall, rhaid ei drin fel un

(a) sy'n caniatáu i'r sawl a benodir yn ddirprwy o dano ryddid o ran sut i bleidleisio ar unrhyw benderfyniadau atodol neu drefniadol a gaiff eu rhoi gerbron y cyfarfod, a

(b) sy'n penodi'r person hwnnw'n ddirprwy mewn cysylltiad ag unrhyw ohirio ar y cyfarfod cyffredinol y mae a wnelo ag ef yn ogystal â'r cyfarfod ei hun.

Danfon rhybuddion dirprwy

39. (1) Rhaid i unrhyw rybudd am gyfarfod cyffredinol bennu'r cyfeiriad neu'r cyfeiriadau ("cyfeiriad rhybuddion dirprwy") lle bydd y cwmni neu ei asiantiaid yn derbyn rhybuddion dirprwy yn ymwneud â'r cyfarfod hwnnw, neu unrhyw ohiriad ohono, wedi'u danfon fel copi caled neu ar ffurf electronig.

(2) Bydd rhywun sydd â hawl i fod yn bresennol, siarad neu bleidleisio mewn cyfarfod cyffredinol (naill ai drwy godi llaw neu drwy bleidlais pôl) yn aros â hawl felly yn y cyfarfod hwnnw neu mewn unrhyw ohiriad ohono, er y gall rhybudd dirprwy dilys fod wedi cael ei ddanfon i'r cwmni gan neu ar ran y person dan sylw.

(3) Yn amodol ar baragraffau (4) a (5), rhaid i rybudd dirprwy gael ei ddanfon i gyfeiriad rhybuddion dirprwy nid llai na 48 awr cyn y cyfarfod cyffredinol neu'r cyfarfod gohiriedig y mae'n cyfeirio ato.

(4) Yn achos pôl a gaiff ei gynnal mwy na 48 awr ar ôl ei fynnu, rhaid danfon y rhybudd i gyfeiriad rhybuddion dirprwy nid llai na 24 awr cyn yr amser a bennwyd ar gyfer cynnal y pôl.

(5) Yn achos pôl na chaiff mo'i gynnal yn ystod y cyfarfod ond a drefnir nid mwy na 48 awr ar ôl ei fynnu, rhaid cyflwyno'r rhybudd dirprwy
(a) yn unol â pharagraff (3), neu

(b) yn y cyfarfod lle cafodd pôl ei fynnu, i'r cadeirydd, yr ysgrifennydd neu unrhyw gyfarwyddwr.

(6) Gall penodiad o dan rybudd dirprwy gael ei alw'n ôl drwy ddanfon i'r cwmni hysbysiad ysgrifenedig wedi'i roi gan neu ar ran y sawl y cyflwynwyd y rhybudd dirprwy i gyfeiriad rhybuddion dirprwy ganddo neu ar ei ran.

(7) Ni fydd rhybudd sy'n adalw penodiad dirprwy yn dod i rym ond lle caiff ei ddanfon

(a) cyn dechrau'r cyfarfod neu'r cyfarfod gohiriedig y mae a wnelo ag ef, neu

(b) (yn achos pôl na chaiff mo'i gynnal yr un dydd â'r cyfarfod neu'r cyfarfod gohiriedig) cyn yr amser a bennwyd ar gyfer cynnal y pôl y mae a wnelo ag ef.

(8) Os na chaiff rhybudd dirprwy mo'i lofnodi gan y sawl sy'n penodi'r dirprwy, rhaid cyflwyno gydag ef dystiolaeth ysgrifenedig o awdurdod y sawl a'i cyflawnodd i'w gyflawni ar ran y penodydd.

Diwygio penderfyniadau

40. (1) Gall penderfyniad arferol sydd i'w gynnig mewn cyfarfod cyffredinol gael ei ddiwygio drwy benderfyniad arferol

(a) os cyflwynir i ysgrifennydd y cwmni rybudd ysgrifenedig am y diwygio arfaethedig gan rywun sydd â hawl i bleidleisio yn y cyfarfod cyffredinol lle mae i gael ei gynnig, a hynny nid llai na 48 awr cyn yr amser a bennwyd i'r cyfarfod (neu unrhyw amser diweddarach y gall cadeirydd y cyfarfod ei bennu) a

(b) os nad yw'r diwygiad arfaethedig, ym marn resymol cadeirydd y cyfarfod, yn newid cwmpas y penderfyniad yn ei hanfod.

(2) Gall penderfyniad arbennig sydd i'w gynnig mewn cyfarfod cyffredinol gael ei ddiwygio drwy benderfyniad arferol

(a) os bydd cadeirydd y cyfarfod yn cynnig y diwygiad yn y cyfarfod cyffredinol lle bwriedir cynnig y penderfyniad, a

(b) os nad yw'r diwygiad yn mynd ymhellach na'r hyn sydd angen i gywiro nam gramadegol neu ryw nam ansylweddol arall yn y penderfyniad.

(3) Os bydd cadeirydd y cyfarfod, drwy weithredu â phob ewyllys da, yn penderfynu ar gam fod diwygio penderfyniad allan o drefn, nid yw camgymeriad y cadeirydd yn annilysu'r bleidlais ar y penderfyniad hwnnw.

CYFYNGIADAU AR HAWLIAU AELODAU

Dim pleidleisio cyfrannau y mae arian yn ddyledus i'r cwmni yn eu cyswllt

41. Ni all unrhyw hawliau pleidleisio sydd ynghlwm wrth gyfran gael eu cyflawni mewn unrhyw gyfarfod cyffredinol, mewn unrhyw ohiriad ohono, na thrwy unrhyw bleidlais pôl a gaiff ei alw ynddo neu yn ei gyswllt, oni bai bod pob swm sy'n daladwy i'w cwmni gyda golwg ar y gyfran honno wedi cael ei dalu.

CYMHWYSO'R RHEOLAU AT GYFARFODYDD DOSBARTH

Cyfarfodydd dosbarth

42. Mae darpariaethau'r erthyglau sy'n ymwneud â chyfarfodydd cyffredinol yn gymwys, gyda unrhyw addasiadau angenrheidiol, i gyfarfodydd o ddeiliaid unrhyw ddosbarth o gyfrannau.

RHAN 4
CYFRANNAU A DOSRANIADAU
RHYDDHAU CYFRANNAU

Pwerau i ryddhau gwahanol ddosbarthiadau cyfrannau

43. (1) Yn amodol ar yr erthyglau, ond heb afles i'r hawliau sydd ynghlwm wrth unrhyw gyfran bresennol, gall y cwmni ryddhau cyfrannau gyda'r hawliau neu'r cyfyngiadau hynny a all gael eu pennu drwy benderfyniad arferol.

(2) Gall y cwmni ryddhau cyfrannau sydd i'w hadennill, neu'n agored i'w hadennill yn ôl dewis y cwmni neu'r deiliad, a gall y cyfarwyddwyr bennu'r amodau, y telerau a'r dull adennill ar gyfer unrhyw gyfrannau o'r fath.

Talu comisiwn wrth danysgrifio ar gyfer cyfrannau

44. (1) Gall y cwmni dalu comisiwn yn gydnabyddiaeth i unrhyw un wrth i hwnnw

(a) danysgrifio, neu gytuno i danysgrifio, ar gyfer cyfrannau, neu

(b) caffael, neu gytuno i gaffael, tanysgrifiadau ar gyfer cyfrannau.

(2) Rhaid i unrhyw gomisiwn o'r fath gael ei dalu

(a) drwy arian parod, neu drwy gyfrannau llawndaledig neu rannol daledig neu warannoedd eraill, neu yn rhannol mewn un ffordd ac yn rhannol yn y llall, a

(b) mewn perthynas â thanysgrifiad amodol neu absoliwt.

BUDDIANNAU MEWN CYFRANNAU

Y cwmni heb ei gyfrwymo gan fuddiannau llai nag absoliwt

45. Ac eithrio fel y myn y gyfraith, does neb i'w gydnabod gan y cwmni fel rhywun sy'n dal unrhyw gyfran ar goel, a heblaw am yr hyn a fynnir fel arall gan y gyfraith neu'r erthyglau, nid yw'r cwmni i'w gyfrwymo mewn unrhyw ffordd gan unrhyw fuddiant mewn cyfran, nac i gydnabod buddiant felly, ar wahân i berchnogaeth lwyr y deiliad ohoni a'r holl hawliau sydd ynghlwm wrthi.

TYSTYSGRIFAU CYFRAN

Tystysgrifau i'w rhoi, ac eithrio mewn achosion arbennig

46. (1) Rhaid i'r cwmni roi i bob aelod un neu ragor o dystygrifau mewn cysylltiad â'r cyfrannau a ddelir gan yr aelod hwnnw.

(2) Nid yw'r erthygl hon yn gymwys i'r canlynol:

(a) cyfrannau di-dystysgrif;

(b) cyfrannau y rhoddwyd gwarant gyfrannau yn eu cyswllt; nac

(c) cyfrannau y mae'r Deddfau Cwmnïau'n caniatáu i'r cwmni beidio â rhoi tystysgrif yn eu cyswllt.

(3) Ac eithrio lle pennir fel arall yn yr erthyglau, rhaid rhoi pob tystysgrif yn rhad ac am ddim.

(4) Ni ellir rhoi tystysgrif ar gyfer cyfrannau o fwy nag un dosbarth.

(5) Os oes mwy nag un person yn dal cyfran, dim ond un dystysgrif y gellir ei rhoi yn ei chyswllt.

Cynnwys a chyflawniad tystysgrifau cyfran

47. (1) Rhaid i bob tystysgrif bennu

(a) faint o gyfrannau, ac o ba ddosbarth, y caiff ei rhoi yn eu cyswllt;

(b) gwerth nominal y cyfrannau hynny;

(c) y swm sydd wedi'i dalu yn eu cyswllt; a

(d) unrhyw rifau gwahaniaethol a briodolwyd iddynt.

(2) Rhaid i dystysgrifau

(a) ddangos sêl gyffredin y cwmni neu sêl swyddogol sy'n adlun o sêl gyffredin y cwmni gan ychwanegu ar ei hwyneb y gair "Gwarannoedd" ("sêl warannoedd"), neu

(b) cael eu cyflawni fel arall yn unol â'r Deddfau Cwmnïau.

Tystysgrifau cyfran cyfunol

48. (1) Lle bo daliad aelod unigol o gyfrannau dosbarth arbennig yn cynyddu, gall y cwmni roi i'r aelod hwnnw

(a) un dystysgrif gyfunol ar gyfer yr holl gyfrannau o ddosbarth arbennig a ddelir gan yr aelod, neu

(b) tystysgrif ar wahân ar gyfer dim ond y cyfrannau hynny sydd wedi cynyddu daliad yr aelod.

(2) Lle bo daliad aelod unigol o gyfrannau dosbarth arbennig yn lleihau, rhaid i'r cwmni ofalu rhoi i'r aelod un neu ragor o dystysgrifau ar gyfer y nifer o gyfrannau a ddelir gan yr aelod ar ôl y lleihau hwnnw. Ond does dim angen i'r cwmni roi tystysgrif newydd (yn niffyg cais gan yr aelod)

(a) os oedd yr holl gyfrannau na ddelir mohonynt gan yr aelod mwyach yn sgil y lleihau a

(b) os nad oedd unrhyw rai o'r cyfrannau a gedwir gan yr aelod yn sgil y lleihau

wedi'u cynrychioli, yn union cyn y lleihau, gan yr un dystysgrif.

(3) Caiff aelod fynnu'n ysgrifenedig i'r cwmni amnewid

(a) tystysgrifau unigol yr aelod â thystysgrif gyfunol, neu

(b) tystysgrif gyfunol yr aelod â dwy neu ragor o dystysgrifau ar wahân yn cynrychioli'r dogn hwnnw o'r cyfrannau ag y gall yr aelod ei bennu.

(4) Lle bo'r cwmni'n cydymffurfio â chais o'r fath, gall godi'r ffi resymol honno y gall y cyfarwyddwyr ei phennu am wneud felly.

(5) Rhaid peidio â rhoi tystysgrif gyfunol oni bai bod unrhyw dystysgrifau y mae i gymryd eu lle, wedi eu dychwelyd i'r cwmni'n gyntaf i gael eu canslo.

Tystysgrifau cyfran amnewid

49. (1) Os caiff tystysgrif a roddwyd mewn cysylltiad â chyfrannau aelod

(a) ei niweidio neu ei difwyno, neu

(b) ei cholli, fe honnir, neu ei dwyn neu ei dinistrio,

bydd yr aelod hwnnw â hawl i gael tystysgrif amnewid ar gyfer yr un cyfrannau.

(2) Lle bo aelod yn manteisio ar yr hawl i dderbyn tystysgrif amnewid o'r fath,

(a) caiff y person hwnnw fanteisio yr un pryd ar yr hawl i dderbyn un dystysgrif neu dystysgrifau ar wahân;

(b) rhaid iddo ddychwelyd i'r cwmni y dystysgrif sydd i'w hamnewid os yw wedi'i niweidio neu ei difwyno; ac

(c) rhaid iddo gydymffurfio â'r amodau hynny y gall y cyfarwyddwyr eu pennu gyda golwg ar dystiolaeth, indemniad a thalu ffi resymol.

CYFRANNAU HEB EU DAL AR FFURF DYSTYSGRIFEDIG

Cyfrannau di-dystysgrif

50. (1) Yn yr erthyglau hyn, ystyr "y rheolau perthnasol" yw

(a) unrhyw ddarpariaeth gymwys o'r Deddfau Cwmnïau ynglŷn â dal cyfrannau, tystiolaethu'r teitl iddynt neu drosglwyddo cyfrannau ar ffurf ar wahân i'r ffurf dystysgrifedig, a

(b) unrhyw ddeddfwriaeth, rheolau neu drefniadau cymwys eraill a wnaed o dan ddarpariaeth o'r fath neu yn ei rhinwedd.

(2) Mae darpariaethau'r erthygl hon yn cael effaith yn amodol ar y rheolau perthnasol.

(3) Rhaid anwybyddu unrhyw ddarpariaeth o dan yr erthyglau sy'n anghyson â'r rheolau perthnasol i'r graddau ei bod yn anghyson lle bynnag y bo'r rheolau perthnasol yn gymwys.

(4) Gellir rhyddhau neu ddal unrhyw gyfran neu ddosbarth o gyfrannau'r cwmni o dan amodau neu mewn ffordd sy'n golygu

(a) nad yw'r teitl iddi neu iddynt wedi'i dystiolaethu, neu fod rhaid iddo beidio â chael ei dystiolaethu, gan dystysgrif, neu

(b) y gellir ei throsglwyddo neu eu trosglwyddo, neu fod rhaid ei throsglwyddo neu eu trosglwyddo, yn llwyr neu'n rhannol heb dystysgrif.

(5) Mae gan y cyfarwyddwyr y pŵer i gymryd y camau hynny a welant yn dda o ran

(a) tystiolaethu a throsglwyddo'r teitl i gyfrannau di-dystysgrif (gan gynnwys mewn cysylltiad â rhyddhau cyfrannau o'r fath);

(b) unrhyw gofnodion yn ymwneud â dal cyfrannau di-dystysgrif;

(c) trosi cyfrannau tystysgrifedig yn rhai di-dystysgrif, neu

(d) trosi cyfrannau di-dystysgrif yn rhai tystysgrifedig.

(6) Gall y cwmni, drwy gyflwyno rhybudd i'r deiliad, fynnu bod cyfran

(a) os yw'n ddi-dystysgrif, yn cael ei throsi i'r ffurf dystysgrifedig, a

(b) os yw'n dystysgrifedig, yn cael ei throsi i'r ffurf ddi-dystysgrif,

fel y gellir delio â hi yn unol â'r erthyglau.

(7) (a) Os yw'r erthyglau'n rhoi i'r cyfarwyddwyr y pŵer i gymryd camau, neu i fynnu bod eraill yn cymryd camau, i werthu, trosglwyddo neu gael gwared â chyfrannau fel arall, a

(b) os yw cyfrannau di-dystysgrif yn ddarostyngedig i'r pŵer hwnnw, ond bod y pŵer wedi'i fynegi mewn termau sy'n cymryd yn ganiataol y defnyddir tystysgrif neu offeryn ysgrifenedig arall,

gall y cyfarwyddwyr gymryd y camau hynny sydd angen neu sy'n gyfleus i gyrraedd yr un nod wrth arfer y pŵer hwnnw mewn cysylltiad â chyfrannau di-dystysgrif.

(8) Yn arbennig, gall y cyfarwyddwyr gymryd y camau hynny a welant yn briodol i wireddu gwerthu, trosglwyddo, gwaredu, fforffedu, ailglustnodi neu ildio cyfran ddi-dystysgrif neu i orfodi hawlrwym yn ei chyswllt fel arall.

(9) Oni bai bod y cyfarwyddwyr yn pennu fel arall, rhaid i gyfrannau a ddelir gan aelod ar ffurf ddi-dystysgrif gael eu trin fel daliadau ar wahân i unrhyw gyfrannau a ddelir gan yr aelod hwnnw ar ffurf dystysgrifedig.

(10) Rhaid peidio â thrin dosbarth o gyfrannau yn ddau ddosbarth am y rheswm syml bod rhai o gyfrannau'r dosbarth hwnnw wedi'u dal ar ffurf dystysgrifedig ac eraill yn ddi-dystysgrif.

Gwarantau cyfran

51. (1) Gall y cyfarwyddwyr roi gwarant gyfran yng nghyswllt unrhyw gyfran lawndaledig.

(2) Rhaid i warantau cyfran

(a) gael eu rhoi ar y ffurf honno, a

(b) cael eu cyflawni yn y dull hwnnw

y bydd y cyfarwyddwyr yn ei bennu.

(3) Gall cyfran sydd wedi'i chynrychioli gan warant gyfran gael ei throsglwyddo drwy ddanfon y warant sy'n ei chynrychioli.

(4) Gall y cyfarwyddwyr ddarparu ar gyfer talu buddrannau mewn cysylltiad ag unrhyw gyfran sydd wedi'i chynrychioli gan warant gyfran.

(5) Yn amodol ar yr erthyglau, gall y cyfarwyddwyr benderfynu'r amodau ar gyfer rhoi unrhyw warant gyfran. Yn arbennig, gallant

(a) benderfynu'r amodau ar gyfer rhoi gwarantau newydd yn lle rhai a gafodd eu niweidio neu eu difwyno, neu yr honnir eu bod wedi'u colli, eu dwyn neu eu dinistrio;

(b) penderfynu'r amodau sy'n rheoli hawl deiliaid gwarant i fod yn bresennol a phleidleisio mewn cyfarfodydd cyffredinol;

(c) penderfynu'r amodau sy'n rheoli rhyddid deiliaid gwarant i ildio'u gwarant er mwyn dal eu cyfrannau ar ffurf dystysgrifedig neu'n ddi-dystysgrif yn lle hynny; a

(d) amrywio'r amodau y rhoir unrhyw warant o danynt o dro i dro,

a bydd deiliad gwarant yn ddarostyngedig i'r amodau a'r drefn sydd mewn grym yn ei chyswllt, p'un a gafodd y rhain eu penderfynu neu eu pennu cyn rhoi'r warant ai peidio.

(6) Gan ddibynnu ar yr amodau sy'n rheoli rhoi'r gwarantau o dro i dro, mae gan ddeiliaid gwarantau cyfran yr un hawliau a breintiau ag a fyddai ganddynt pe bai eu henwau wedi cael eu cynnwys yn y gofrestr fel deiliaid y cyfrannau a gynrychiolir gan eu gwarantau.

(7) Rhaid i'r cwmni beidio â chydnabod na chael ei gyfrwymo mewn unrhyw ffordd gan unrhyw fuddiant mewn cyfran sydd wedi'i chynrychioli gan warant gyfran, heblaw am hawl absoliwt deiliad y warant i'r warant dan sylw.

CYFRANNAU RHANNOL DALEDIG

Hawlrwym y cwmni dros gyfrannau rhannol daledig

52. (1) Bydd gan y cwmni hawlrwym ("hawlrwym y cwmni") dros bob cyfran sy'n rhannol daledig ar gyfer unrhyw ran

(a) o werth nominal y gyfran honno, a

(b) o unrhyw bremiwm oedd ynghlwm wrthi pan gafodd ei rhyddhau,

a'r rhan honno'n daladwy yn syth neu rywbryd yn y dyfodol ond bod y rhan honno heb ei thalu i'r cwmni, p'un a anfonwyd rhybudd erchi yn ei chyswllt neu beidio.

(2) Mae hawlrwym y cwmni dros gyfran

(a) yn blaenoriaethu dros fuddiant unrhyw drydydd parti yn y gyfran honno, a

(b) yn estyn i unrhwy fuddran neu arian arall sy'n daladwy gan y cwmni gyda golwg ar y gyfran honno a hefyd (os caiff yr hawlrwym ei orfodi a bod y gyfran yn cael ei gwerthu gan y cwmni) yr elw sy'n deillio o werthu'r gyfran.

(3) Gall y cyfarwyddwyr benderfynu unrhyw adeg na ddylai cyfran sydd neu a fyddai fel arall yn ddarostyngedig i hawlrwym y cwmni fod yn ddarostyngedig iddo, naill ai'n llwyr neu'n rhannol.

Gorfodi hawlrwym y cwmni

53. (1) Yn amodol ar ddarpariaethau'r erthygl hon,

(a) os cyflwynwyd rhybudd gorfodi hawlrwym mewn cysylltiad â chyfran, a

(b) os yw'r sawl y cyflwynwyd y rhybudd iddo wedi methu cydymffurfio ag ef,

caiff y cwmni werthu'r gyfran honnno unrhyw ffordd y bydd y cyfarwyddwyr yn ei phenderfynu.

(2) Lle mae rhybudd gorfodi hawlrwym yn y cwestiwn,

(a) ni ellir ei gyflwyno ond mewn perthynas â chyfran sy'n ddarostyngedig i hawlrwym y cwmni a lle bo swm yn daladwy yng nghyswllt hwnnw a'r dyddiad dyledus ar gyfer talu'r swm wedi mynd heibio;

(b) rhaid iddo bennu'r gyfran dan sylw;

(c) rhaid mynnu talu'r swm sy'n daladwy o fewn 14 diwrnod i'r rhybudd;

(d) rhaid ei gyfeirio naill ai at ddeiliad y gyfran neu at rywun sydd â hawl iddi oherwydd marwolaeth neu fethdaliad y deiliad neu fel arall; ac

(e) rhaid iddo nodi bwriad y cwmni i werthu'r gyfran os na chydymffurfir â'r rhybudd.

(3) Lle caiff cyfrannau eu gwerthu o dan yr erthygl hon,

(a) gall y cyfarwyddwyr awdurdodi rhywun i gyflawni offeryn i drosglwyddo'r cyfrannau i'r prynwr neu berson wedi'i enwebu gan y prynwr, a

(b) nid yw'r trosglwyddai'n rhwym o weld cymhwyso'r gydnabyddiaeth ariannol ac nid effeithir ar deitl y trosglwyddai gan unrhyw afreoleidd-dra neu annilysrwydd o ran y proses a arweiniodd at y gwerthu.

(4) Rhaid i elw net unrhyw werthiant o'r fath (ar ôl talu costau'r gwerthu ac unrhyw gostau eraill yng nghyswllt gorfodi'r hawlrwym) gael eu cymhwyso

(a) yn gyntaf, at dalu cymaint o'r swm a roes fod i'r hawlrwym ag oedd yn daladwy ar ddyddiad y rhybudd gorfodi hawlrwym,

(b) yn ail, at y sawl oedd â hawl i'r cyfrannau ar ddyddiad eu gwerthu, ond dim ond ar ôl i dystysgrif y cyfrannau a werthwyd gael ei hildio i'r cwmni i'w chanslo neu ar ôl i indemniad priodol gael ei roi ar gyfer unrhyw dystysgrifau coll, ac yn amodol ar hawlrwym cyfwerth â hawlrwym y cwmni dros y cyfrannau fel yr oedd cyn y gwerthiant ar gyfer unrhyw arian fydd yn daladwy yng nghyswllt y cyfrannau ar ôl dyddiad y rhybudd gorfodi hawlrwym.

(5) Bydd datganiad statudol gan gyfarwyddwr neu ysgrifennydd y cwmni i'r perwyl bod y datganydd yn gyfarwyddwr neu'n ysgrifennydd i'r cwmni a bod cyfran wedi'i gwerthu i fodloni hawlrwym y cwmni ar ddyddiad penodedig

(a) yn dystiolaeth ddiymwad o'r ffeithiau a nodir ynddo yn erbyn pawb sy'n honni bod â hawl i'r gyfran, a

(b) os cydymffurfir ag unrhyw ffurfioldebau eraill yng nghyswllt trosglwyddo sy'n ofynnol o dan yr erthyglau neu'r gyfraith, yn golygu teitl da i'r gyfran.

Rhybuddion erchi

54. (1) Yn amodol ar yr erthyglau ac amodau clustnodi'r cyfrannau, gall y cyfarwyddwyr anfon rhybudd ("rhybudd erchi") at aelod yn mynnu bod yr aelod yn

talu i'r cwmni swm penodedig o arian ("archiad") sy'n daladwy yng nghyswllt cyfrannau sydd ym meddiant yr aelod hwnnw ar y dyddiad y penderfyna'r cyfarwyddwyr anfon y rhybudd erchi.

(2) Lle mae rhybudd erchi yn y cwestiwn,

(a) ni all fynnu bod aelod yn talu archiad sy'n fwy na'r cyfanswm sydd heb ei dalu ar gyfrannau'r aelod hwnnw (p'un ai gyda golwg ar werth nominal y gyfran neu unrhyw swm sy'n daladwy i'r cwmni o ran premiwm);

(b) rhaid iddo nodi pa bryd a sut y mae unrhyw archiad y mae'n cyfeirio ato i gael ei dalu; ac

(c) gall ganiatáu neu fynnu bod yr archiad yn cael ei dalu drwy randaliadau.

(3) Rhaid i aelod gydymffurfio â gofynion rhybudd erchi, ond ni fydd unrhyw aelod dan rwymedigaeth i dalu archiad cyn bod 14 diwrnod wedi mynd heibio ers anfon y rhybudd.

(4) Cyn bod y cwmni wedi derbyn unrhyw archiad sy'n ddyledus o dan rybudd erchi, caiff y cyfarwyddwyr

(a) ei adalw'n llwyr neu'n rhannol, neu

(b) pennu amser talu diweddarach na'r un a nodwyd yn y rhybudd,

drwy gyflwyno rhybudd ysgrifenedig pellach i'r aelod y gwneir yr archiad yng nghyswllt ei gyfrannau.

Atebolrwydd dros dalu archiadau

55. (1) Ni chaiff yr atebolrwydd dros dalu archiad mo'i ddileu na'i drosglwyddo drwy drosglwyddo cyfrannau y mae'n ofynnol ei dalu yn eu cyswllt.

(2) Mae cyd-ddeiliaid cyfran yn atebol ar y cyd ac yn unigol dros dalu pob archiad yng nghyswllt y gyfran honno.

(3) Yn amodol ar delerau clustnodi'r gyfran, gall y cyfarwyddwyr ddarparu, wrth ryddhau cyfrannau, y gall rhybuddion erchi a gaiff eu hanfon at ddeiliaid y cyfrannau hynny fynnu eu bod

(a) yn talu archiadau nad ydynt yr un fath, neu

(b) yn talu archiadau ar adegau gwahanol.

Adegau pan nad oes angen rhoi rhybudd erchi

56. (1) Does dim angen cyflwyno rhybudd erchi ar gyfer symiau sydd wedi'u pennu, yn yr amodau y rhyddheir cyfran o danynt, fel rhai taladwy i'r cwmni yng nghyswllt y gyfran honno (p'un ai o ran gwerth nominal neu bremiwm)

(a) wrth glustnodi;

(b) wrth i ddigwyddiad arbennig godi; neu

(c) ar ddyddiad wedi'i bennu gan amodau'r rhyddhau neu yn unol â'r amodau.

(2) Ond os yw'r dyddiad dyledus ar gyfer talu swm o'r fath wedi mynd heibio a bod y swm heb ei dalu, caiff deiliad y gyfran dan sylw ei drin ar bob rhyw wedd fel un sydd wedi methu cydymffurfio â rhybudd erchi ar gyfer y swm hwnnw, a bydd yn agored i'r un canlyniadau o ran talu llog a fforffedu.

Methiant i gydymffurfio â rhybudd erchi: canlyniadau awtomatig

57. (1) Os oes rhywun yn agored i dalu archiad a'i fod yn methu gwneud erbyn y dyddiad talu archiad,

(a) gall y cyfarwyddwyr gyflwyno rhybudd fforffedu arfaethedig i'r person hwnnw, a

(b) nes i'r archiad gael ei dalu, bydd raid i'r person dalu i'r cwmni log ar yr archiad o'r dyddiad talu archiad yn ôl y gyfradd berthnasol.

(2) At ddibenion yr erthygl hon

(a) y "dyddiad talu archiad" yw'r amser y noda'r rhybudd erchi fod archiad yn daladwy, oni bai bod y cyfarwyddwyr yn cyflwyno hysbysiad yn pennu dyddiad diweddarach – os felly, y "dyddiad talu archiad" fydd y dyddiad diweddarach hwnnw;

(b) y "gyfradd berthnasol" fydd

(i) y gyfradd a gafodd ei phennu gan amodau clustnodi'r gyfran y mae'r archiad yn ddyledus yn ei chyswllt;

(ii) rhyw gyfradd arall a bennwyd yn y rhybudd erchi a fynnai i'r archiad gael ei dalu, neu a bennwyd fel arall gan y cyfarwyddwyr; neu

(iii) os na phennwyd cyfradd yn y naill na'r llall o'r ffyrdd hyn, 5 y cant y flwyddyn.

(3) Rhaid i'r gyfradd berthnasol beidio â bod yn uwch o fwy na 5 pwynt canran na'r gyfradd fenthyca sylfaenol a gafodd ei gosod ddiweddaraf gan Bwyllgor Polisi Cyllidol Banc Lloegr mewn cysylltiad â'i gyfrifoldebau o dan Ran 2 o Ddeddf Banc Lloegr 1998[(a)].

(4) Gall y cyfarwyddwyr hepgor, yn llwyr neu'n rhannol, unrhyw rwymedigaeth i dalu llog ar archiad.

[(a)] 1998 c.11

Rhybudd fforffedu arfaethedig

58. Lle mae rhybudd fforffedu arfaethedig yn y cwestiwn,

(a) gall gael ei anfon yng nghyswllt unrhyw gyfran na thalwyd archiad o dani fel y mynnwyd gan rybudd erchi;

(b) rhaid ei anfon at ddeiliad y gyfran neu rywun sydd â hawl iddi oherwydd marwolaeth neu fethdaliad y deiliad neu fel arall;

(c) rhaid iddo fynnu taliad i fodloni'r archiad ynghyd ag unrhyw log a fo wedi cronni erbyn dyddiad na fydd yn llai na 14 diwrnod ar ôl dyddiad y rhybudd;

(d) rhaid iddo ddatgan sut mae'r taliad i'w wneud; ac

(e) rhaid iddo ddatgan, os na chydymffurfir â'r rhybudd, y bydd y cyfrannau y mae'r archiad yn daladwy yn eu cysywllt yn agored i gael eu fforffedu.

Pŵer cyfarwyddwyr i fforffedu cyfrannau

59. Os na chydymffurfir â rhybudd fforffedu arfaethedig erbyn y dyddiad y mae'r rhybudd yn ei bennu ar gyfer talu'r archiad, gall y cyfarwyddwyr benderfynu bod unrhyw gyfran yr anfonwyd y rhybudd yn ei chyswllt yn cael ei fforffedu, a'r fforffedu hwnnw i gynnwys pob buddran neu arian arall sy'n daladwy yng nghyswllt y cyfrannau a fforffedir lle na thalwyd y rheiny cyn y fforffedu.

Effaith fforffedu

60. (1) Yn amodol ar yr erthyglau, bydd fforffedu cyfran yn dileu

(a) pob buddiant yn y gyfran honno, ynghyd â phob hawliad a gorchymyn yn erbyn y cwmni yn ei chyswllt, a

(b) pob hawl a rhwymedigaeth arall sy'n gysylltiedig â'r gyfran, rhwng y cwmni a'r sawl oedd piau'r gyfran cyn y fforffedu.

(2) Gyda golwg ar unrhyw gyfran a gaiff ei fforffedu yn unol â'r erthyglau,

(a) ystyrir bod honno wedi'i fforffedu wrth i'r cyfarwyddwyr benderfynu ei bod wedi'i fforffedu;

(b) ystyrir bod honno'n eiddo i'r cwmni; ac

(c) gall gael ei gwerthu, ei hailglustnodi neu ei gwaredu rywsut arall fel y gwêl y cyfarwyddwyr yn dda.

(3) Os cafodd cyfrannau rhywun eu fforffedu,

(a) rhaid i'r cwmni anfon hysbysiad at y person hwnnw yn dweud bod y fforffedu wedi digwydd, a chofnodi hynny yn y gofrestr aelodau;

(b) bydd y person yn peidio â bod yn aelod gyda golwg ar y cyfrannau hynny;

(c) rhaid i'r person ildio tystysgrif y cyfrannau a fforffedwyd i'r cwmni, i gael ei chanslo;

(d) bydd y person hwnnw'n dal yn atebol i'r cwmni dros bob swm sy'n daladwy gan y person yng nghyswllt y cyfrannau o dan yr erthyglau ar ddyddiad y fforffedu, gan gynnwys unrhyw log (p'un a ymgronnodd hwnnw cyn dyddiad y fforffedu neu wedyn); ac

(e) gall y cyfarwyddwyr hepgor taliad i fodloni symiau o'r fath yn llwyr neu'n rhannol, neu orfodi taliad heb ddarparu ar gyfer gwerth y cyfrannau adeg eu fforffedu nac ar gyfer unrhyw gydnabyddiaeth a ddaeth i law drwy gael gwared â nhw.

(4) Unrhyw adeg cyn i'r cwmni gael gwared â chyfran a fforffedir, gall y cyfarwyddwyr benderfynu canslo'r fforffedu wrth i bob archiad a llog gael eu talu yn ei chyswllt ac o dan yr amodau eraill hynny a welant yn dda.

Y drefn yn sgil fforffedu

61. (1) Os yw cyfran a fforffedwyd i gael ei gwaredu drwy ei throsglwyddo, gall y cwmni dderbyn y gydnabyddiaeth ariannol am y trosglwyddo a gall y cyfarwyddwyr awdurdodi unrhyw un i gyflawni'r offeryn trosglwyddo.

(2) Bydd datganiad statudol gan gyfarwyddwr neu ysgrifennydd y cwmni i'r perwyl bod y datganydd yn gyfarwyddwr neu'n ysgrifennydd i'r cwmni a bod cyfran wedi'i fforffedu ar ddyddiad penodedig

(a) yn dystiolaeth ddiymwad o'r ffeithiau a nodir ynddo yn erbyn pawb sy'n honni bod â hawl i'r gyfran, a

(b) os cydymffurfir ag unrhyw ffurfioldebau eraill yng nghyswllt trosglwyddo sy'n ofynnol o dan yr erthyglau neu'r gyfraith, yn golygu teitl da i'r gyfran.

(3) Ni fydd y sawl y trosglwyddir cyfran fforffededig iddo yn rhwym o weld cymhwyso'r gydnabyddiaeth (os os gwbl) ac nid effeithir ychwaith ar deitl y person hwnnw i'r gyfran gan unrhyw afreoleidd-dra neu annilysrwydd o ran y proses a arweiniodd at fforffedu neu drosglwyddo'r gyfran.

(4) Os bydd y cwmni'n gwerthu cyfran a gafodd ei fforffedu, bydd gan y sawl a'i daliai cyn ei fforffedu hawl i dderbyn oddi wrth y cwmni yr elw a ddeilliodd o werthiant o'r fath, yn glir o unrhyw gomisiwn, a heb gynnwys unrhyw swm

(a) a oedd neu a fyddai wedi dod yn daladwy, a

(b) nad oedd, pan fforffedwyd y gyfran honno, wedi cael ei dalu gan y person dan sylw mewn cysylltiad â'r gyfran honno,

ond ni fydd unrhyw log yn daladwy i rywun felly mewn perthynas ag elw o'r fath ac ni fydd yn ofynnol i'r cwmni roi cyfrif am unrhyw arian a enillwyd ar sail yr elw.

Ildio cyfrannau

62. (1) Caiff aelod ildio unrhyw gyfran

(a) y gall y cyfarwyddwyr gyflwyno rhybudd fforffedu arfaethedig yn ei chyswllt;

(b) y gall y cyfarwyddwyr ei fforffedu; neu

(c) a gafodd ei fforffedu.

(2) Gall y cyfarwyddwyr dderbyn ildiad unrhyw gyfran o'r fath.

(3) Bydd effaith ildio cyfran yr un fath ag effaith fforffedu'r gyfran honno.

(4) Gellir delio â chyfran a gafodd ei hildio yn yr un modd â chyfran a gafodd ei fforffedu.

TROSGLWYDDO A THRAWSGLUDO CYFRANNAU

Trosglwyddo cyfrannau tystysgrifedig

63. (1) Gellir trosglwyddo cyfrannau tystysgrifedig drwy gyfrwng offeryn trosglwyddo ar unrhyw ffurf arferol neu ar ffurf arall sy'n gymeradwy gan y cyfarwyddwyr, a hwnnw'n cael ei gyflawni gan neu ar ran

(a) y trosglwyddydd, a

(b) (os oes unrhyw un o'r cyfrannau wedi'i thalu'n rhannol) y trosglwyddai.

(2) Ni ellir codi ffi am gofrestru unrhyw offeryn trosglwyddo nac unrhyw ddogfen arall sy'n ymwneud â theitl unrhyw gyfran neu'n effeithio arno.

(3) Gall y cwmni gadw unrhyw offeryn trosglwyddo a gaiff ei gofrestru.

(4) Bydd y trosglwyddydd yn dal yn ddeiliad ar gyfran dystysgrifedig nes i enw'r trosglwyddai gael ei gofnodi yn y gofrestr aelodau fel ei deiliad.

(5) Gall y cyfarwyddwyr wrthod cofrestru trosglwyddo cyfran dystysgrifedig

(a) os nad yw'r gyfran wedi'i thalu'n llawn;

(b) os na chaiff y trosglwyddo mo'i adneuo yn swyddfa gofrestredig y cwmni neu ryw le arall a bennwyd gan y cyfarwyddwyr;

(c) os na chyflwynir yr un pryd â'r trosglwyddiad y dystysgrif ar gyfer y cyfrannau y mae'n cyfeirio atynt, neu ryw dystiolaeth arall y gall y cyfarwyddwyr ei mynnu'n rhesymol i ddangos hawl y trosglwyddydd y wneud y trosglwyddo, neu

hawl rhywun ar wahân i'r trosglwyddydd i wneud y trosglwyddo ar ran y trosglwyddydd;

(d) os yw'r trosglwyddo'n ymwneud â mwy nag un dosbarth o gyfrannau; neu

(e) fod y trosglwyddo er budd mwy na phedwar trosglwyddai.

(6) Os bydd y cyfarwyddwyr yn gwrthod cofrestru trosglwyddo cyfran, rhaid i'r offeryn trosglwyddo gael ei ddychwelyd i'r trosglwyddai gyda'r hysbysiad gwrthod, oni bai eu bod yn amau y gall y trosglwyddo arfaethedig fod yn dwyll.

Trosglwyddo cyfrannau di-dystysgrif

64. Rhaid peidio â chofrestru trosglwyddo cyfran ddi-dystysgrif os yw er budd mwy na phedwar trosglwyddai.

Trawsgludo cyfrannau

65. (1) Os bydd teitl cyfran yn mynd i drawsgludai, gall y cwmni gydnabod y trawsgludai yn unig fel yr un sydd â theitl i'r gyfran honno.

(2) Does dim yn yr erthyglau hyn yn rhyddhau ystad aelod ymadawedig rhag unrhyw atebolrwydd mewn cysylltiad â chyfran a ddaliwyd yn unigol neu ar y cyd gan yr aelod hwnnw.

Hawliau trawsgludeion

66. (1) Lle bo trawsgludai sy'n dangos y dystiolaeth honno o'i hawl i gyfrannau y gall y cyfarwyddwyr ei mynnu'n briodol,

(a) caiff y person hwnnw, yn amodol ar yr erthyglau, ddewis naill ai dod yn ddeiliad ar y cyfrannau dan sylw neu drefnu iddynt gael eu trosglwyddo i rywun arall, a

(b) yn amodol ar yr erthyglau a hyd nes i'r cyfrannau gael eu trosglwyddo i rywun arall, bydd ganddo'r un hawliau ag oedd gan y deiliad.

(2) Ond nid oes gan drawsgludeion yr hawl i fod yn bresennol na phleidleisio mewn cyfarfod cyffredinol yng nghyswllt cyfrannau y mae ganddynt deitl iddynt oherwydd marwolaeth neu fethdaliad y deiliad neu fel arall, oni bai eu bod yn dod yn ddeiliaid ar y cyfrannau hynny.

Arfer hawliau trawsgludeion

67. (1) Rhaid i drawsgludeion sydd am ddod yn ddeiliaid ar y cyfrannau yr enillasant hawl iddynt roi gwybod i'w cwmni'n ysgrifenedig am y dymuniad hwnnw.

(2) Os yw'r gyfran yn dystysgrifedig a bod trawsgludai am iddi gael ei throsglwyddo i rywun arall, rhaid i'r trawsgludai gyflawni offeryn trosglwyddo yn ei chyswllt.

(3) Os yw'r gyfran yn ddi-dystysgrif a bod trawsgludai am iddi gael ei throsglwyddo i rywun arall, rhaid i'r trawsgludai

(a) ofalu rhoi pob cyfarwyddyd priodol i wireddu'r trosglwyddo, neu

(b) gofalu bod y gyfran ddi-dystysgrif yn cael ei newid i'r ffurf dystysgrifedig ac yna cyflawni offeryn trosglwyddo ar ei chyfer.

(4) Mae unrhyw drosglwyddo a wneir neu a gyflawnir o dan yr erthygl hon i gael ei drin fel pe bai wedi'i wneud neu ei gyflawni gan y sawl y deilliodd y trawsgludai hawliau ohono mewn cysylltiad â'r gyfran, ac fel pe na bai'r digwyddiad a roes fod i'r trawsgludo wedi codi.

Trawsgludeion wedi'u cyfrwymo gan rybuddion blaenorol

68. Os cyflwynir hysbysiad i gyfranddeiliad yng nghyswllt cyfrannau a bod trawsgludai â hawl i'r cyfrannau hynny, bydd y trawsgludai wedi'i gyfrwymo gan yr hysbysiad fel pe cawsai ei gyflwyno i'r aelod cyn bod enw'r trawsgludai wedi'i gofnodi yn y gofrestr aelodau.

CYFUNO CYFRANNAU

Y drefn ar gyfer cael gwared â ffracsiynau o gyfrannau

69. (1) Mae'r erthygl hon yn gymwys

(a) lle cafodd cyfrannau eu cyfuno neu eu rhannu, a

(b) lle bo aelodau, o ganlyniad, â hawl i ffracsiynau o gyfrannau.

(2) Gall y cyfarwyddwyr

(a) werthu'r cyfrannau sy'n cynrychioli'r ffracsiynau i unrhyw un, gan gynnwys y cwmni, am y pris gorau y gellir yn rhesymol ei gael;

(b) yn achos cyfran dystysgrifedig, awdurdodi unrhyw un i gyflawni offeryn i drosglwyddo'r cyfrannau i'r prynwr neu i berson wedi'i enwebu gan y prynwr; ac

(c) dosbarthu'r elw net o'r gwerthiant mewn dognau dyledus ymhlith deiliaid y cyfrannau.

(3) Lle bo hawl unrhyw ddeiliad i ddogn o'r elw o'r gwerthiant yn dod i lai nag isafswm wedi'i bennu gan y cyfarwyddwyr, gall dogn yr aelod hwnnw gael ei roi i gorff sy'n elusen at ddibenion cyfraith Cymru a Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

(4) Nid yw'r sawl y trosglwyddir y cyfrannau iddo dan rwymedigaeth i sicrhau bod unrhyw arian prynu yn cael eu derbyn gan y person sydd â hawl i'r ffracsiynau perthnasol.

(5) Nid effeithir ar deitl y trosglwyddai i'r gyfrannau gan unrhyw afreoleidd-dra neu annilysrwydd o ran y proses a arweiniodd at eu gwerthu.

DOSRANIADAU

Y drefn ar gyfer datgan buddrannau

70. (1) Gall y cwmni, drwy benderfyniad arferol, ddatgan buddrannau a gall y cyfarwyddwyr benderfynu talu buddrannau dros dro.

(2) Rhaid peidio â datgan buddran oni bai bod y cyfarwyddwyr wedi argymell ei swm. Rhaid i fuddran o'r fath beidio â bod yn fwy na'r swm y mae'r cyfarwyddwyr yn ei argymell.

(3) Ni all unrhyw fuddran gael ei datgan na'i thalu oni bai ei bod yn gyson â phriod hawliau'r aelodau.

(4) Oni bai bod penderfyniad yr aelodau i ddatgan buddran neu benderfyniad y cyfarwyddwyr i dalu un neu fod amodau rhyddhau cyfrannau felly yn pennu fel arall, rhaid iddi gael ei thalu yn ôl daliad cyfrannau pob aelod ar ddyddiad y penderfyniad neu'r dyfarniad i'w datgan neu ei thalu.

(5) Os caiff cyfalaf cyfrannau'r cwmni ei rannu'n wahanol ddosbarthiadau, ni ellir talu buddran dros dro ar gyfrannau sydd â hawliau gohiriedig neu anffafriedig ynghlwm wrthynt os bydd unrhyw fuddran flaenoriaethol mewn ôl-ddyled adeg ei thalu.

(6) Gall y cyfarwyddwyr dalu'n ysbeidiol unrhyw fuddran sy'n daladwy yn ôl cyfradd benodedig os ymddengys iddynt fod yr elw sydd ar gael i'w ddosbarthu yn cyfiawnhau'r talu.

(7) Os bydd y cyfarwyddwyr yn gweithredu gyda phob ewyllys da, ni thynnant atebolrwydd i ddeiliaid unrhyw gyfrannau y mae hawliau ffafriedig ynghlwm wrthynt, am unrhyw golled y gallant ei dioddef drwy dalu'n gyfreithlon fuddran dros dro ar gyfrannau sydd â hawliau gohiriedig neu anffafriedig.

Bwrw cyfrif o fuddrannau

71. (1) Ac eithrio lle caniateir fel arall gan yr erthyglau neu'r hawliau sydd ynghlwm wrth gyfrannau, rhaid i bob buddran

(a) gael ei datgan a'i thalu yn unol â'r symiau sydd wedi'u bodloni yng nghyswllt y cyfrannau y telir y fuddran arnynt, a

(b) cael ei dosrannu a'i thalu yn gymesur â'r symiau sydd wedi'u bodloni yng nghyswllt y cyfrannau yn ystod unrhyw ran neu rannau o'r cyfnod y telir y fuddran ar ei gyfer.

(2) Os rhyddheir unrhyw gyfran o dan amodau sy'n darparu ei bod yn gymwys ar gyfer buddran o ddyddiad arbennig ymlaen, bydd y gyfran honno'n gymwys ar gyfer buddran yn gyfatebol.

(3) At ddibenion bwrw cyfrif o fuddrannau, ni chymerir i ystyriaeth unrhyw swm a dalwyd ar gyfran cyn y dyddiad dyledus ar gyfer talu'r swm hwnnw.

Talu buddrannau a dosraniadau eraill

72. (1) Lle bo buddran neu swm arall sy'n ddosraniad yn daladwy mewn cysylltiad â chyfran, rhaid ei thalu yn un neu ragor o'r ffyrdd canlynol:

(a) trosglwyddo i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu wedi'i bennu gan dderbynnydd y dosraniad naill ai'n ysgrifenedig neu fel y gall y cyfarwyddwyr ddyfarnu rywsut arall;

(b) anfon siec wedi'i gwneud yn daladwy i dderbynnydd y dosraniad drwy'r post at dderbynnydd y dosraniad yng nghyfeiriad cofrestredig derbynnydd y dosraniad (os yw derbynnydd y dosraniad yn ddeiliad ar y gyfran), neu (mewn unrhyw achos arall) i gyfeiriad wedi'i bennu gan dderbynnydd y dosraniad naill ai'n ysgrifenedig neu fel y gall y cyfarwyddwyr ddyfarnu rywsut arall;

(c) anfon siec wedi'i gwneud yn daladwy i'r person hwnnw drwy'r post at y person yn y cyfeiriad hwnnw y bo derbynnydd y dosraniad wedi'i bennu naill ai'n ysgrifenedig neu fel y gall y cyfarwyddwyr ddyfarnu rywsut arall; neu

(d) unrhyw ddull talu arall y bydd y cyfarwyddwyr yn cytuno arno â derbynnydd y dosraniad naill ai'n ysgrifenedig neu fel y gall y cyfarwyddwyr ddyfarnu rywsut arall.

(2) Yn yr erthyglau, mae "derbynnydd y dosraniad" yn golygu, gyda golwg ar gyfran y mae buddran neu swm arall yn daladwy yn ei chyswllt,

(a) ddeiliad y gyfran; neu

(b) os oes dau neu ragor o gyd-ddeiliaid i'r gyfran, p'un bynnag ohonynt sydd wedi'i enwi gyntaf yn y gofrestr aelodau; neu

(c) y trawsgludai os nad oes gan y deiliad hawl i'r gyfran mwyach oherwydd marwolaeth neu fethdaliad, neu fel arall o dan weithrediad y gyfraith.

Tynnu'n ôl o ddosraniadau ar gyfer symiau sy'n ddyledus i'r cwmni

73. (1) (a) Os yw cyfran yn ddarostyngedig i hawlrwym y cwmni, a

(b) bod gan y cyfarwyddwyr hawl i anfon rhybudd gorfodi hawlrwym yn ei chyswllt,

gallant, yn lle anfon rhybudd gorfodi hawlrwym, ddidynnu o unrhyw fuddran neu swm arall sy'n daladwy yng nghyswllt y gyfran swm o arian fydd yn daladwy i'r

cwmni yng nghyswllt y gyfran honno i'r graddau bod ganddynt hawl i fynnu taliad o dan rybudd gorfodi hawlrwym.

(2) Rhaid i arian a ddidynnir felly gael eu defnyddio i dalu unrhyw rai o'r symiau sy'n daladwy yng nghyswllt y gyfran honno.

(3) Rhaid i'r cwmni roi gwybod yn ysgrifenedig i dderbynnydd y dosraniad

(a) am ffaith a swm unrhyw ddidyniad o'r fath;

(b) am unrhyw fethiant i dalu buddran neu swm arall sy'n daladwy yng nghyswllt cyfran yn sgil didyniad o'r fath; ac

(c) am sut y cymhwyswyd yr arian a gafodd eu didynnu.

Dim llog ar ddosraniadau

74. Ni chaiff y cwmni dalu llog ar unrhyw fuddran neu swm arall sy'n daladwy mewn cysylltiad â chyfran oni threfnwyd fel arall

(a) yn unol ag amodau rhyddhau'r gyfran, neu

(b) yn unol â darpariaethau cytundeb arall rhwng deiliad y gyfran honno a'r cwmni.

Dosraniadau heb eu hawlio

75. (1) Gall pob buddran neu swm arall sydd

(a) yn daladwy mewn cysylltiad â chyfrannau, a

(b) heb ei hawlio ar ôl y datgan neu'r dod yn daladwy,

gael ei fuddsoddi neu ei ddefnyddio fel arall gan y cyfarwyddwyr er lles y cwmni tan ei hawlio.

(2) Nid yw talu unrhyw fuddran neu swm arall o'r fath i gyfrif ar wahân yn gwneud y cwmni'n ymddiriedolydd yn ei gyswllt.

(3) (a) Os oes deuddeng mlynedd wedi mynd heibio ers y dyddiad y daeth buddran neu swm arall yn ddyledus i'w dalu, a

(b) os nad yw derbynnydd y dosraniad wedi'i hawlio,

ni fydd derbynnydd y dosraniad â hawl mwyach i'r fuddran neu'r swm arall hwnnw a bydd yn peidio ag aros yn ddyledus gan y cwmni.

Dosraniadau heb fod ar ffurf arian parod

76. (1) Yn amodol ar delerau rhyddhau'r gyfran dan sylw, gall y cwmni, drwy benderfyniad arferol yn ôl argymhelliad y cyfarwyddwyr, benderfynu talu'r cyfan neu ran o fuddran neu ddosraniad arall sy'n daladwy yng nghyswllt cyfran drwy drosglwyddo asedion o werth cyfatebol heb fod ar ffurf arian parod (gan gynnwys, yn ddigyfyngiad, gyfrannau neu warannoedd eraill mewn unrhyw gwmni).

(2) Os yw'r cyfrannau y telir dosraniad sydd heb fod ar ffurf arian parod yn eu cyswllt yn rhai di-dystysgrif, rhaid i unrhyw gyfrannau yn y cwmni a gaiff eu rhyddhau fel dosraniad sydd heb fod ar ffurf arian parod hefyd fod yn ddi-dystysgrif.

(3) At ddibenion talu dosraniad heb fod ar ffurf arian parod, gall y cyfarwyddwyr wneud unrhyw drefniadau a welant yn dda, gan gynnwys, lle cwyd unrhyw anhawster gyda golwg ar y dosraniad,

(a) bennu gwerth unrhyw asedion;

(b) talu arian parod i dderbynnydd unrhyw ddosraniad ar sail y gwerth hwnnw er mwyn addasu hawliau derbynwyr; ac

(c) breinio unrhyw asedion mewn ymddiriedolwyr.

Ildio hawl i ddosraniadau

77. Caiff derbynwyr dosraniadau ildio'u hawl i fuddran neu ddosraniad arall sy'n daladwy mewn cysylltiad â chyfran drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r cwmni i'r perwyl hwnnw, ond

(a) os oes mwy nag un deiliad i'r gyfran, neu

(b) fod mwy nag un person â hawl i'r gyfran, boed hynny oherwydd marwolaeth neu fethdaliad un neu ragor o gyd-ddeiliaid, neu fel arall,

ni fydd yr hysbysiad yn effeithiol oni bai y mynegir ei fod wedi'i roi, a'i lofnodi, gan bob un o'r deiliaid neu'r bobl sydd fel arall â hawl i'r gyfran.

CYFALAFU ELW

Awdurdod i gyfalafu a meddiannu symiau wedi'u cyfalafu

78. (1) Yn amodol ar yr erthyglau, gall y cyfarwyddwyr, os cânt eu hawdurdodi felly drwy benderfyniad arferol,

(a) benderfynu cyfalafu unrhyw ran o elw'r cwmni (p'un a fo ar gael i'w dosbarthu neu beidio) nad oes mo'i hangen i dalu buddran flaenoriaethol, neu unrhyw swm er credyd yng nghyfrif premiwm cyfrannau neu gronfa adennill cyfalaf y cwmni; a

(b) meddiannu unrhyw swm y penderfynant felly ei gyfalafu ("swm wedi'i gyfalafu") er lles y bobl a fyddai wedi bod â hawl iddo pe câi ei ddosbarthu fel buddran ("y rhai sydd â hawl"), a hynny mewn dognau cymesur.

(2) Rhaid cymhwyso symiau wedi'u cyfalafu

(a) ar ran y bobl sydd â hawl, a

(b) yn yr un dognau cymesur ag unrhyw fuddran a fyddai wedi cael ei dosbarthu yn eu plith.

(3) Gellir cymhwyso unrhyw swm wedi'i gyfalafu wrth dalu cyfrannau newydd o swm nominal sy'n gyfartal â'r swm wedi'i gyfalafu, a'r rheiny wedyn yn cael eu clustnodi, wedi'u credydu fel rhai llawndaledig, ar gyfer y bobl sydd â hawl neu yn ôl fel y gallant gyfarwyddo.

(4) Gellir cymhwyso swm wedi'i gyfalafu a'i feddiannu o'r elw oedd ar gael i'w ddosbarthu

(a) wrth dalu neu tuag at dalu unrhyw symiau oedd heb eu talu ar gyfrannau presennol wedi'u dal gan y bobl sydd â hawl, neu

(b) wrth dalu dyledebau newydd gan y cwmni, a'r rheiny wedyn yn cael eu clustnodi, wedi'u credydu fel rhai llawndaledig, ar gyfer y bobl sydd â hawl neu yn ôl fel y gallant gyfarwyddo.

(5) Yn amodol ar yr erthyglau, gall y cyfarwyddwyr

(a) gymhwyso symiau wedi'u cyfalafu yn unol â pharagraffau (3) a (4) yn rhannol mewn un ffordd ac yn rhannol mewn ffordd arall;

(b) gwneud y trefniadau hynny a welant yn dda i drin cyfrannau neu ddyledebau sy'n dod yn ddosbarthadwy drwy ffracsiynau o dan yr erthygl hon (gan gynnwys rhoi tystysgrifau ffracsiynol neu drefnu taliadau arian parod); ac

(c) awdurdodi unrhyw berson i lunio cytundeb â'r cwmni ar ran pawb sydd â hawl, a hwnnw'n gyfrwymol arnynt yng nghyswllt clustnodi cyfrannau a dyledebau ar eu cyfer o dan yr erthygl hon.

RHAN 5
AMRYWIOL DDARPARIAETHAU
CYFATHREBU

Y dulliau cyfathrebu i'w defnyddio

79. (1) Yn amodol ar yr erthyglau, gall unrhyw beth a anfonir neu a gyflenwir gan neu i'r cwmni o dan yr erthyglau gael ei anfon neu ei gyflenwi mewn unrhyw ffordd y mae Deddf Cwmnïau 2006 yn darparu ar ei chyfer mewn cysylltiad â dogfennau neu wybodaeth y mae unrhyw un o ddarpariaethau'r Ddeddf honno yn awdurdodi neu'n mynnu eu hanfon neu eu cyflenwi gan neu i'r cwmni.

(2) Yn amodol ar yr erthyglau, gall unrhyw hysbysiad neu ddogfen sydd i'w hanfon neu ei chyflenwi i gyfarwyddwr mewn cysylltiad â phenderfyniadau cyfarwyddwyr

gael ei hanfon neu ei chyflenwi hefyd yn y ffordd honno y gofynnodd y cyfarwyddwr hwnnw am i hysbysiadau neu ddogfennau o'r fath gael eu hanfon neu eu cyflenwi iddo am y tro.

(3) Gall cyfarwyddwr ddod i gytundeb â'r cwmni y dylai hysbysiadau neu ddogfennau a anfonir at y cyfarwyddwr hwnnw mewn ffordd arbennig gael eu hystyried fel rhai sydd wedi dod i law o fewn ysbaid penodedig i'w hanfon, ac i'r ysbaid penodedig fod yn llai na 48 awr.

Methiant i roi gwybod am fanylion cysylltu

80. (a) Os bydd y cwmni'n anfon dwy ddogfen olynol at aelod dros gyfnod o o leiaf 12 mis, a

(b) bod pob un o'r dogfennau hynny'n cael ei dychwelyd heb ei throsglwyddo, neu fod y cwmni'n cael ei hysbysu na throsglwyddwyd mohoni,

yna bydd yr aelod hwnnw'n peidio â bod â hawl i dderbyn hysbysiadau gan y cwmni.

(2) Bydd aelod sydd wedi colli'r hawl i dderbyn hysbysiadau gan y cwmni yn adennill yr hawl i dderbyn hysbysiadau o'r fath eto drwy anfon i'r cwmni

(a) gyfeiriad newydd i'w gofnodi yn y gofrestr aelodau, neu

(b) os cytunodd yr aelod y dylai'r cwmni ddefnyddio dull cyfathrebu ar wahân i anfon pethau i gyfeiriad o'r fath, yr wybodaeth sydd angen ar y cwmni i ddefnyddio'r dull cyfathrebu hwnnw'n effeithiol.

TREFNIADAU GWEINYDDOL

Seliau cwmni

81. (1) Dim ond drwy awdurdod y cyfarwyddwyr y gellir defnyddio unrhyw sêl gyffredin.

(2) Gall y cyfarwyddwyr benderfynu ymha ffordd ac ar ba ffurf y mae unrhyw sêl gyffredin neu sêl warannoedd i fod i'w defnyddio.

(3) Oni bai bod y cyfarwyddwyr yn penderfynu fel arall, os oes sêl gyffredin gan y cwmni a bod honno'n cael ei gosod ar ddogfen, rhaid i'r ddogfen gael ei llofnodi hefyd gan o leiaf un person awdurdodedig yng ngŵydd tyst a fydd yn cadarnhau'r llofnod.

(4) At ddibenion yr erthygl hon, person awdurdodedig yw

(a) unrhyw gyfarwyddwr i'r cwmni;

(b) ysgrifennydd y cwmni; neu

(c) unrhyw un a gafodd ei awdurdodi gan y cyfarwyddwyr at ddibenion llofnodi dogfennau y caiff y sêl gyffredin ei gosod arnynt.

(5) Os oes gan y cwmni sêl swyddogol i'w defnyddio dramor, ni ellir ei gosod ar ddogfen ond lle bo ei defnyddio ar y ddogfen honno, neu ar ddogfennau o ddosbarth y mae'n perthyn iddo, wedi'i awdurdodi drwy benderfyniad gan y cyfarwyddwyr.

(6) Os oes gan y cwmni sêl warannoedd, ni ellir ei gosod ar warannoedd ond gan ysgrifennydd y cwmni neu rywun a gafodd ei awdurdodi gan ysgrifennydd y cwmni i'w gosod ar warannoedd.

(7) At ddibenion yr erthyglau, mae cyfeiriadau at osod y sêl warannoedd ar unrhyw ddogfen yn cynnwys atgynhyrchu delwedd y sêl honno ar ddogfen neu mewn dogfen drwy unrhyw ddull mecanyddol neu electronig a gafodd ei gymeradwyo gan y cyfarwyddwyr gyda golwg ar y ddogfen honno neu ddogfennau o ddosbarth y mae'n perthyn iddo.

Dinistrio dogfennau

82. (1) Mae gan y cwmni hawl i ddinistrio

(a) pob offeryn trosglwyddo cyfrannau a gafodd ei gofrestru, a phob dogfen arall y gwneir cofnodion ar ei sail yn y gofrestr aelodau, ar ôl chwe blynedd i ddyddiad y cofrestru;

(b) pob mandad buddran, amrywiad neu ganslad yng nghyswllt mandad buddran, ynghyd â hysbysiadau newid cyfeiriad, ar ôl dwy flynedd i'w cofnodi;

(c) pob tystysgrif gyfran a gafodd ei chanslo ar ôl blwyddyn i ddyddiad y canslo;

(d) pob gwarant fuddran a siec a gafodd ei thalu ar ôl blwyddyn i ddyddiad y talu gwirioneddol; ac

(e) pob rhybudd dirprwy ar ôl blwyddyn i ddiwedd y cyfarfod y mae'r rhybudd dirprwy'n cyfeirio ato.

(2) Os bydd y cwmni'n dinistrio dogfen gyda phob ewyllys da, yn unol â'r erthyglau, a heb gael ei hysbysu am unrhyw hawliad y gall y ddogfen honno fod yn berthnasol iddo, cymerir yn ganiataol o blaid y cwmni'n derfynol

(a) fod pob cofnod yn y gofrestr yr honnir ei wneud ar sail offeryn trosglwyddo neu ddogfen arall a ddinistriwyd felly, wedi cael ei gynnwys yn ddyledus ac yn briodol;

(b) bod unrhyw offeryn trosglwyddo a ddinistriwyd felly yn offeryn dilys ac effeithiol a gafodd ei gofrestru'n ddyledus ac yn briodol;

(c) bod unrhyw dystysgrif gyfran a ddinistriwyd felly yn dystysgrif ddilys ac effeithiol a gafodd ei chanslo'n ddyledus ac yn briodol; a

(d) bod unrhyw ddogfen arall a ddinistriwyd felly yn ddogfen ddilys ac effeithiol yn unol â'r manylion a nodwyd yn ei chyswllt yn llyfrau neu gofnodion y cwmni.

(3) Nid yw'r erthygl hon yn gosod ar y cwmni unrhyw atebolrwydd na fyddai ganddo fel arall pe bai'n dinistrio unrhyw ddogfen cyn yr adeg a ganiateir gan yr erthygl hon.

(4) Yn yr erthygl hon, mae cyfeiriadau at dinistrio dogfen yn cynnwys cyfeiriad at gael gwared ag ef mewn unrhyw ffordd.

Dim hawl i archwilio cyfrifon na chofnodion eraill

83. Ac eithrio yn unol â darpariaethau'r gyfraith neu awdurdod y cyfarwyddwyr neu benderfyniad arferol gan y cwmni, does gan neb hawl i archwilio unrhyw rai o gofnodion cyfrifeg neu gofnodion neu ddogfennau eraill y cwmni yn rhinwedd ei safle fel aelod yn unig.

Darparu ar gyfer cyflogedigion wrth ddirwyn busnes i ben

84. Gall y cyfarwyddwyr benderfynu darparu ar gyfer lles pobl sydd wedi'u cyflogi neu a gafodd eu cyflogi gynt gan y cwmni neu unrhyw un o'i is-gwmnïau (ar wahân i gyfarwyddwr neu gyn-gyfarwyddwr neu gyfarwyddwr wrth gefn) mewn cysylltiad â dirwyn i ben neu drosglwyddo i unrhyw berson y cyfan neu ran o ymgymeriad y cwmni neu'r is-gwmni hwnnw.

INDEMNIO AC YSWIRIO CYFARWYDDWYR

Indemnio

85. (1) Yn amodol ar baragraff (2), gall unrhyw un o gyfarwyddwyr perthnasol y cwmni neu gwmni cysylltiedig gael ei indemnio ar sail asedion y cwmni rhag

(a) unrhyw atebolrwydd a dynnir gan y cyfarwyddwr hwnnw gyda golwg ar unrhyw esgeulustod, diffyg cydymffurfio, tor-ddyletswydd neu dor-ymddiriedaeth mewn perthynas â'r cwmni neu gwmni cysylltiedig,

(b) unrhyw atebolrwydd a dynnir gan y cyfarwyddwr hwnnw gyda golwg ar weithgareddau'r cwmni neu gwmni cysylltiedig yn rhinwedd ei sefyllfa fel ymddiriedolydd cynllun pensiwn galwedigaethol (yn unol â diffiniad adran 235(6) o Ddeddf Cwmnïau 2006),

(c) unrhyw atebolrwydd arall a dynnir gan y cyfarwyddwr hwnnw fel swyddog i'r cwmni neu gwmni cysylltiedig.

(2) Nid yw'r erthygl hon yn awdurdodi unrhyw indemniad a fyddai wedi'i wahardd neu ei wneud yn ddirym gan unrhyw un o ddarpariaethau'r Deddfau Cwmnïau neu gan unrhyw un arall o ddarpariaethau'r gyfraith.

(3) Yn yr erthygl hon

(a) mae cwmnïau'n gysylltiedig os yw un yn is-gwmni i'r llall neu fod y ddau'n is-gwmnïau i'r un corff corfforaethol, a

(b) mae "cyfarwyddwr perthnasol" yn golygu unrhyw gyfarwyddwr neu gyn-gyfarwyddwr i'r cwmni neu i gwmni cysylltiedig.

Yswirio

86. (1) Gall y cyfarwyddwyr benderfynu prynu a chadw yswiriant, ar draul y cwmni, er lles unrhyw gyfarwyddwr perthnasol yng nghyswllt unrhyw golled berthnasol.

(2) Yn yr erthygl hon

(a) mae "cyfarwyddwr perthnasol" yn golygu unrhyw gyfarwyddwr neu gyn-gyfarwyddwr i'r cwmni neu i gwmni cysylltiedig,

(b) mae "colled berthnasol" yn golygu unrhyw golled neu atebolrwydd a dynnwyd neu y gellir ei dynnu gan gyfarwyddwr perthnasol mewn cysylltiad â dyletswyddau neu bwerau'r cyfarwyddwr hwnnw gyda golwg ar y cwmni, unrhyw gwmni cysylltiedig neu unrhyw gronfa bensiwn neu gynllun cyfrannau i gyflogedigion y cwmni neu gwmni cysylltiedig, ac

(c) mae cwmnïau'n gysylltiedig os yw un yn is-gwmni i'r llall neu fod y ddau'n is-gwmnïau i'r un corff corfforaethol.

NODYN EGLURHAOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn, sydd wedi'i gwneud o dan adran 19 o Ddeddf Cwmnïau 2006 (c.46), yn pennu diwygiau enghreifftiol ar gyfer erthyglau cymdeithasiad

(a) cwmnïau preifat wedi'u cyfyngu drwy gyfrannau (rheoliad 2 ac Atodlen 1),

(b) cwmnïau preifat wedi'u cyfyngu drwy warant (rheoliad 3 ac Atodlen 2), ac

(c) cwmnïau cyhoeddus (rheoliad 4 ac Atodlen 3).

Yr erthyglau enghreifftiol hyn, yn awtomatig, fydd erthyglau cymdeithasiad cwmnïau wedi'u ffurfio o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 sydd, wrth ymffurfio, heb gofrestru'u herthyglau cymdeithasiad eu hun gyda'r Cofrestrydd Cwmnïau o dan y Ddeddf honno, neu, os gwnânt felly, sydd heb hepgor yr erthyglau enghreifftiol yn llwyr neu'n rhannol (adran 20 o Ddeddf 2006). Mae cwmnïau eraill yn rhydd i fabwysiadu'r erthyglau enghreifftiol yn llwyr neu'n rhannol.

Ni chynhyrchwyd Asesiad Ardrawiad ar gyfer y Rheoliadau hyn, gan na chânt ond effaith ysgafn iawn ar gostau busnesau, elusennau neu gyrff gwirfoddol.

© Hawlfraint y Goron 2008

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod a goruchwyliaeth Carol Tullo, Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi ac Argraffydd y Frenhines ar gyfer Deddfau Seneddol.